| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 16 Rhagfyr, 2010 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch Tywyn |
| **PWRPAS** | I geisio cefnogaeth y Cyngor ar gyfer argymhellion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r Argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwyr Strategol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn cyfnod o drafodaeth a gynhaliwyd yn nalgylch Tywyn, penderfyniad y Cyngor i symud tuag at Ymgynghoriad Statudol ar y cynigion, a'r Ymgynghoriad Statudol a gynhaliwyd yn ystod Haf 2010. Mae'r cynigion yn adlewyrchu anghenion Cyngor Gwynedd yn unol â strategaeth ad-drefnu ysgolion y Cyngor.

Mae dadansoddiad o sylwadau gyflwynwyd drwy'r ymgynghoriad statudol yn atodiad yr adroddiad. Cytunwyd yn ystod cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol, y byddai cofnodion o'r cyfarfodydd a chopïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer Aelodau Etholedig trwy eu grwpiau gwleidyddol. Rhoddwyd copïau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt (yn amodol ar olygiad o wybodaeth bersonol ynghylch unigolion i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwarchod Data 1998) yn Swyddfeydd y Cyngor (Swyddfa'r Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau ac yn Llyfrgell Tywyn.

Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol at sylw cyfarfod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 30 Tachwedd 2010 ac i Fwrdd y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2010.

## 1. Rhagymadrodd

1.1 Cafodd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ei sefydlu ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 cyfarfod ble trafodwyd ystod o dystiolaeth, yn cynnwys cyflwyniadau gan:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ESTYN/Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cynghrair a Chefnogwyr Ysgolion
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bychan, canolig a mawr yng Ngwynedd

- Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bychain

1.3 Yng Ngwanwyn 2009, cyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Ragorol i Blant yng Ngwynedd.*

1.4 Cytunwyd bod angen adolygu addysg trwy'r sir fesul dalgylch. Gosodwyd camau eglur ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Roedd yn cynnwys rhestr o amcanion a meini prawf y dylid eu cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:
- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a nifer disgyblion
- Amgylchfyd dysgu plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol
- Amgylchiadau Eithriadol
- Cylchlythyrau 23/02 a 021/2009

1.6 Cafodd ystod o feini prawf penodol eu datblygu o amgylch y ffactorau a grybwyllir uchod. Gan fesur y meini prawf yn erbyn sefyllfaoedd mewn dalgylchoedd unigol, cafodd Tywyn ei adnabod fel y dalgylch cychwynnol ar gyfer cynnal adolygiad.

1.7 ***Derbyniwyd y strategaeth yn unfrydol gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009.***

## 2. Adolygiad Dalgylch Tywyn

### *2.1 Dulliau Cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd sawl fforwm i geisio barn wrth i'r Deilydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, ac roedd y fforymau hynny'n cynnwys:

- Panel Adolygu'r Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc
- Cyfathrebu ar raddfa fwy eang
- Panel Ymgynghorol y Sir

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb oedd yn dangos diddordeb.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch Tywyn*

2.2.1 Cafodd Panel Adolygu Dalgylch Tywyn ei sefydlu yn ystod Gwanwyn 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Panel ar 21 Mai 2009, cynhaliwyd 4 cyfarfod pellach ar 18 Mehefin, 6 Gorffennaf, 10 Medi a 24 Medi 2009.

**2.2.2** Estynnwyd gwahoddiad i ddirprwyaeth - pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, a rhiant lywodraethwr - o bob un o'r wyth ysgol gynradd yn y dalgylch. Cafodd y pennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn a'r 6 cynghorydd lleol hefyd wahoddiad. ***Mynychwyd 5 cyfarfod gan 32 aelod parhaol oedd yn cynrychioli'r dalgylch.***

2.2.3 Derbyniodd a thrafododd y panel ystod o dystiolaeth, yn cynnwys pecyn o ystadegau ynghylch yr ardal y cytunwyd arnynt gan y Panel cyfan fel bod yn adlewyrchiad llawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgol gyflwyno sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am wybodaeth ychwanegol fel bo angen. Ar ddiwedd ail gyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2009, **roedd *Aelodau Panel Adolygu'r Dalgylch yn gytûn bod yr ystadegau a gyflwynwyd yn cyflwyno'n llawn ac yn adlewyrchu'n fanwl gywir y sefyllfa yn y dalgylch a bod ceisiadau pellach o'r dalgylch wedi derbyn ymateb llawn.***

2.2.4 Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd ar:

- y cyd-destun ariannol
- gwybodaeth ynghylch datblygiadau cenedlaethol yn cynnwys canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sefydlu patrymau o gydweithrediad rhwng ysgolion

2.2.5 Cyflwynodd y panel 9 opsiwn unigol posibl ar gyfer ad-drefnu ysgolion yr ardal yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2009. Ychwanegodd Panel Ymgynghorol y Sir 4 dewis arall (gweler isod). Caed dadansoddiad o'r goblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol o bob cynnig yn y cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2009, a chaed trafodaeth fanwl o fanteision ac anfanteision y dewisiadau yn y cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf a 10 Medi 2009. Rhestrir y dewisiadau isod:

- dim newid
- cydweithrediad rhwng Ysgolion Penybryn (Tywyn) ac Aberdyfi
- sefydlu Ysgol Aberdyfi fel canolfan Cyfnod Sylfaen ar gyfer cymunedau Tywyn ac Aberdyfi gydag Ysgol Penybryn yn darparu addysg yng Nghyfnod Allweddol 2
- cydweithrediad rhwng ysgolion Aberdyfi, Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithrediad rhwng ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas (Corris)
- cydweithrediad rhwng ysgolion Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Bryncrug, Abergynolwyn, Llwyngwril a Llanegryn
- cydweithrediad rhwng ysgolion Llwyngwril a Friog
- sefydlu 3 ysgol ffederal yn y dalgylch gyda'r lleill yn aros yn ysgolion cyfnod sylfaen

- cau ysgolion Llwyngwril, Llanegryn ac Abergynolwyn ac addasu'r safle yn Bryncrug i dderbyn disgyblion o'r tair ysgol
- cau Ysgol Aberdyfi a chynnig lle i blant o'r dalgylch yn Ysgol Tywyn
- sefydlu ysgol gynradd (3-11 oed) ar gyfer y dalgylch yn Tywyn, gan gau pob ysgol gynradd ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris)
- sefydlu ysgol gydol oes (3-16) ar gyfer y dalgylch yn Tywyn, gan gau pob ysgol gynradd ac eithrio Dyffryn Dulas (Corris).

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Ymwelodd y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd Panel Ymgynghorol y Sir (Cyng. Simon Glyn) â phob ysgol yn y dalgylch ar ddechrau'r broses. Diben yr ymweliad oedd cwrdd â phenaethiaid ac arsylwi a chael dealltwriaeth o sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol o'r Panel Adolygu Dalgylch, roedd y 6 cynghorydd lleol yn gytûn y dylent hwythau hefyd ymweld â phob ysgol. Gwnaed hynny cyn yr ail Banel Adolygu Dalgylch.

2.3.3 Cynhaliwyd dau gylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, rhwng 1-5 Mehefin 2009 a 14-21 Medi 2009. Roedd y cylch cychwynnol wedi ei gyfyngu i staff a chadeirydd y llywodraethwyr, tra derbyniodd staff, llywodraethwyr a rheini wahoddiad agored i fynychu cyfarfodydd ar wahân yn ystod yr ail gylch.

2.3.4 ***Felly, cynhaliwyd 32 o gyfarfodydd unigol yn ystod 12 diwrnod llawn, gyda chynrychiolwyr o ysgolion unigol, yn ogystal ag ymweliad gan y Deilydd Portffolio a chynrychiolydd Panel Ymgynghorol y Sir.***

2.3.5 Yn ystod yr ail gylch o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 14-21 Medi 2009, cafodd ysgolion gyfle i dderbyn gwybodaeth ynghylch trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch ac awgrymu syniadau ynghylch y dewisiadau unigol a'r modelau dalgylch oedd dan ystyriaeth.

### *2.4 Plant a phobl ifanc*

2.4.1 Yn ystod y cyfarfod cychwynnol y Panel Adolygu Dalgylch a gynhaliwyd ar 21 Mai 2009, awgrymwyd y dylid ceisio cael barn plant a phobl ifanc fel yr âi'r broses rhagddi. Cytunodd cynrychiolwyr pob ysgol yn y Panel Adolygu Dalgylch i hyn.

2.4.2 Felly, ar ddechrau Medi 2009, hysbyswyd ysgolion unigol y cynhelid y sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ysgol Uwchradd Tywyn ar 14 Medi 2009. Gofynnwyd i ysgolion drefnu dirprwyaeth o aelodau Cyngor Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 o blant o bob ysgol.

2.4.3 Gwahoddwyd pennaeth pob ysgol i fynd gyda'r plant i'r sesiwn a derbyniodd y pennaeth raglen o'r gweithgareddau a'r cwestiynau y bwriedid eu gofyn i blant a phobl ifanc. Cafodd Penaethiaid gyfle i holi ynghylch y trefniadau ac awgrymu gwelliannau. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach gan y penaethiaid cyn y sesiwn.

2.4.4 Cafodd y sesiwn ei hwyluso ar 14 Medi 2009 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.5 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar sawl pwnc, yn cynnwys:

- Meintiau dosbarth
- Ystod oedran o fewn dosbarth
- Cyfrwng iaith plant tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Pellter teithio i'r ysgol

2.4.6 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent eu gweld yn yr ysgol.

2.4.7 Cafodd adroddiad llawn 13 tudalen ei gynhyrchu ar y sesiwn. Ar y cyfan, dangosai'r plant deyrngarwch tuag at eu hysgolion a'u hathrawon tra hefyd yn adnabod sawl adnodd yr hoffent eu gweld yn eu hysgolion. Cafodd yr adroddiad ei ddosbarthu gyda'r papurau Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ar 8 Hydref ac eto gyda phapurau Bwrdd y Cyngor ar 3 Tachwedd 2009.

### *2.5 Panel Ymgynghorol y Sir*

***2.5.1*** Wrth roi sêl bendith unfrydol i'r strategaeth, cafodd aelodau'r Gweithgor Gwella eu hawdurdodi gan y Cyngor i barhau fel fforwm i gefnogi'r Deilydd Portffolio Addysg wrth iddi arwain adolygiadau trwy'r dalgylchoedd. Gwnaed hynny gan ddefnyddio'r teitl *Panel Ymgynghorol Sirol*. ***Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o bob grŵp ar Gyngor Gwynedd.***

2.5.2 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o Banel Ymgynghorol y Sir i drafod datblygiadau yn Tywyn ar 22 Ebrill, 24 Mehefin, 1 Medi a 14 Medi 2009.

2.5.3 Awgrymodd y Panel sawl opsiwn ar gyfer ad-drefnu ysgolion yr ardal, ynghyd â dadansoddiad o fodelau a gafodd eu cynnig gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.4 Roedd cynrychiolwyr o bob carfan wleidyddol ar Banel y Sir. Ymddiswyddodd aelod o'r Panel cyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2009.

2.5.5 ***Roedd mwyafrif o Banel Ymgynghorol y Sir yn cymeradwyo cynigion y Deilydd Portffolio.***

***2.6 Cyfathrebu ysgrifenedig***

2.6.1 ***Cafodd pedwar cylchlythyr eu paratoi ar gyfer eu dosbarthu i bob ysgol yn dilyn y cyfarfod ac eithrio un gan y Panel Adolygu Dalgylch. Anfonwyd copïau caled i'r ysgolion i'w dosbarthu i bob rhiant, cafodd y cylchlythyr ei e-bostio i bob ysgol a chyhoeddwyd y cylchlythyrau ar wefan y Cyngor. Roedd y pedwerydd yn crynhoi'r cynigion a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor.***

2.6.2 Cafodd holl bapurau Panel Adolygu'r Dalgylch eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.6.3 Rhoddwyd manylion cyswllt y swyddogion hynny oedd yn ymwneud â'r gwaith, ar y wefan.

2.6.4 ***Felly, rhoddir cadarnhad nad yw'r gweithgareddau a gynhaliwyd wrth baratoi'r cynigion hyn yn rhan o'r broses adolygu darpariaeth statudol yn nalgylch Tywyn. Mae'r trafodaethau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn ychwanegol at y rhai sydd yn ddisgwyliedig gan Lywodraeth y Cynulliad.***

## 3. Cynigion Dalgylch Tywyn

3.1. Ar 24 Medi 2009, cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Tywyn i Banel Adolygu'r Dalgylch, a'r cynigion oedd:

- ***Ysgol ardal newydd yn nalgylch Bryncrug neu Llanegryn*** i agor yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14. Byddai hynny'n golygu ***cau*** ysgolion ***Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn*** unwaith byddai'r ysgol newydd yn barod. Oherwydd y pryder a leisiodd ysgolion penodol ynghylch y cyfnod rhwng cyhoeddi'r cynigion a dyddiad agor yr ysgol newydd, caed ymrwymiad y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ysgolion i aros ar agor yn y cyfamser. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol a allai godi yn y cyfamser - e.e. nifer disgyblion yn isel iawn, anawsterau recriwtio penaethiaid a staff, byddai angen i'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda'r ysgolion penodol.
- ***Cau Ysgol Aberdyfi erbyn Medi 2011***, gan gynnig lle i blant o fewn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn
- ***Hyrwyddo cydweithrediad rhwng ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas, Corris***.

3.2. Caiff y seiliau rhesymegol dros y cynigion eu hamlinellu'n llawn yn y papur a gyflwynwyd i'r Cyngor yn Rhagfyr 2009. Cymerodd y cynigion i ystyriaeth y meini prawf a nodwyd gan y strategaeth *Addysg Ragorol ar*

*gyfer Plant yng Ngwynedd* a gofynion Llywodraeth y Cynulliad a gynhwysir yng Nghylchlythyrau 23/02 a 021/2009.

3.3. Derbyniodd y cynigion sêl bendith gan Y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc (8 Hydref 2009), Bwrdd y Cyngor (3 Tachwedd 2009) a'r Cyngor llawn (10 Rhagfyr 2009) fel sail ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

**4. Yr Ymgynghoriad Statudol**

4.1 Yn unol â'r gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ynghylch y cynigion gyda rhanddeiliaid perthnasol o 7 Mehefin 2010.

4.2 Cyn cychwyn ymgynghoriad statudol, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol gyda llywodraethwyr ysgolion perthnasol yn ystod wythnos yn dechrau 17 Mai 2010.

4.3 Paratowyd a dosbarthwyd papur Ymgynghorol Statudol i rai perthnasol yr ymgynghorwyd â hwy mewn ardaloedd oedd yn cael eu gwasanaethu gan Ysgolion Abergynolwyn, Aberdyfi, Bryncrug, Llanegryn, Llwyngwril a Penybryn yn ystod yr wythnos yn dechrau 24 Mai 2010. Fel y doi rhagor o wybodaeth ar gael ynghylch safleoedd posibl ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig yn Bro Dysynni, rhyddhawyd dogfennaeth bellach i rai yr ymgynghorwyd â hwy ar 14 Gorffennaf 2010. Cafodd y dyddiad cau ar gyfer y cyfnod ymgynghori felly ei ymestyn o bythefnos i 13 Awst 2010.

4.4 Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghorol statudol â staff, llywodraethwyr a rhieni ymhob un o'r ysgolion a effeithid rhwng 7-17 Mehefin 2010. Oherwydd nad oedd llawer yn bresennol yn y cyfarfod statudol a gynhaliwyd yn Ysgol Penybryn ar 7 Mehefin, cafodd yr ysgol gyfle arall i gwrdd â swyddogion yng Ngorffennaf 2010. Cymerwyd cofnodion y cyfarfodydd hyn gan swyddogion y Cyngor a chawsant eu dosbarthu i'r ysgolion perthnasol. Maent wedi eu hatodi yn Atodiad A. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar y dyddiadau canlynol:

| **Ysgol** | **Dyddiad** | **Cyfarfodydd** |
|---|---|---|
| **Penybryn** | 7/6/10 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr. Oherwydd cam-gyfathrebu yn arwain at ychydig yn mynychu, cafodd y cyfarfodydd eu hail-gynnal ar 13 Gorffennaf 2010 |
| **Aberdyfi** | 8/6/10 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, llywodraethwyr a rhieni. Ar gais yr ysgol, caniatawyd i aelodau o'r gymuned ehangach fynychu'r cyfarfod i rieni. |
| **Llanegryn** | 9/6/10 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, llywodraethwyr a rhieni. |

| | | |
|---|---|---|
| **Llwyngwril** | 10/6/10 | Cyfarfod ar gyfer y staff. Ar gais yr ysgol, rhoddwyd caniatâd i lywodraethwyr, rhieni ac aelodau o'r gymuned ehangach fynychu cyfarfod. |
| **Bryncrug** | 14/6/10 | Cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff, llywodraethwyr a rhieni |
| **Abergynolwyn** | 15/6/10 | Un cyfarfod ar gyfer staff ac un arall ar gyfer rhieni a llywodraethwyr gyda chytundeb yr ysgol |

4.5 Cytunwyd yn ystod cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol, y byddai cofnodion o'r cyfarfodydd a chopïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer Aelodau Etholedig trwy eu grwpiau gwleidyddol. Rhoddwyd copïau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt (yn amodol ar olygiad o wybodaeth bersonol ynghylch unigolion i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwarchod Data 1998) yn Swyddfeydd y Cyngor (Swyddfa'r Adran Addysg) yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau ac yn Llyfrgell Tywyn.

4.6 Mae'r cylchlythyr Llywodraeth berthnasol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Cynigiodd y Cyngor ddwy ffordd o sicrhau hynny - naill ai trwy anfon swyddogion dynodedig i sgwrsio â disgyblion neu trwy baratoi dogfen ymarfer ysgrifenedig i'w chwblhau gan blant o dan arweiniad eu hathro. Mae dadansoddiad o ymatebion a dderbyniwyd wedi ei atodi yn Atodiad B.

4.7 Erbyn 13 Awst 2010, derbyniwyd cyfanswm o 175 ymateb o ddalgylch Tywyn. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion a gaed, isod:

| Ysgol | Llythyrau | E-bost | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Aberdyfi** | 33 | 1 | 1 | 35 |
| **Abergynolwyn** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Bryncrug** | 7 | 2 | 0 | 9 |
| **Llanegryn** | 10 | 2 | 0 | 12 |
| **Llwyngwril** | 63 | 13 | 36 | 112 |
| **Penybryn, Tywyn** | 1 | 3 | 1 | 5 |
| **Cyffredinol** | 1 | 1 | 0 | 2 |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **115** | **22** | **38** | **175** |

## 5. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod Ymgynghori Statudol

5.1 Gwnaed dadansoddiad o'r holl ymatebion ac mae adroddiad meintiol ar y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny wedi eu hatodi yn Atodiad C.

5.2 Dosbarthwyd yr ymatebion i ddwy adran. Mae Adran 6 yn delio ag ymatebion o Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril ynglyn â'r cynnig i gau'r pedair a'u disodli gydag ysgol ardal newydd. Mae Adran 7 yn delio â'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Penybryn, Tywyn, ac agor dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn, Tywyn.

5.3 Yn ystod Haf 2010, daeth yn amlwg bod rhieni yn Abergynolwyn yn bwriadu anfon eu plant yn un fflyd i Ysgol Bryncrug. Oherwydd hynny, yn Hydref 2010, penderfynodd Bwrdd y Cyngor y dylid cynnal ymgynghoriad statudol ynghylch cynnig penodol i gau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 26 Tachwedd 2010.

5.4 Ceir gwybodaeth bellach ynghylch ymateb y Cyngor isod.

## 6. Ymatebion gan Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril

6.1 Roedd yr ymatebion a'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn y pedair ysgol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y materion a amlinellir isod:

- materion cymunedol
- materion addysgol
- ansawdd a chynaladwyedd adeiladau ysgol
- manwl-gywirdeb gwybodaeth a ddarparwyd cyn ac yn ystod y broses ymgynghori
- cludiant
- cyllid
- yr iaith Gymraeg
- beirniadaeth o ymddygiad y Cyngor ynghylch y trafodaethau lleol

6.2 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, cyflwynodd grŵp oedd yn gysylltiedig ag Ysgol Llwyngwril, adroddiad oedd yn amlinellu cynnig arall oedd yn rhagweld cadw'r ysgol ar agor ac addasu'r adeilad i annog mwy o arbed ynni. Tra na chafodd y cynnig ei gyflwyno'n ddigon buan i'w ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, caiff rhai sylwadau ynghylch y cynnig eu cynnwys yn Atodiad B. Caiff ymatebion manwl i'r pwyntiau a godwyd eu cynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiadau hyn. Barn gyffredinol aelodau'r Cyngor yw y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol.

6.3 Yn ychwanegol, yn ystod Haf 2010, cytunodd rhieni disgyblion sy'n mynychu Ysgol Abergynolwyn, i anfon eu plant i Ysgol Bryncrug o Fedi 2010. Oherwydd hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol newydd ar gynnig newydd i gau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011.

### 6.4 Safonau Addysgol

6.4.1 Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn darparu addysg o safon foddhaol. Yn gyffredinol, dyfarnwyd graddau o 2 a 3 i ysgolion mewn arolygiadau diweddar gan ESTYN. Mae pob rheswm i ddisgwyl y bydd cael adeilad newydd gyda chyfleusterau modern, sefydlu dosbarthiadau mwy a mwy cadarn a chreu cronfa fwy o athrawon a staff ategol yn cynnal ac yn gwella safonau addysgol. Dylai'r cynnig fod o gymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

6.4.2 Ar hyn o bryd mae maint dosbarthiadau yn y pedair ysgol yn amrywio rhwng 7 a 17. Mae'r strategaeth yn nodi mai'r nod ddylai sicrhau meintiau dosbarth o rhwng 12-25 disgybl. Rhagwelir y bydd grwpiau mwy o blant yn yr ysgol ardal newydd – pe bai 95 o blant yn mynychu'r ysgol, byddai 4 dosbarth o 2 grŵp oedran yn cynnwys dros 20 o blant.

6.4.3 Mae arweinyddiaeth yn allweddol i wella safonau addysgol. Mae profiadau diweddar yn yr ardal wedi awgrymu ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd i ganfod ymgeiswyr cymwys ac addas ar gyfer swydd pennaeth. Bydd sefydlu un ysgol ardal yn creu grŵp mwy o staff ac yn rhoi mwy o ryddid i Bennaeth ddatblygu sgiliau rheolaethol a gweinyddol, gan ryddhau athrawon dosbarth i addysgu.

**6.5 Teithio**

6.5.1 Mae strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn nodi ei amcan i sicrhau nad yw disgyblion yn cymryd dros 30 munud i deithio unffordd i'r ysgol. Bydd y cynnig i sefydlu ysgol ardal i ddisodli'r pedair ysgol sy'n golygu na fydd yn ofynnol i unrhyw ddisgybl deithio dros 8 milltir i'r ysgol. Dylai amseroedd teithio felly gwrdd â'r targed.

6.5.2 Roedd rhai yr ymgynghorwyd â hwy, yn enwedig yn ardal Llwyngwril, yn mynegi pryder bod y ffordd o Lwyngwril i safle'r ysgol newydd yn beryglus. Mae'r ffordd i'r de o Lwyngwril yn briffordd 'A' a gwneir defnydd helaeth ohoni gan gludiant cyhoeddus a phreifat. Nid oes unrhyw reswm i gredu bod y ffordd hon yn fwy peryglus nac unrhyw briffordd arall y gwneir defnydd helaeth ohoni.

**6.5 Hygyrchedd**

6.5.3 Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Gwynedd yn darparu goruchwyliaeth gan oedolion, heblaw'r gyrrwr, ar fysiau ysgol.

6.5.4 Bydd y pedair ysgol yn cael eu disodli gan ysgol ardal newydd sbon sy'n cwrdd ag anghenion yr 21G. Bydd materion hygyrchedd yn derbyn ystyriaeth lawn a phriodol yn y broses gynllunio. Ar draws y 4 ysgol, amcangyfrifir bod ôl-groniad cynnal a chadw o £170,000, bod angen gwario £40,000 ar ragofalon tân, £61,000 i sicrhau bod dwy ysgol yn cwrdd â gofynion DDA, a £530,000 i wneud yr adeiladau yn addas ar

gyfer y diben. Mae'r Cynllun Rheolaeth Asedau felly yn rhagweld bod angen gwario dros £800,000 ar ailwampio ac addasu'r 4 adeilad ysgol.

6.5.5 Mae rhaglen gyfalaf y Llywodraeth i gefnogi datblygiad *Ysgolion 21G,* yn nodi'r awydd i ddatblygu ysgolion cymunedol sy'n bodloni gofynion y ganrif hon. Yn ystod Haf 2010, llwyddodd Cyngor Gwynedd i ddenu cyllid cyfalaf i gefnogi adeiladu ysgol newydd ac uwchraddio tair ysgol gynradd arall. Mae'r cyllid cyfalaf i wireddu'r cynnig hwn felly wedi ei sicrhau.

### 6.6 Lleoedd

6.6.1 Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion yn yr ardal sy'n mynychu'r pedair ysgol, ac o'r herwydd bu cynnydd yn nifer y lleoedd dros ben, dros y 35 mlynedd diwethaf. Bu gostyngiad yn nifer disgyblion o 176 yn 1975 i 94 yn 2010 gyda'r canlyniad bod 65% o leoedd yn y pedwar dalgylch heb eu llenwi.

6.6.2 Ar hyn o bryd, mae 110 o ddisgyblion oedran cynradd yn byw yn y pedwar dalgylch. Mae'r ysgolion yn rhagweld y bydd tua 84 disgybl yn mynychu'r ysgolion erbyn 2013. O ystyried y nifer fawr o ddisgyblion oedran cynradd sy'n derbyn eu haddysg ar hyn o bryd tu allan i'r pedwar dalgylch, ac o ystyried pa mor ddeniadol fydd ysgol newydd pwrpasol yn ôl pob tebyg, byddai'n beth naturiol rhagdybio y byddai tua 95 o ddisgyblion â hawl i fynychu'r ysgol ardal newydd fel eu hysgol dalgylch erbyn 2013-14.

6.6.3 Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, bydd yr ysgol wedi ei chynllunio i ddarparu ar gyfer tua 105 o ddisgyblion, gan ganiatáu am gyfarwyddyd LLC y dylid adeiladu ysgolion newydd o fewn maint o 10% dros ben i ganiatáu ar gyfer twf. Byddai felly ostyngiad mewn lleoedd dros ben o 151 (65%) i tua 10 (10%).

### 6.7 Cyllid

6.7.1 Gweithredir polisi gwarchod lleiafswm staffio yr Adran Addysg ei gweithredu yn y pedair ysgol. Bydd y Sir yn gwario £416,300 yn ystod 2009-10 i gynnal lleiafswm o bennaeth ac athro/athrawes ymhob ysgol sydd â dros 15 o ddisgyblion a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl. Caiff £90,184 o hwn ei wario yn nalgylch Tywyn, a £64,051 o'r swm hwn rhwng y pedair ysgol. Ni fyddai'r ysgol ardal newydd arfaethedig yn dod o fewn y polisi gwarchod lefel isafswm staffio.

6.7.2 Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y 4 ysgol yn 2009/10 yw £527,299. Os caiff y cynnig i sefydlu ysgol ardal ei gymeradwyo, byddai'r gyllideb ar gyfer yr ysgol newydd yn £298,997, sy'n arbediad o £228,302

6.7.3 Bydd angen cludiant ar ddisgyblion sy'n teithio i'r ysgol newydd yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Yn seiliedig ar brisiau heddiw, rhagwelir cost

ychwanegol o £64,000. Bydd felly'n gostwng yr arbediad disgwyliedig i £164,302.

6.7.4 Bydd yr arbedion a wneir o gau'r pedair ysgol yn cael ei gadw o fewn y gyllideb Addysg. Caed ymrwymiad pellach y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn y dalgylch tra cynhelir y broses adolygu trwy'r sir.

**6.8 Effaith ar y Gymuned**

6.8.1 Caiff dros 10% o boblogaeth y 4 dalgylch eu haddysgu mewn ysgolion heblaw'r pedair hyn. Mae'n debygol bydd ysgol ardal newydd yn atyniad ac yn cadw plant o fewn y dalgylch.

6.8.2 Ceir crynodeb o'r cyfleusterau cymunedol a defnydd y gymuned o gyfleusterau'r ysgol yn y dadansoddiad ystadegol y cytunir arni gan bob ysgol. Mae ffactorau sydd angen ystyriaeth wrth baratoi cynigion. Mae gwybodaeth ynghylch y ffactorau a ystyriwyd mewn dadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor.

6.8.3 Mae Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, ystyried ffactorau cymunedol wrth lunio cynigion.

6.8.4 Cynhaliwyd Asesiad llawn ac annibynnol o'r effaith ar y Gymuned ar y cynigion (y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor). Canfu'r asesiad y gallai cau pedair ysgol bentref a'u disodli gan un ysgol ardal ganolog, gael effaith negyddol ar y cymunedau unigol. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion y gellid eu dilyn er mwyn lliniaru effaith negyddol cau ysgolion. Bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu llawer o'r rhain, yn cynnwys cefnogi cymunedau mewn paratoi cynlluniau busnes ar gyfer prynu adeilad ysgol at ddibenion cymunedol a chynghori busnesau lleol. Bydd y swyddog adfywio ardal leol yn cydweithio'n agos â chymunedau.

6.8.5 Ceir canolfannau cymuned annibynnol mewn tair o'r cymunedau perthnasol. Mae Ysgol Bryncrug yn ysgol gymunedol ddynodedig ble cynhelir sawl gweithgaredd cymunedol. Mae'r Cyngor wedi rhoi addewid y bydd darpariaeth gymunedol yn cael ei gadw o fewn Bryncrug a gyda chefnogaeth y Cyngor os caiff yr ysgol ei chau gan leoli'r ysgol ardal newydd yn rhywle arall. Darperir elfen Neuadd Gymuned yr ysgol trwy gyfrwng les ffurfiol sydd yn cynnwys ymrwymiadau cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r Cyngor Cymuned ynglyn a chynnal y neuadd

**6.9 Effaith ar Iaith**

6.9.1 Mae'r Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 hefyd yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff sy'n cyflwyno

cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol ystyried effaith bosibl ad-drefnu ar yr iaith Gymraeg wrth baratoi cynigion.

6.9.2 Cwblhawyd Asesiad Effaith Llawn ac annibynnol ar Iaith hefyd ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Canfu'r adroddiad bod y cynnig hwn yn rhoi cyfle i gryfhau'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth yn Bro Dysynni. Gwnaed gwaith ar wahân hefyd ar y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth gyda pheth gwaith cychwynnol yn ardal Tywyn.

**6.10 Effaith ar gydraddoldeb**

6.10.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith Cydraddoldeb ar y cynigion. Canfuwyd na ellid disgwyl effeithiau croes sylweddol yn sgil y cynnig. Yn wir, gan fod y cynnig yn gwneud adeiladu ysgol newydd yn angenrheidiol, delir ag unrhyw bryderon ynghylch hygyrchedd mewn modd priodol.

**6.11 Ystyried dewisiadau eraill**

6.11.1 Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cyflwyno cynnig roi ystyriaeth briodol i ddewisiadau eraill. Ymhlith yr opsiynau dan ystyriaeth yn ystod y broses adolygu oedd:

- Dod ag Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril o dan drefniadaeth ffederal
- Cau saith o'r wyth ysgol yn y dalgylch a sefydlu ysgol ardal newydd yn nhref Tywyn.
- Dod ag Ysgol Llwyngwril o dan drefniant ffederal gydag Ysgol y Friog

6.11.2 Roedd y Cyngor yn ystyried mai'r dewis oedd yn ymddangos fel pe bai'n cwrdd â'i anghenion fel yr amlinellir yn ei strategaeth *Addysg Ragorol i Blant yng Ngwynedd* a chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 oedd y dewis a gâi ei ffafrio, ac ar sail hynny, dechreuwyd ymgynghoriad statudol.

6.11.3 Cafodd y cynigion llawn ar gyfer ardal Tywyn eu cefnogi trwy ddyrannu cyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**6.12 Lleoliad Ysgol Ardal**

6.12.1 Pryder mawr a leisiwyd gydol y prosesau adolygu ac ymgynghori oedd lleoliad yr ysgol ardal arfaethedig. Yn ystod y broses adolygu, nododd swyddogion o Gyngor Gwynedd restr faith o 20 o safleoedd posibl. Wedi i'r Deilydd Portffolio Addysg roi'r dewis hwn gerbron fel y model oedd orau ganddi, cwtogodd y swyddogion y rhestr hir i lawr i 9 safle. Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol gyda llywodraethwyr y pedair ysgol i drafod y 9 safle posibl. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, lluniwyd rhestr fer o 5 safle posibl a dosbarthwyd gwybodaeth ynghylch y safleoedd hynny i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy ar 14 Gorffennaf 2010. Yn dilyn gwaith

technegol pellach, cwtogwyd y rhestr i 3 safle posibl. Ar 27 Gorffennaf 2010, penderfynodd Bwrdd y Cyngor ei fod yn cefnogi bwrw ymlaen â safle a nodwyd fel "Safle 8 - Talybont" sydd rhwng pentrefi Llanegryn a Bryncrug. Neilltuodd y Bwrdd yr hawl i ystyried dau safle arall, sef Safle 1 (ar gyrion Llanegryn) a Safle 8 (ar gyrion Bryncrug).

6.12.2 Yn ystod Haf 2010, caed trafodaethau gyda pherchnogion y tair llain o dir. Daeth yn eglur nad oedd perchennog Safle 8 eisiau gwerthu'r safle i'r Cyngor, tra roedd perchnogion y ddau safle arall yn barod i negydu â'r Cyngor. O ran Safle 8 roedd yn ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri roi gollyngiad arbennig ar gyfer ei ddatblygu, ac o'r herwydd penderfynwyd nad oedd Safle 8 yn ddewis ymarferol.

6.12.3 Ar 2 Tachwedd 2010, bu Bwrdd y Cyngor yn ystyried y ddau safle oedd yn weddill a phenderfynu o blaid Safle 1 ar gyrion Llanegryn. Cai'r safle ei ffafrio i raddau helaeth ar sail materion technegol a lleoliad canolog Llanegryn mewn perthynas â'r dalgylch newydd.

6.12.4 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, lleisiodd rhai a roddodd ymateb eu pryderon ynghylch lleoliad yr ysgol ardal arfaethedig, ac yn gyffredinol roeddent o blaid ei lleoli o fewn eu cymuned. Yn dilyn penderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 2 Tachwedd 2010, derbyniwyd llythyrau yn gwrthwynebu oddi wrth lywodraethwyr Abergynolwyn a Bryncrug. Derbynnir bod lleoliad yr ysgol yn fater emosiynol ond teimlir mai Safle 1 a rydd y cyfle gorau i gefnogi addysg wledig yn ardal Dysynni yn y dyfodol. Mae trafodaethau gyda thirfeddianwyr yn parhau.

6.12.5 Fel y nodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi parhad darpariaeth gymunedol o safle presennol Bryncrug. Mae'r Cyngor wedi datblygu polisi sy'n llywodraethu'r dull o gael gwared â safleoedd ysgol y rhoddwyd sêl bendith arno gan Fwrdd y Cyngor ar 15 Medi 2009. Yn y bôn, rhagwelir y caiff rhai safleoedd eu gwaredu ar gyfraddau ffafriol i'r gymuned leol, tra caiff rhai ei gwerthu am bris y farchnad. Bydd swyddogion adfywio'r cyngor ar gael i gefnogi cymunedau sy'n dymuno paratoi achos busnes ar gyfer prynu'r adeilad ysgol leol.

**6.13 Cywirdeb gwybodaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor a sut y cynhaliwyd y cyfnod statudol**

6.13.1 Cytunwyd ar yr ystadegau a gyhoeddir yn y papur ymgynghoriad statudol gan gynrychiolwyr yr holl ysgolion yn y cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch.

6.13.2 Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**7. Aberdyfi a Penybryn, Tywyn**

7.1 Mae Ysgol Aberdyfi yn darparu addysg ar gyfer 20 disgybl 3-11 oed. Mae Ysgol Penybryn, Tywyn yn darparu addysg ar gyfer 208 o ddisgyblion 4-11 oed. Ceir dwy ran i'r cynigion hyn, sef:

- Cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011 gan ddarparu lleoedd yn Ysgol Penybryn, Tywyn
- Gwelliant statudol i'r polisi mynediad yn Ysgol Penybryn, Tywyn, er mwyn creu dosbarth meithrin

7.2 Roedd yr ymatebion a'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn y ddwy ysgol a chyda'r ddau grwp meithrin yn Tywyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a amlinellir isod:

- materion cymunedol
- materion addysgol
- ansawdd a chynaladwyedd adeiladau'r ysgol
- manwl-gywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd cyn ac yn ystod y broses ymgynghori
- cludiant
- cyllid
- yr Iaith Gymraeg
- beirniadaeth o ymddygiad y Cyngor yn ystod y trafodaethau lleol
- yr effaith posibl ar grwpiau meithrin lleol

7.3 Ceir ymatebion manwl i'r sylwadau a leisiwyd yn yr atodiadau i'r adroddiadau hyn. Barn gyffredinol y Cyngor yw y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol.

**7.4 Safonau Addysgol**

7.4.1 Mae Ysgol Penybryn yn ysgol dda a derbyniodd bum Gradd 1 a dwy Radd 2 yn adolygiad Estyn ym Mai 2010. Y tro diwethaf i Ysgol Aberdyfi dderbyn arolwg llawn oedd yn 2005 pan ganfuwyd gwendidau difrifol. Yn dilyn ail-arolygiadau – yn 2006 ac eto yn 2007 – canfuwyd y gwnaed peth cynnydd ond bod gwendidau pwysig o hyd.

7.4.2 Mae'r cynnig yn rhagweld addasu ac uwchraddio adeiladau Ysgol Penybryn fel eu bod yn addas ar gyfer yr 21G. Mae pob rheswm i gredu y bydd uwchraddio'r adeilad gyda chyfleusterau modern yn gwella'r addysg a ddarperir yn Penybryn. I ddisgyblion Aberdyfi, bydd sefydlu dosbarthiadau mwy a mwy cadarn a mynediad at gronfa fwy o athrawon a staff ategol yn cynnal a gwella safonau addysgol. Dylai'r cynnig fod o gymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

7.4.3 Ar hyn o bryd, mae meintiau dosbarthiadau yn Aberdyfi yn 10. Ar hyn o bryd, mae meintiau dosbarth yn Ysgol Penybryn ar gyfartaledd ychydig yn is na 25, er bod hynny'n amrywio. Mae'r strategaeth yn nodi mai'r nod ddylai sicrhau dosbarthiadau o rhwng 12-25 o ddisgyblion. Trwy gau Ysgol Aberdyfi a throsglwyddo disgyblion y dalgylch i Ysgol Penybryn, rhagwelir

y bydd cyllid ychwanegol digonol i ddilyn y disgyblion i gynnal 1.5 o athrawon neu athro a chymhorthydd.

7.4.4 Byddai cau'r ysgol a symud y plant i Ysgol Penybryn yn golygu rhoi cyfleoedd i blant yn Aberdyfi ddysgu mewn grwpiau mwy gyda'u cyfoedion.

7.4.5 Mae arweiniad yn allweddol i wella safonau addysgol. Mae profiadau diweddar yn yr ardal wedi awgrymu ei bod yn gynyddol anodd canfod ymgeiswyr cymwys ac addas ar gyfer swyddi penaethiaid, a cafodd Ysgol Aberdyfi ei harwain gan benaethiaid dros dro ers sawl blwyddyn. Penododd Ysgol Penybryn bennaeth newydd parhaol yn ddiweddar.

**7.5 Teithio**

7.5.1 Mae strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn nodi ei amcan o sicrhau nad yw disgyblion yn cymryd dros 30 munud i deithio i'r ysgol un ffordd. Mae dros draean o ddisgyblion cynradd sy'n drigolion Aberdyfi eisoes yn mynychu Ysgol Penybryn. O dan y cynnig i gau Ysgol Aberdyfi a darparu lleoedd ar gyfer disgyblion sy'n drigolion Aberdyfi yn Ysgol Penybryn, byddai'n ofynnol i tua 20 disgybl deithio 4 milltir ychwanegol i Dywyn. Dylai amseroedd teithio felly gwrdd â'r nod. Os gweithredir y cynnig, byddai hawl gan bob disgybl sy'n byw yn Aberdyfi i dderbyn cludiant di-dâl i Ysgol Penybryn yn unol â pholisi cludiant ysgol y Sir.

7.5.2 Caiff Aberdyfi ei gwasanaethu gan gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, yn cynnwys bysiau a threnau cyhoeddus. Mae'r ffordd o Aberdyfi o ansawdd da.

7.5.3 Ar hyn o bryd, nid yw Cyngor Gwynedd yn darparu goruchwyliaeth gan oedolion, heblaw'r gyrrwr, ar fysiau ysgol.

**7.6 Hygyrchedd**

7.6.1 Mae Ysgol Aberdyfi mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn amcangyfrif bod ôl-groniad gwaith cynnal a chadw o £37,000, bod angen gwario £9,500 ar ragofalon tân, a £57,000 i wneud yr adeilad yn addas ar gyfer y pwrpas. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau felly'n rhagfynegi bod angen gwario dros £100,000 ar ailwampio ac addasu adeilad yr ysgol. Mae Ysgol Penybryn hefyd mewn cyflwr da. Ceir ôl-groniad gwaith cynnal a chadw o £44,500; mae angen gwario £9,500 ar ragofalon tân a £95,000 i wneud yr adeilad yn addas ar gyfer y pwrpas. Mae hefyd angen gwariant sylweddol ar gwrdd â gofynion DDA o tua £77,953. Mae cyfanswm anghenion gwariant tua £225,000.

7.6.2 Mae rhaglen gyfalaf y Llywodraeth i gefnogi datblygiad *Ysgolion yr 21G,* yn nodi'r awydd i ddatblygu ysgolion cymuned sy'n cwrdd ag anghenion y ganrif hon. Bu cais Cyngor Gwynedd am gyllid cyfalaf i gefnogi

adeiladu ysgol newydd ac uwchraddio tair ysgol gynradd arall, yn cynnwys Ysgol Penybryn, yn llwyddiannus. Sicrhawyd cyllid cyfalaf i sylweddoli'r cynnig hwn.

7.6.3 Roedd y cynnig llwyddiannus am Gyllid Cyfalaf Tranche 3 ar gyfer ardal Tywyn yn cynnig uwchraddio ansawdd a chynaladwyedd adeiladau yn Ysgol Penybryn. Rhoddir ystyriaeth lawn a phriodol i faterion hygyrchedd yn y broses gynllunio.

### 7.7 Nifer lleoedd

7.7.1 Rhwng y ddwy ysgol, bu gostyngiad o 27% yn nifer y disgyblion rhwng 1975 a 2009. Bu gostyngiad ym mhoblogaeth Ysgol Aberdyfi o 66 i 21 yn ystod y cyfnod hwn, sy'n gyfystyr â gostyngiad o bron i 70%, tra bu gostyngiad ym mhoblogaeth Ysgol Penybryn o 248 i 209 (16%). Mae Ysgol Aberdyfi yn rhagweld cynnydd yn nifer disgyblion dros y blynyddoedd nesaf i tua 25 disgybl. Mae Ysgol Penybryn yn rhagweld cynnydd bychan i tua 210.

7.7.2 Mae tua 30 o ddisgyblion oedran cynradd yn byw yn Aberdyfi ar hyn o bryd a tua 181 yn Tywyn. Ar hyn o bryd mae mwyafrif llethol y disgyblion sy'n byw yn y ddau ddalgylch yn derbyn eu haddysg mewn un o'r ddwy ysgol.

7.7.3 Mae 75% o'r lleoedd yn Ysgol Aberdyfi, a 35% o'r lleoedd yn Ysgol Penybryn, yn wag. Unwaith gweithredir y cynllun, byddai lleoedd gwag yn Ysgol Penybryn yn gostwng i tua 27%. Arweiniad y Llywodraeth yw bod "nifer sylweddol" o leoedd gwag pan geir dros 25% a dros 30 o leoedd gwag (dangosydd cenedlaethol); gydag argymhelliad mai'r nod fyddai sicrhau nad yw dros 10% o leoedd yn wag. Fodd bynnag, mae'r cynnig hefyd yn rhagweld caniatáu i Ysgol Penybryn greu dosbarth meithrin. Pe digwyddai hynny, byddai gostyngiad mewn lleoedd dros ben i tua 20%.

### 7.8 Cyllid

7.8.1 Daw Ysgol Aberdyfi o fewn polisi gwarchod lleiafswm staffio'r Adran Addysg. Gwariodd y Sir £416,300 yn ystod 2009-10 i gynnal lleiafswm o bennaeth ac athro/athrawes ymhob ysgol â llai na 15 disgybl a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgol gyda llai na 15 disgybl. Mae £90,184 o hyn yn Nalgylch Tywyn, £22,212 yn Ysgol Aberdyfi. Ni weithredir y polisi gwarchod gostyngiad mewn staff yn Ysgol Penybryn.

7.8.2 Roedd dyraniad Ysgol Aberdyfi yn 2009-10 yn £128,803. Os caiff yr ysgol ei chau, rhagwelir bydd hyd at £56,360 yn dilyn disgyblion yr ysgol i Ysgol Penybryn. Rhagwelir bydd costau cludiant blynyddol ychwanegol o tua £15,000 a fuasai'n rhoi arbediad o £57,443 yn ôl i'r Adran Addysg i'w ddyrannu i ysgolion eraill.

7.8.3 Bydd arbedion a wneir trwy gau'r pedair ysgol yn cael eu cadw o fewn y gyllideb Addysg. Gwnaed ymrwymiad pellach y bydd 20% o'r arbedion yn aros o fewn y dalgylch gydol y broses adolygu a gynhelir trwy'r sir.

**7.9 Effaith ar y gymuned**

7.9.1 Ar hyn o bryd, caiff tua 30% o boblogaeth oedran cynradd Aberdyfi eu haddysgu yn Tywyn.

7.9.2 Ceir crynodeb o'r cyfleusterau cymunedol a defnydd y gymuned o gyfleusterau'r ysgol yn y dadansoddiad ystadegol y cytunwyd arnynt gan bob ysgol. Ffactorau sydd angen ystyriaeth wrth baratoi cynigion. Ceir gwybodaeth ar y ffactorau hynny a gafodd eu hystyried mewn dadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar wefan y Cyngor. Caiff Aberdyfi ei gwasanaethu'n dda gan sawl cyfleuster cymunedol, yn cynnwys neuadd bentref, siopau, tafarndai a gwestai. Ni ddefnyddir yr adeilad rhyw lawer gan y gymuned, er bod disgyblion yn cyfrannu tuag at ddigwyddiadau yn y gymuned.

7.9.3 Mae Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff sy'n dod a chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion gerbron, ystyried ffactorau wrth baratoi cynigion.

7.9.4 Cynhaliwyd Asesiad llawn ac annibynnol o'r effaith ar y Gymuned, o'r cynigion (gellir eu gweld ar wefan y Cyngor). Canfu'r asesiad y byddai cau Ysgol Aberdyfi a darparu lleoedd yn Ysgol Penybryn yn cael effaith niwtral ar y gymuned oherwydd yn rhannol, nifer y busnesau yn y pentref. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion y gellid eu cymryd i liniaru effaith negyddol cau ysgolion. Bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu llawer o'r rhain, yn cynnwys cefnogi cymunedau mewn cynhyrchu cynlluniau busnes ar gyfer prynu adeilad yr ysgol at ddibenion y gymuned a chynghori busnesau lleol. Bydd swyddogion adfywio'r ardal leol ar gael i gynorthwyo cymunedau yn hyn o beth.

**7.10 Effaith ar yr iaith**

7.10.1 Mae Cylchlythyr Cynigion Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 hefyd yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff sy'n dod â chynigion gerbron ar gyfer ad-drefnu ysgolion hefyd ystyried effaith posibl ad-drefnu ar yr iaith Gymraeg wrth lunio cynigion.

7.10.2 Cwblhawyd Asesiad llawn ac annibynnol o'r Effaith ar Iaith hefyd ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Canfu'r adroddiad y rhydd y cynnig hwn gyfle i gryfhau'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth yn yr ardal, ac y câi effaith niwtral ar Aberdyfi. Cynhaliwyd hefyd waith ar wahân ar y defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth a gwnaed peth gwaith cychwynnol yn ardal Tywyn.

7.10.3 Byddai darparu addysg feithrin i'r holl drigolion yn Tywyn ac Aberdyfi sy'n dair oed, yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

**7.11 Effaith Cydraddoldeb**

7.11.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith Cydraddoldeb ar y cynigion. Canfuwyd na ellid disgwyl unrhyw effeithiau croes sylweddol yn sgîl y cynnig ar brofiadau addysgol plant sy'n byw yn Aberdyfi. Gallai fodd bynnag gael effaith ar y ddau grwp meithrin a gynhelir yn nhref Tywyn ar hyn o bryd.

**7.12 Ystyried dewisiadau eraill**

7.12.1 Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n rhoi'r cynigion gerbron roi sylw dyledus i gynigion eraill. Ymhlith yr opsiynau a ystyriwyd yn ystod y broses adolygu oedd:

- Trefniant ffederal rhwng Ysgol Aberdyfi ac Ysgol Pennal a hefyd o bosibl Ysgol Dyffryn Dulas, Corris
- Cau saith o'r wyth ysgol yn y dalgylch a sefydlu ysgol ardal newydd yn nhref Tywyn.
- Trefniant Ffederal rhwng Ysgol Aberdyfi ag Ysgol Penybryn, Tywyn.

7.12.2 Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r opsiwn oedd yn ymddangos fel pe bai'n cwrdd â'i anghenion fel yr amlinellir yn ei strategaeth *Addysg Ragorol ar gyfer Plant Gwynedd* a cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 021/2009 oedd y dewis a gâi ei ffafrio, ac ar sail hynny dechreuwyd ar ymgynghoriad statudol.

7.12.3 Cafodd y cynigion llawn ar gyfer ardal Tywyn eu cefnogi gan ddyrannu grant cyfalaf wedi ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**7.13 Cywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd a sut y cynhaliwyd y cyfnod statudol**

7.13.1 Cytunwyd ar y wybodaeth ystadegol a gyhoeddwyd yn y papur ymgynghorol statudol gan gynrychiolwyr pob ysgol yn y cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch.

7.13.2 Cynhaliwyd y cyfnod statudol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 8. Ysgol Abergynolwyn

8.1 Yn ystod Haf 2010, gyda'r gostyngiad yn nifer y disgyblion oedd yn mynychu'r ysgol yn parhau ac ymddeoliad y pennaeth, cyfarfu'r staff, llywodraethwyr a rhieni i drafod y posibilrwydd o drosglwyddo disgyblion i Ysgol Bryncrug o Fedi 2010.

8.2 Cytunodd rhieni holl ddisgyblion Abergynolwyn , felly, o Fedi 2010, ni chaiff unrhyw ddisgyblion eu haddysgu yn Ysgol Abergynolwyn.

8.3 Bellach, nid oes gan yr ysgol bennaeth ond delir i gyflogi athro a gofalwr. Cafodd yr athro ei ail-leoli mewn ysgolion eraill yn yr ardal - sef Ysgolion Bryncrug a Penybryn – tra deil y gofalwr yn gyfrifol am gynnal safle Ysgol Abergynolwyn.

8.4 Yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Llywodraethwyr yn ystod Medi 2010, penderfynwyd bwrw ymlaen gyda chyfnod o ymgynghoriad statudol ynghylch cynnig i gau'r ysgol erbyn Mawrth 2011.

8.5 Cychwynwyd y cyfnod ymgynghori statudol ar 1 Tachwedd 2010. Cynhaliwyd cyfarfod statudol gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ar y cyd ar 15 Tachwedd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Tachwedd 2010, Atodir chofnodion y cyfarfod statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni yn Atodiad Ch. Cynigiwyd gyfle hefyd i ddisgyblion gyflwyno'u sylwadau trwy ymarfer bapur dan arweiniad eu hathrawon presennol yn Ysgol Bryncrug ac fe welir dadansoddiad o'r sylwadau hynny yn Atodiad Ch.

8.6 Derbyniwyd saith ymateb ysgrifenedig yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd pob un ohonynt yn datgan gwrthwynebiad i benderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 2 Tachwedd 2010 (ynglyn a lleoliad yr ysgol arfaethedig), ac eu bod yn ffafrio lleoli'r ysgol ardal arfaethedig newydd i wasanaethu Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril ar safle ar gyrion pentref Llanegryn.

8.7 Ni derbyniwyd sylwadau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol gyda'r cynnig i gau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011.

8.8 Mae'r Cyngor o'r farn nad yw cau Ysgol Abergynolwyn yn 2011 a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Bryncrug yn effeithio i raddau mawr ar y cynnig ar gyfer ardal Dysynni:

- nid yw'r un o'r tair ysgol arall yn darparu addysg ar gyfer mwy na 30 o ddisgyblion 4-11 oed
- tra bod cau Ysgol Abergynolwyn yn symud y dosbarthiadau lleiaf o'r ardal, ar hyn o bryd cyfartaledd maint dosbarthiadau ar gyfer grwpiau yn addysgu pedwar grwp blwyddyn yw 15.
- Erys cyflwr a sefydlogrwydd adeiladau'r ysgol yn broblem y byddai sefydlu ysgol ardal newydd sbon yn ei datrys
- Sicrhawyd cyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru i adeiladu'r ysgol ardal newydd ac i uwchraddio tair ysgol arall yn yr ardal
- Erys materion ynghylch recriwtio a chadw staff

- Deil llawer o ddisgyblion sy'n drigolion Dysynni i gael eu haddysgu tu allan i'r ardal, a dylai sefydlu'r ysgol newydd fod yn atyniad i rieni, disgyblion a staff
- Gwneid arbedion sylweddol o tua £164,000 trwy weithredu'r cynnig gwreiddiol, er mewn dau gam.

**9. Crynodeb o'r cynigion**

9.1 Nodir uchod restr o'r ffeithiau a'r dangosyddion sy'n amlinellu'r sail resymegol dros y cynigion.

9.2 Trwy'r trefniadau newydd, caiff pob plentyn yn y dalgylch gyfle cyfartal i gael ei addysgu mewn grwpiau o feintiau rhesymol yn ogystal â chyfleoedd i gyd-weithio a chyd-chwarae gyda chyfoedion yn fwy rheolaidd.

9.3 Ni fydd angen cymaint o benaethiaid yn y dalgylch a chaiff athrawon gyfle i gydrannu gwahanol arbenigeddau a chynnig yr arbenigedd hwnnw i'r disgyblion. Bydd yr ystod oedran o fewn dosbarthiadau yn llai ac felly'n hwyluso cynllunio a dysgu athrawon.

9.4 Y cynigion hyn a rydd y cydbwysedd gorau o ran darparu addysg effeithiol mewn sefydliadau effeithlon trwy roi dewis i rieni. Ni fydd yn ofynnol i unrhyw blentyn deithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd, unwaith y gweithredir y cynigion.

9.5 Cymer y cynigion i ystyriaeth anghenion adeiladau ysgol yn yr ardal ac amcanion yr AALL wrth ddatblygu ysgolion sy'n briodol ar gyfer yr 21G. Mae'r cynllun dalgylch cyfansawdd yn rhagweld adeiladu ysgol cyfan gwbl newydd gyda thair ysgol arall yn cael eu haddasu i'w gwneud y addas ar gyfer y pwrpas. Bwriedir cyflwyno cais i'r Llywodraeth am gyllid cyfalaf yn unol â'r strategaeth Ysgolion 21G.

9.6 Mae datblygu cymuned ddysgu gadarn a sefydlog yn greiddiol i roi'r cyfleoedd gorau i blant. Trwy sefydlogi'r sefyllfa, gellid rhyddhau penaethiaid, athrawon a staff ategol i ganolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau i blant.

9.7 Mae'r cynigion yn rhagweld datblygu ffocws cymunedol ar gyfer pob ysgol yn yr ardal. Mae'n ofynnol i ysgolion 21G ddarparu gwasanaethau a ddaw a'r gymuned a'r ysgol at ei gilydd, gan hyrwyddo addysg ar gyfer oedolion, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau cymunedol eraill.

9.8 Byddai creu sefydlogrwydd yn sicrhau dyfodol tymor canol i'r 4 ysgol gynradd yn yr ardal ac yn galluogi cynllunio yn seiliedig ar y gymuned o amgylch yr ysgolion hynny.

9.9 Pe bai'r cynigion hyn eu gweithredu'n llawn, ceid arbedion sylweddol, gan arbed 14% o'r gyllideb refeniw a dros 60% o'r gyllideb cynnal a chadw yn ogystal ag anghenion addasu.

9.10 Cafodd opsiynau eraill eu hystyried ar gyfer ad-drefnu ysgolion o fewn y dalgylch, ond mae'r Deilydd Portffolio o'r farn mai'r cynigion a gyflwynwyd a rydd y cydbwysedd gorau posibl rhwng cynnal safonau addysgol, sicrhau bod ysgolion yn hyfyw yn ariannol, gostwng anawsterau staffio, cynnal hygyrchedd i ysgolion a rhoi cyfle i ddatblygu adeiladau ysgol sy'n cwrdd ag anghenion 21G yn unol ag anghenion yr ardal benodol.

## 10 Taith drwy cylch pwyllgorau'r Cyngor

10.1 Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 30 Tachwedd 2010. Cefnogwyd yr argymhellion i gyd yn y Pwyllgor hwnnw.

10.2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron Bwrdd y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2010. Rhoddir adroddiad lafar ar drafodaethau ac argymhellion Bwrdd y Cyngor i gyfarfod y Cyngor llawn.

## 11. Camau nesaf

11.1 Pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion hyn, cyhoeddir rhybuddion statudol yn syth i:

- gau Ysgol Abergynolwyn erbyn 31 Mawrth 2011 a darparu lleoedd yn Ysgol Bryncrug
- cau Ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril ac agor ysgol ardal newydd erbyn y flwyddyn ysgol 2013-14
- cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2011.

11.2 Os penderfynir bwrw ymlaen, cyhoeddir rhybuddion statudol i bob ysgol, gan nodi'n eglur yr amcanion ar gyfer yr ysgol honno. Dosberthir y rhybudd statudol i'r ysgolion penodol a sefydliadau perthnasol eraill, cedwir copïau ohono mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor. Dyrennir o leiaf gyfnod o 2 fis ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r rhybudd statudol.

11.3 Ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyhoeddi rhybuddion statudol, daw'r mater gerbron Bwrdd y Cyngor i'r bwriad gael ei gadarnhau. Os yw'r

Bwrdd yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig, ac na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol, gellir cadarnhau'r penderfyniad. Os derbynnir gwrthwynebiadau ffurfiol, trosglwyddir y mater i'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 12. Argymhellion

12.1 Cymeradwyo'r cynnig i gau **Ysgol Abergynolwyn** erbyn 31 Mawrth 2011 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn.

12.2 Cymeradwyo'r cynnig i gau **ysgolion Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril** a yn ystod y flwyddyn ysgol 2013-14 a chyhoeddi rhybuddion statudol i'r perwyl hwn gyda'r nod o gau'r ysgolion yn ffurfiol unwaith mae'r ysgol ardal newydd ar agor.

12.3 Cymeradwyo cychwyn proses o ymgynghoriad yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i sefydlu **ysgol ardal gymunedol** i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2013-14 ar safle 1 yn Llanegryn yn amodol ar yr argymhelliad i gau ysgolion Bryncrug, Llanegryn Llwyngwril ac Abergynolwyn.

12.4 Cymeradwyo'r cynnig i **Gau Ysgol Aberdyfi** erbyn Awst 31 2011 gan ddarparu lleoedd ar gyfer plant yn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a chyhoeddi cynigion statudol i'r perwyl hwn.

12.5 Gwneud newid rhagnodedig i **Ysgol Penybryn,** Tywyn, trwy ganiatáu i Ysgol Penybryn roi mynediad i ddisgyblion oedran meithrin yn unol â pholisi'r Cyngor o Fedi 2011 a chyhoeddi cynigion statudol i'r perwyl hwn.

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Mae'r adroddiad yn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r cynigion yn ceisio gosod cyfeiriad clir a chynaladwy ar gyfer ysgolion dalgylch Tywyn. Mae'n galonogol bod cynifer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Deallaf bod y Pwyllgor Craffu wedi cymeradwyo'r cynigion."

2. Swyddog Monitro:

"Mae'r broses ymgynghori yr adroddir arni yn ofyn statudol ac mae rhaid i'r Cyngor wrth dod i benderfyniad ynglŷn a threfniadaeth yn y dalgylch gymeryd i ystyriaeth canlyniadau'r ymgynghoriad wrth gloriannu'r mater a phenderfynu ar y ffordd briodol ymlaen. Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor ac nid oes gennyf sylwadau pellach i'w gwneud o safbwynt priodoldeb."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Mae'r adroddiad yn chwennych cymeradwyaeth i argymhellion (ar dudalen 20) fel y cam diweddaraf o'r broses statudol yn sgil penderfyniadau blaenorol a gwaith trylwyr gan aelodau etholedig, penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, swyddogion, ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn nalgylch Tywyn. Yn y prif adroddiad (tudalennau 1 i 20) defnyddir ffigyrau ariannol 2009/10 er cysondeb gyda'r adroddiadau gwreiddiol i'r Bwrdd 03/11/2009 ac i'r Cyngor 10/12/2009 (y data diweddaraf roedd ar gael ar y pryd hynny), ac a ddefnyddiwyd hefyd yn yr holl gyfarfodydd ymgynghori statudol dilynol yn ystod haf 2010. Yn y cyd-destun hynny, cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol rheiny parthed dyraniadau a chludiant ysgolion. Mae'r achos busnes yn parhau'n gadarn, er gwaethaf lleihad ers hynny yng nghyfanswm nifer disgyblion cynradd y dalgylch, ac fel dywedais yn y farn rhoddais ar yr adroddiad 'Cynnig i gau Ysgol Abergynolwyn' i Fwrdd 12/10/2010, cadarnhaf fod rhesymau amlwg yn cefnogi'r argymhellion gerbron i weithredu'n ddi-oed."

C. Papurau Cefndir:

- Cylchlythyr Cynulliad 021/2009

- Strategaeth Addysg *Addysg Ragorol i Blant yng Ngwynedd* - Cyngor Llawn 2 Ebrilll 2009
- Adroddiad Cyngor Llawn 15 Mehefin 2010
- Papurau a chofnodion trafodaethau lleol
- Newyddlenni anfonwyd yn ystod trafodaethau lleol
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Effaith Cymunedol
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Gohebiaethau dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad statudol

---

CH. Goblygiadau Polisi:

---

**Atodiad A: Cofnodion o Cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol**

**A1: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Aberdyfi**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL ABERDYFI**

**8 Mehefin 2010 18:00**

**CYFARFOD STAFF**

9 aelod o staff yn bresennol yn cynnwys pennaeth, staff dysgu, cymorthyddion a staff ategol

**Croeso a chyflwyniadau:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg, i'r gynulleidfa.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd yn hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig:**

Eglurwyd y rhesymau dros gyflwyno'r cynnig.

*Gofynnwyd a fyddai gwarant y byddai £57,000 o gyllid yn dilyn plant Ysgol Aberdyfi i Ysgol Penybryn, a pha warant oedd o ran defnydd o'r arian gan Ysgol Penybryn? A oes risg y byddai toriadau ar gyllideb Ysgol Penybryn yn golygu nad cyflogi staff ychwanegol fyddai'r ysgol ond lleihau ar doriadau.*

Nodwyd y byddai gwerth £57,000 o gyllideb yn dilyn 20 disgybl yr ysgol i Ysgol Penybryn petai pob disgybl yn dewis mynychu'r ysgol honno. Nodwyd y byddai hyn yn rhoi'r cyfle i Benybryn gyflogi cyfwerth ag athro a chymhorthydd dosbarth ychwanegol. Esboniwyd serch hynny mae mater i Ysgol Penybryn fyddai cyflogi athro ychwanegol ond bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo gyda'r plant. Esboniwyd bod Ysgol Penybryn yn wynebu toriadau hefyd a bod dealltwriaeth mai o bosib lleihau ar doriadau gymaint â chynyddu cyllideb fyddai'r £57,000 ychwanegol.

Esboniwyd hefyd fwriad i gadw 20% o arbedion a ganfuwyd o fewn dalgylch trwy ad-drefnu o fewn y dalgylch hwnnw.

Bydd mwy o athrawon ym Mhenybryn gan ganiatáu amrediad ehangach o arbenigeddau addysgol. Byddai cyfle i blant gymysgu a phlant o'r un oed. Nododd staff y teimlad fod ysgol fach yn rhoi gwell cyfleon gan fod llai o blant a bod hyn yn rhoi gwell cyfleon iddynt ymgymryd â gweithgareddau a does neb yn cael eu gadael allan.

*A yw arian ôl-ddefnydd adeiladau yn dod yn ôl i addysg hefyd?*
Byddai gan gymunedau gyfle i gyflwyno cynllun busnes i gefnogi unrhyw awydd i ddefnyddio'r adeilad i'r gymuned. Byddai unrhyw dderbynion a ddeuai i'r Cyngor o werthu safleoedd ysgolion a gaewyd yn trosglwyddo i Gynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd er mwyn ariannu datblygiadau ar draws holl ystod eiddo'r Cyngor, nid dim ond addysg.

*Beirniadwyd y papur ymgynghorol am nodi cyfleoedd ychwanegol yn Ysgol Penybryn am fod hyn yn awgrymu nad oedd addysg Ysgol Aberdyfi yn ddigonol*
Nodwyd nad hyn oedd yr awgrym, ond mai datganiad o ffaith yw bod Ysgol Penybryn yn ysgol o safon uchel iawn a bod hyn wedi'i gadarnhau gan arolwg gan Estyn yn ystod haf 2010.

**Manteision ac anfanteision**

Nodwyd fod nifer fawr o fanteision ac anfanteision y gellir eu rhestru ond fod detholiad wedi eu nodi ar y papur ymgynghorol. Nodwyd y bydd cyfle i unrhyw un sydd yn dymuno gwneud hynny anfon sylwadau i mewn i ychwanegu at y rhestr yma.

Byddai'n anfantais i'r plant i beidio ymwneud â phlant eraill (interact) y tu allan i oriau ysgol.

*Nodwyd fod mwy o anfanteision na'r rhai sydd wedi ei restru ar y papur ymgynghorol. Cyfeiriwyd yn benodol at y cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned a statws yr ysgol fel adnodd Cymraeg ei hiaith o fewn cymuned nad oedd â llawer o adnoddau Cymraeg*
Derbyniwyd y pwynt a nodwyd bod croeso i ymatebion grynhoi'r pwyntiau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Effaith y cynnig**

*Beth fydd yn digwydd i staff petai'r ysgol yn cau?*
Nodwyd y byddai'r Cyngor yn annog ysgolion megis Penybryn i geisio gwarchod swyddi ychwanegol o gau Ysgol Aberdyfi i staff Aberdyfi yn y lle cyntaf. Serch hynny, pwysleisiwyd mai llywodraethwyr sydd â'r cyfrifoldeb dros benodi staff ac mai mater iddyn nhw fyddai hyn yn y pendraw. Bydd y Cyngor yn gwneud ei gorau i sicrhau y bydd help a chyfleoedd ar gael ar draws y gwir.

*Nodwyd pryder gan y staff na fyddai swyddi cyffelyb ar gael yn lleol gan fod dalgylchoedd cyfagos eraill yn cael eu had-drefnu ar yr un adeg. Nodwyd eu pryder am y dyfodol gan fod ganddynt forgeisi, phlant a.y.b.*

Os na fydd swyddi addas ar gael yn lleol, yna byddai'r drefn diswyddo arferol yn berthnasol. Anogwyd y staff i gysylltu â'u hundebau i sicrhau fod y pecyn a gynigir iddynt yn addas os a phan ddaw'r amser.

*Gofynnwyd am arweiniad ar bolisi cludiant y Cyngor*
Mae polisi cludiant y cyngor yn nodi fod cludiant am ddim i blant i'r ysgol yn y dalgylch neu'r ysgol agosaf iddynt.

*Nododd y staff eu bod yn teimlo fod addysg feithrin yn well mewn ysgol na mewn cylch meithrin. Nodwyd nad oedd Aberdyfi yn ymwybodol o'r newid yn oed meithrin ym Mhenybryn.*
Eglurwyd mai dyna yw'r ymgynghoriad statudol sydd yn digwydd ym Mhenybryn ar hyn o bryd – byddai hyn yn galluogi plant meithrin Aberdyfi barhau i dderbyn addysg feithrin mewn ysgol.

*Ariannu datblygiad darpariaeth feithrin ym Mhenybryn*
Eglurwyd fod cais gwerth £7m wedi ei anfon i'r cynulliad ac y bydd tua £1.5m o'r cais ar gyfer gwella cyfleusterau ysgolion Penybryn, Pennal a Chorris.
Croesawyd y newydd yma gan eu bod yn teimlo fod adeiladau dwy o ysgolion y dalgylch yn hollol anaddas.

*Beth fyddai'n digwydd i'r cynigion yn y cylch pe bai'r cais am gyllid cyfalaf gan y Llywodraeth yn methu?*
Eglurwyd fod yr arian gan y Cyngor er mwyn adeiladu ysgolion newydd a grëwyd trwy'r broses ad-drefnu ysgolion. Gellid felly defnyddio'r arian hyn ym Mro Dysynni petai rhaid, ond y byddai rhaid mynd yn ôl i'r Cyngor i ofyn am arian i wella adnoddau a chyfleusterau'r 3 ysgol arall.

**Camau nesaf**

Eglurwyd y broses a'r drefn o hyn allan ac y byddai'r cofnodion o'r cyfarfod hwn a'r holl gyfarfodydd eraill yn y dalgylch yn ogystal ag unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael ei roi mewn adroddiad i bwyllgorau'r Cyngor.

*Gofynnwyd a fyddai'r sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu cyfri fel gwrthwynebiadau ffurfiol yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol?*
Eglurwyd na fyddai sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad yn ddilys ar gyfer y cyfnod gwrthwynebiadau ffurfiol petai'r Cyngor yn penderfynu cyhoeddi rhybuddion statudol i gau Ysgol Aberdyfi. Byddai rhaid anfon gwrthwynebiad ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn os oedd unrhyw yn teimlo eu bod eisiau. Os derbynnir gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod yn dilyn y rhybudd statudol yna

bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad a hwy fyddai'n gwneud y penderfyniad wedyn. Eglurwyd y gall hyn gymryd rhai misoedd.

*Dywedwyd fod nifer o lythyron wedi eu hanfon ond nad oedd ymateb wedi eu derbyn iddynt.*
Eglurwyd fod swyddogion a chynghorwyr wedi ceisio ymateb i bob llythyr ac e-bost a dderbyniwyd. Eglurodd Cyng. Roberts ei bod hi wedi derbyn un llythyr oedd yn gofyn am ymateb i lythyr blaenorol ac fe'i basiwyd ymlaen i'r swyddogion ymateb iddo a bod hyn wedi eu gwneud. Addawyd cydnabod derbyn pob gohebiaeth er mwyn rhoi sicrwydd bod sylwadau wedi eu derbyn.

*Rhoddwyd cais i beidio a chau ysgol Aberdyfi nes y bydd yr Ysgol Ardal yn agor ym Mro Dysynni er mwyn iddynt hwy gael yr un cyfleoedd a gweddill staff y dalgylch.*
Derbyniwyd y sylw a chyfeiriwyd staff i godi'r pwynt yn ystod yr ymgynghoriad.

*Pam cau Aberdyfi gyntaf pan mae ysgolion eraill (Abergynolwyn) mewn gwaeth sefyllfa?*
Mae ysgol Abergynolwyn yn rhan o'r cynllun ym Mro Dysynni.

*A fydd y Cynghorwyr yn ymwybodol o deimladau Aberdyfi?*
Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael ei gyflwyno yn y papurau i bwyllgorau'r Cyngor - anogwyd pawb i anfon y sylwadau a'r pwyntiau y maent eisiau eu rhoi drosodd ir Cynghorwyr i mewn erbyn 30 Gorffennaf 2010.

*Cwestiynwyd cywirdeb gwybodaeth ar gyfleusterau yr ysgol cyfeiriwyd atynt mewn adroddiadau blaenorol*
Eglurwyd fod y wybodaeth yma wedi dod o holiaduron a gwblhawyd gan y penaethiaid yn ôl yn 2007. Gofynnwyd i'r pennaeth anfon y sylw hwn i mewn er mwyn ei gynnwys yn adroddiad y pwyllgorau.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL ABERDYFI**

**8 Mehefin 2010 19:00**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR A RHIENI**

Ar gais llywodraethwyr, cyfunwyd y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer llywodraethwyr a rhieni. Nododd llywodraethwyr hefyd eu dymuniad i wahodd aelodau o'r gymuned ynghyd â phwyllgor amddiffyn yr ysgol. Cytunwyd i hyn.

Roedd 40 yn bresennol.

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg, i'r gynulleidfa.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd y cynnig a'r rhwyd diogelu. Nodwyd fod £22,212 yn cael ei roi i Ysgol Aberdyfi yn ychwanegol i'r dyraniad arferol er mwyn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro i'r ysgol. Petai rhieni Aberdyfi yn dewis anfon eu plant i Benybryn byddai £57,000 yn trosglwyddo i Benybryn.

*Mynegwyd barn nad oedd y papur wedi ei rannu allan mewn digon o amser er mwyn i gynrychiolwyr yr ysgol gael cyfle i fynd drosto yn iawn. Gofynnwyd pa bryd y cafodd y ddogfen yma ei pharatoi gan nad oedd digon o amser wedi bod i'w darllen.*
Nododd Cadeirydd y Llywodraethwyr fod y ddogfen wedi ei derbyn cyn hanner tymor ond ni fu'n hawdd ei rhannu er bod pob ymdrech wedi ei wneud i'w rhannu.

Eglurwyd fod y papur wedi ei ddosbarthu trwy law yr wythnos cyn hanner tymor, a bod y cyfarfod i bwrpas cyflwyno'r papur a bod hyd at 30/7/2010 i ymateb.

*Gofynnwyd a fyddai'r sylwadau a fyddai'n cael ei anfon i mewn yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn llawn?*
Byddai unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn cael ei gynnwys yn ei gyfanrwydd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

*Faint o amser o flaen llaw fydd aelodau'r Pwyllgorau yn derbyn yr adroddiad? A fydd hyn yn ddigon o amser iddynt gael cyfle i'w ddarllen?*
Wythnos yw'r amser arferol ond yn yr achos yma gan ei bod yn debyg y bydd y papur yn un hir fe roi'r cais i mewn i'w hanfon ynghynt er mwyn i'r aelodau gael cyfle i ddarllen y papur yn iawn.

*A fydd y cynghorwyr yn cael y cyfle i bleidleisio ar bob cynnig ar wahân? Teimlwyd fod y ffordd y pleidleisiwyd yn y Cyngor Llawn- sef o gymryd holl bleidleisiau Tywyn gyda'i gilydd - yn annheg.*

Bydd angen cyngor pellach ar y pwynt hwn ond ymrwymwyd i gymryd y neges yn ôl.

*Teimlir nad yw plant yn datblygu yr un fath drwy gymysgu gyda phlant o'r un oed a hwy a fuasent drwy gymysgu gyda phlant hyn.*
*Mae ysgolion bach o oedran cymysg yn rhoi addysg well nag ysgolion mwy.*
*Gofynnwyd am farn swyddogion y Cyngor am rinweddau ysgolion bach ac a oedd swyddog ar dîm rheoli'r adran addysg oedd gwerthfawrogi rhinweddau ysgolion bach.*
Mae Estyn yn nodi fod dosbarthiadau o blant yr un oedran yn bwysig. Eglurwyd y cefndir y tu ôl i'r ddogfen strategol a'r ffordd yr aethpwyd o amgylch ei chreu.
Derbyniwyd tystiolaeth gan sbectrwm eang o bobl gan gynnwys Estyn, ysgolion bach, National Association for Small Schools, Cymdeithas yr Iaith ac eraill. Eglurwyd mai gan y Cynghorwyr y mae'r penderfyniad o hyn allan Cefnogwyd y strategaeth gan y cynghorwyr ar ôl derbyn tystiolaeth gan y sefydliadau uchod.

*Teimlad fod blaenoriaethu adroddiadau dros farn pobl leol yn digwydd.*
*O ble daw tystiolaeth Estyn?*
Mae Estyn yn cyhoeddi adroddiadau nid yn unig ar ysgolion ond ar unrhyw sefydliad sydd yn ymwneud ag addysg, gan gynnwys yr adran addysg.

*Teimlad bod y papur ymgynghorol yn cyflwyno 'dadl unochrog' mewn beth ddylai fod yn ymgynghoriad.*
Eglurwyd mai amlinellu manteision ac anfanteision posib at bwrpas ymgynghoriad oedd yma.
Nodwyd fod y gyfres gyntaf o gyfarfodydd yn nalgylch Tywyn yn unigryw yng Ngwynedd a bod hyn wedi paratoi modelau i ymgynghori arnynt ac nad yw hyn wedi digwydd mewn siroedd eraill.

*Mae 'Strategaeth Gwynedd Ar y Cyd' yn nodi y dylid cynllunio i wneud ardaloedd yn ddeniadol i deuluoedd ifanc a phlant. Cwestiynwyd sut y byddai cau ysgol Aberdyfi yn mynd i wneud Aberdyfi yn ddeniadol i'r bobl ifanc hyn?*

**Manteision ac Anfanteision Cau**

Nodwyd fod nifer fawr o fanteision ac anfanteision y gellir eu rhestru ond fod detholiad wedi eu nodi ar y papur ymgynghorol. Nodwyd y bydd cyfle i unrhyw un sydd yn dymuno gwneud hynny anfon sylwadau i mewn i ychwanegu at y rhestr yma.

Eglurwyd y bydd unrhyw arbedion yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl i mewn i'r gyfundrefn addysg a bod ymgynghoriad yn mynd rhag blaen ar gynnig i gadw 20% o unrhyw arbedion a grëwyd yn y dalgylch o fewn y dalgylch am gyfnod y broses ad-drefnu a hynny er mwyn helpu patrwm addysg newydd yn ystod cyfnod ansefydlog o unrhyw drefn newydd. Ar ddiwedd y broses ad-drefnu sirol, byddai'r holl arbedion yn trosglwyddo i'r gyllideb addysg sirol.

*Nodwyd fod Ysgol Aberdyfi yn cynnig addysg o safon uchel hefyd nid yn unig ym Mhenybryn.*
Atebwyd mai ffaith oedd bod Ysgol Penybryn yn ysgol dda iawn a bod hyn wedi'i gadarnhau gan Estyn mewn arolwg yn ystod 2010.

*Os daw carchar i Dywyn byddai'n denu teuluoedd newydd ac yn cynyddu nifer disgyblion Penybryn.*

*Os fyddai oed mynediad ysgol Penybryn yn newid i dderbyn plant yn 3 oed yn hytrach na 4 oed efallai na fydd gan ysgol Penybryn le i'r plant i gyd yn y dyfodol.*
Nodwyd fod lle yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai rhaid ailedrych ar y sefyllfa i'r dyfodol os bydd hyn yn newid.

*Cynigwyd fod pwynt 3.5 yn gamarweiniol. Mae ysgol Penybryn yn wynebu toriadau hefyd ac os bydd holl blant Aberdyfi yn mynd i Benybryn yna ni fyddant ond yn yr un sefyllfa.*
*Nodwyd fod nifer o rieni yn ystyried mynd a'u plant i Fachynlleth ac felly byddant yn mynd allan o'r sir.*
Nodwyd fod y rhagolygon cyllidol ar sail y byddai pob disgybl o Aberdyfi yn trosglwyddo i Benybryn. Wrth reswm, petai llai o ddisgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol, byddai'r rhagolygon cyllidol yn wahanol.

*Nodwyd teimlad nad oedd yn ddogfen 'gytbwys' er mwyn rhoi sylwadau yn erbyn ac o blaid.*

**Effaith y cynnig**

*Pam fod Tywyn wedi ei ddewis i gychwyn y broses adolygu?*
Pan luniwyd y strategaeth a'r matrics er mwyn penderfynu trefn yr ad-drefnu daeth dalgylch Tywyn i'r amlwg fel yr ardal oedd fwyaf angen ei hadolygu. Cymeradwywyd y penderfyniad i gychwyn yn Nhywyn gan y Cyngor wrth dderbyn y strategaeth.

Nodwyd nifer o bwyntiau yn gwrthwynebu'r cynnig i gau:
*Petai Cyngor Gwynedd wedi helpu Aberdyfi i gael y gefnogaeth gywir flynyddoedd yn ôl i'r pennaeth yna ni fyddai plant wedi gadael yr ysgol i ysgolion eraill. Ni roddwyd digon o arian i'w cefnogi adeg hynny.*

*Mae neuadd gymunedol dros y ffordd ble mae plant yn mynd iddi i ymgymryd â gweithgareddau - nid oes posibl rhoi gwerth ar ddefnydd fel hyn.*

*Nodwyd fod y cyfnod sylfaen yn un da yma.*

*Byddai ychwanegu bws arall i fynd a phlant i Benybryn yn beryglus gan nad oes lle i barcio bws ychwanegol.*

*A fydd y cyngor yn talu am ddillad ysgol newydd i'r plant?*

*Mae plant yn ymgymryd â gweithgareddau yn y gymuned ac mae'r gymuned yn rhan o'r ysgol. Cynhelir Urdd a chinio cymunedol yn y neuadd ble mae'r plant i gyd yn cymryd rhan. Perygl colli hyn os fydd yr ysgol yn cau.*

*Mae ysgolion bach yn fwy amlwg mewn gweithgareddau cymunedol.*

*Os caeir ysgol Aberdyfi byddai adnodd gwerthfawr yn cael ei golli. Mae'n ysgol 20fed Ganrif dda ac mae'n rhaid y byddai'n cyngor yn gwneud arbediad sylweddol o'i chau.*

*Cyflwynodd Hyrwyddo Ysgolion Bach ddogfen i'r cynulliad a oedd yn nodi petai holl ysgolion o dan 90 disgybl yng Nghymru yn cau mai arbediad o 2% fyddai..*

*Teimlo fod y Cyngor yn edrych am 'property hotspots' i'w gwerthu am bris da. Ni fyddai pwrpas adeiladu tai newydd gan na fydd ysgol yma.*

*Pam nad oedd yr Asesiad Effaith Ieithyddol wedi cael ei wneud yn ystod adolygu'r dalgylch?*
Daeth canllawiau o'r Cynulliad ar ôl y broses yn Nhywyn ac oherwydd hynny, Cyngor Gwynedd yw'r sir gyntaf i gynnal asesiad o'r fath.

*A fydd yr Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol yn mynd i'r Cyngor?*
Bydd.

*Beth fydd yn digwydd i'r adeilad?*
Yn rhan o'r broses bydd cyfle i'r gymuned leol lunio cynllun busnes i gymryd yr adeilad er defnydd y gymuned.

*Gofynnwyd am berchnogaeth safle'r ysgol. Atebwyd bod yr adeilad a'r tir o'i chwmpas yn eiddo i'r Cyngor. Cwestiynwyd yr ateb a gofynnwyd i swyddogion gynnal ymchwil pellach a gofynnwyd am gopïau o'r ddogfennaeth wreiddiol.*
Diolchwyd am y sylwadau ac ymrwymwyd i edrych i mewn i hyn yn ddyfnach.

Eglurwyd fod bid wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad am arian grant i gynnal gwaith adeiladu yng nghylch Tywyn petai'n llwyddiannus bydd rhan ohono yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ysgolion Penybryn, Pennal a Chorris. Nid oes sicrwydd o dderbyn yr arian o'r Cynulliad ond mae gan y Cyngor arian wedi ei glustnodi ar gyfer adeiladu ysgol ardal ond nad yw hynny yn cynnwys gwella'r ysgolion eraill. Byddai rhaid mynd yn ôl at y Cyngor i ofyn am arian i hyn.

*Un rhiant yn teimlo nad yw wedi cael y dewis i anfon ei phlentyn i'r ysgol ardal newydd ac nad yw llawer o'r rhieni yn awyddus i anfon eu plant i Benybryn.*

*Nodwyd teimlad o anfodlonrwydd bod y Cyngor yn barod i gadw ysgol Abergynolwyn yn agored er bod gan Abergynolwyn lai o blant nag Aberdyfi.*

*Mae clwb brecwast yn Aberdyfi ond ddim ym Mhenybryn.*

*Sut mae Penybryn yn mynd i sicrhau diogelwch plant fydd yn mynd ar ac oddi ar fysiau?* Mae gofyn i bob cwmni bws ofalu am bob plentyn. Nodwyd fod un person wedi sylwi sŵn mawr o sgrechian a gweiddi oedd ar un bws a basiodd yn Nhywyn yn ddiweddar.

*Pryder am ddiogelwch plant ar fysiau ysgol ac y byddai'n anodd iddynt ddod o hyd i'r bws cywir i ddod adref arno.*

*Nododd un cyn-riant fod ganddi 3 plentyn wedi bod yn ysgol Aberdyfi ac aeth ymlaen i Ysgol Uwchradd Tywyn a'i bod yn falch iawn o'u datblygiad.*

**Camau nesaf**

Eglurwyd:

- Beth fyddai'r camau nesaf yn y broses a bod croeso i unrhyw anfon sylwadau erbyn 30/7/2010. Bydd y sylwadau wedyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a fyddai'n mynd i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.
- Na fyddai sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod o ymgynghori statudol yma yn cael eu hystyried ar ôl cyflwyno'r Rhybudd Statudol ac y byddai'n rhaid anfon sylwadau pellach, petai gwrthwynebiad yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yna byddai'r cais yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad wneud penderfyniad. Nodwyd y gall penderfyniad gymryd rhai misoedd ar ôl iddo gael ei drosglwyddo.

*A fyddai'r pecyn o wrthwynebiadau yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad?*
Byddai

*Pwy yw'r Gweinidog Addysg?*
Leighton Andrews.

*Beth os na fydd y Cynulliad yn cytuno a'r penderfyniad?*
Byddai rhaid dod yn ôl i'r dalgylch i drafod ymhellach.

*Beth yw argraff Cyng. Roberts o ysgol Aberdyfi?*
Nododd ei argraff gyntaf wrth ymweld â'r ysgol y tro cyntaf yn 2009 ei fod yn adeilad braf ond ei fod wedi ei tharo'n adeilad gwag. Nododd ei bod rhaid iddi gydbwyso anghenion ysgolion ac addysg y sir gyfan.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud ymholiadau a fyddai modd anfon adroddiad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc allan ynghynt er mwyn sicrhau fod yr aelodau yn cael amser i'w ddarllen yn iawn cyn y cyfarfod.

*Gofynnwyd pwy oedd yn eistedd ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc?*
Eglurwyd fod y wybodaeth ar wefan Gwynedd.

*Nodwyd fod Nick Bourne yn ymweld â'r ysgol am 12:00 dydd Gwener a bod croeso i unrhyw un bod yn bresennol yn y cyfarfod.*

Diolchwyd i bawb am ddod i'r cyfarfod ac er bod gwahaniaeth barn yma y byddai'n deg dweud mai'r gorau i blant yr ydym i gyd eisiau ar ddiwedd y dydd.

Nododd Cyng. Roberts nad yw'n hawdd gwneud penderfyniadau o'r math hyn ond fod rhaid cynllunio am yr 20+ mlynedd i ddod.

**A2: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Abergynolwyn**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL ABERGYNOLWYN**

**15 Mehefin 2010 17:00**

**CYFARFOD STAFF**

3 aelod o staff yn bresennol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Adroddwyd bod ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng 7 Mehefin a 30 Gorffennaf 2010 ynglŷn â chau ysgol Abergynolwyn. Eglurwyd os cytunir i'r cynnig bwriedir adeiladu ysgol ardal newydd ar gyfer Bro Dysynni i gwmpasu dalgylchoedd presennol Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril.

Nodwyd y bydd cyfle i staff, llywodraethwyr a disgyblion gael cyfle i ddweud eu barn. Ymhelaethwyd bod modd i'r staff ymgynghori gyda'r disgyblion yn yr ysgol neu y daw swyddogion o'r adran addysg i wneud hynny gyda'r plant yn yr ysgol. Ategwyd bod cyfle i gyflwyno sylwadau ac unrhyw ddogfennaeth ychwanegol i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd a gynhelir ar 23 Medi 2010.

Eglurwyd pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno:
- Rhesymau cyllidol; ac eglurwyd fod ysgol Abergynolwyn yn derbyn £19,359 oherwydd gwarchodaeth y rhwyd-diogelwch.
- Rhesymau niferoedd llefydd gwag – 76% o lefydd gwag yn ysgol Abergynolwyn

**Manteision ac Anfanteision Cau**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd bod croeso i ychwanegu at y manteision ac anfanteision drwy ymateb i'r ymgynghoriad. Ymhelaethwyd bod isafswm nifer y

staff a fydd eu hangen wedi ei amcangyfrif trwy gymryd y bydd 90 o blant yn mynychu'r ysgol arfaethedig.

*Gofynnwyd beth a fyddai'n digwydd i'r arian a arbedir drwy gau'r pedair ysgol?*

Eglurwyd:

- mai'r bwriad yw cadw 20% o'r arbedion o fewn dalgylch Tywyn tan i'r Cyngor gwblhau'r broses o adolygu holl ysgolion y sir
- na fydd yr arian ar gael tan Fedi 2013 ac y bydd dyrannu'r arian yn benderfyniad i swyddogion addysg a phenaethiaid ysgolion y dalgylch

*Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd i'r staff?*

O ran penodi staff, eglurwyd byddai trefn o benodi Pennaeth i gychwyn ac yna gweddill y tîm. Byddai hyn yn digwydd cyn i'r ysgol agor. Ategwyd bod modd i'r staff gysylltu gyda staff yn yr Adran Addysg os ydynt eisiau gwybodaeth am eu hamgylchiadau personol o ran sefyllfa diswyddo.

**Effaith y cynnig**

Adroddwyd os bydd y cynllun arfaethedig yn mynd yn ei flaen y bydd Ysgol Abergynolwyn yn cael erbyn 31 Awst 2013 ac y bydd gan blant 3 opsiwn wrth ddewis ysgol:

i) mynychu Ysgol Ardal Bro Dysynni
ii) mynychu ysgol arall os ydi honno'n agosach na'r ysgol ardal
iii) gwneud cais fel disgybl all-ddalgylch i ysgol arall os oes lle

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd i adeilad yr ysgol pe bai'r ysgol yn cael ei chau?*

Eglurodd y pennaeth Addysg y bydd cyfle i gymuned ddatblygu cynllun busnes ar gyfer yr adeilad ac y byddai'r Cyngor yn trosglwyddo cyfrifoldeb o'r adeilad iddynt pe bai'r cynllun busnes yn llwyddiannus. Pe na bai gan y gymuned ddiddordeb byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored.

Nodwyd ymhellach:

- Fod bwriad gan y Cyngor i gefnogi unrhyw anghenion teithio yn ystod cyfnod o newid h.y. plant sydd yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- Y cyfleoedd all godi wrth gynnig darpariaeth feithrin o fewn ysgol newydd, a'r posibiliadau o gynnig gofal plant ehangach.
- Fod bid am gyllid cyfalaf wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, a hefyd i wneud gwelliannau i ysgolion eraill o fewn dalgylch Tywyn a bod ymateb i'r bid yn ddisgwyliedig yn ystod yr haf.

Nododd y staff eu bod yn croesawu datblygiad i edrych ar ddarpariaeth gofal plant yn yr ysgol arfaethedig ac y byddai'n atyniad i rieni.

**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd:

- Camau nesaf y broses, a bod posibilrwydd o wrthwynebiad yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn golygu gellid fod hyd at 7 mis o oedi i gael penderfyniad gan y Cynulliad.

- Y bydd corff llywodraethu newydd yn cael ei greu i'r ysgol newydd gyda chynrychiolaeth o'r 4 ysgol. Ymhelaethwyd mai hwy a fydd yn gyfrifol am benodi staff ac mai'r cam cyntaf fydd penodi pennaeth. Ategwyd y byddent yn edrych ar staff presennol y 4 ysgol yn gyntaf ac wedyn pe na bai ymgeisydd addas y byddai hawl ganddynt i edrych tu allan i'r dalgylch.

- Fod cefnogaeth ar gael i staff yn ystod y cyfnod gan gydnabod fod ansicrwydd, ond fod croeso iddynt gysylltu â'r Adran Addysg gyda chwestiynau neu am gymorth.

**Opsiynau lleoliad:**

Edrychodd staff yr ysgol a llywodraethwyr ar 5 opsiwn o leoliad posib i'r Ysgol Ardal newydd. Aethpwyd trwy'r opsiynau a mynegwyd barn trwy osod dotiau gwahanol liw i fynegi blaenoriaeth ar y cynlluniau:

Safle 1 = 1 dot blaenoriaeth 3
Safle 8 = 7 dot Blaenoriaeth 1 a 1 dot blaenoriaeth 2
Safle 9 = 1 dot yn Blaenoriaeth 1 a 6 dot blaenoriaeth 2

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL ABERGYNOLWYN**

**15 Mehefin 2010 18:00**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR A RHEINI**

6 aelod o'r corff llywodraethu'n bresennol a'r Aelod Lleol yn ogystal â dau aelod o staff

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 3 aelod o'r llywodraethwyr.

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rhai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd:

- Ynglŷn â'r drafodaeth sydd wedi arwain at y cyfarfod statudol, gan egluro fod y trafodaethau hyd at hyn wedi bod yn anstatudol.
- Fod cyfnod yr ymgynghoriad hyd at 30/7/2010, a bod sylwadau o'r ymgynghoriad wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu, Bwrdd a'r Cyngor Llawn gan gynnwys cofnodion y cyfarfod hwn.

Ymhelaethwyd pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno:

- Rhesymau cyllidol; ac eglurwyd fod ysgol Abergynolwyn yn derbyn £19,359 oherwydd gwarchodaeth y rhwyd-diogelwch.
- Rhesymau niferoedd llefydd gwag – 76% o lefydd gwag yn Ysgol Abergynolwyn

Eglurwyd y bwriad i ailgylchu arbedion o fewn y gyfundrefn addysg, ac yn ogystal, o ganlyniad i drafodaethau Panel Dalgylch Tywyn, fod bwriad cadw 20% o arbedion o fewn y dalgylch am hyd y cyfnod trawsnewidiol. Byddai defnydd o'r arian yn cael ei bennu drwy drafodaeth gyda swyddogion addysg a phenaethiaid.

**Manteision ac Anfanteision Cau**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd. Croesawyd unrhyw un i ychwanegu at y manteision ac anfanteision drwy ymateb i'r ymgynghoriad.

*Gofynnwyd a fyddai ymgynghoriad o ran defnydd o'r arian a arbedir o ganlyniad i gau'r 4 ysgol?*

Mewn ymateb i'r uchod nododd y Pennaeth Addysg bod dogfen ymgynghorol ar ei ffordd i lywodraethwyr y bedair ysgol yn gofyn am eu barn ynglŷn â beth a ddylid ei wneud gyda'r arian.

**Effaith y cynnig**

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd i adeilad yr ysgol ar ôl ei chau?*

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod cyfle i'r gymuned lunio cynllun busnes i gael meddiant o'r adeilad. Pe na bai'r gymuned yn awyddus i wneud hynny byddai'n mynd ar y farchnad agored.

*Mynegwyd pryder ynglŷn â dyfodol yr adeilad. Eglurwyd bod canolfan gymunedol yn y pentref yn barod ac na fyddai'r gymuned yn debygol o fod eisiau cymryd meddiant o'r adeilad.*

*Pwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried yn ddwys i bwy y gwerthir y safle gan y bydd yn effeithio ar y gymuned. Nodwyd y byddai'r gymuned yn dymuno gweld yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i bwrpas cyflogaeth leol. Awgrymwyd y gallai'r Cyngor ddefnyddio'r adeilad i ennyn cyflogaeth i'r ardal.*

Nododd yr aelod lleol bod cynghorwyr Meirionnydd wedi dod at ei gilydd i drafod ymestyn cyflogaeth i dde'r sir a'u bod wedi gofyn i'r swyddogion perthnasol roi sylw penodol i ardal Tywyn.

*Gofynnwyd a fyddai'r plant yn cael cludiant am ddim i'r ysgol?*

Nodwyd y byddai pawb sy'n byw o fewn 2 filltir i Ysgol Abergynolwyn yn cael cludiant am ddim i'r ysgol arfaethedig. Ategodd y byddai modd edrych ar y posibilrwydd o roi cludiant am ddim hefyd i ddisgyblion eraill Ysgol Abergynolwyn er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r ysgol newydd.

Nodwyd ymhellach:
- Y cyfleoedd all godi wrth gynnig darpariaeth feithrin o fewn ysgol newydd, a'r posibiliadau o gynnig gofal plant ehangach.
- Fod bid am gyllid cyfalaf wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, a hefyd i wneud gwelliannau i ysgolion eraill o fewn dalgylch Tywyn a bod ymateb i'r bid yn ddisgwyliedig yn ystod yr haf.

*Gofynnwyd pa mor ffyddiog yw swyddogion y bydd y bid yn llwyddiannus o ystyried y sefyllfa economaidd bresennol?*

Adroddwyd y disgwylir cael gwybod a fu'r bid yn llwyddiannus erbyn diwedd Gorffennaf. Pe byddai'r cais yn aflwyddiannus y byddai'r Cyngor yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi neilltuo yn benodol ar gyfer Trefniadaeth Ysgolion i ariannu'r ysgol dalgylch arfaethedig. Fodd bynnag nodwyd pe bai'r arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i hyn na fyddai rhagor wrth gefn ac y byddai rhaid ailystyried gweddill y cynllun trefniadaeth ysgolion.

**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd:
- Camau nesaf y broses, ac y byddai unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn golygu gellid fod hyd at 7 mis o oedi i gael penderfyniad gan y Cynulliad.

- Fod cefnogaeth ar gael i staff yn ystod y cyfnod gan gydnabod fod ansicrwydd, ond fod croeso iddynt gysylltu â'r Adran Addysg gyda chwestiynau neu am gymorth.

**Opsiynau lleoliad:**

Eglurwyd fod cyfle yn y cyfarfod i staff, llywodraethwyr a rhieni i roi eu barn ar opsiynau o leoliadau, ac wedi hynny byddai trafodaethau pellach gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - a phenderfyniad wedi hynny. Nodwyd fod arweiniad lleol ar yr opsiynau yn ddefnyddiol.

Edrychodd staff yr ysgol a llywodraethwyr ar 5 opsiwn o leoliad posib i'r Ysgol Ardal newydd. Aethpwyd trwy'r opsiynau a mynegwyd barn trwy osod dotiau gwahanol liw i fynegi blaenoriaeth ar y cynlluniau (roedd modd i fynychwyr osod 4 dot o wahanol liw pe byddent yn dewis gwneud hynny):

Safle 1 = 1 dot blaenoriaeth 3
Safle 8 = 7 dot Blaenoriaeth 1 a 1 dot blaenoriaeth 2
Safle 9 = 1 dot yn Blaenoriaeth 1 a 6 dot blaenoriaeth 2

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod.

## A3: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Bryncrug

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRYNCRUG**

**14 Mehefin 2010 17:30**

**CYFARFOD STAFF**

6 aelod o staff yn bresennol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Tynnwyd sylw yn benodol fod y Panel Dalgylch wedi nodi eu bod am roi sylw i ardal Bro Dysynni yn benodol, ar wahân i dref Tywyn.

Eglurwyd fod y Cyngor yn awyddus i dderbyn barn disgyblion yr ysgol ac a bydd ffurf hynny yn cael ei drafod efo'r ysgol.

Nodwyd fod tan 30 Gorffennaf 2010 i gasglu ymatebion i'r ymgynghoriad.

Eglurwyd pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno:
- Rhesymau cyllidol; ac eglurwyd fod ysgol Bryncrug yn derbyn £21,747 oherwydd gwarchodaeth y rhwyd-ddiogelwch.
- Rhesymau niferoedd llefydd gwag – 65% o lefydd gwag yn ysgol Bryncrug – cwymp o 79 mewn nifer i 20 yn 2009/10.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

*Gofynnwyd a oedd niferoedd posib plant all-ddalgylch wedi eu hystyried wrth amcangyfrif maint yr ysgol ardal arfaethedig?*

Eglurwyd fod peth hyblygrwydd o ran cynhwysedd ysgol newydd, ond fod polisi mynediad y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i blant y dalgylch. Cyfrifwyd felly ar sail

niferoedd mewn ysgolion, rhagolygon yr ysgolion, a gwybodaeth am nifer plant o fewn y 4 dalgylch nad oedd yn mynychu un o'r 4 ysgol.

*Arbedion*
Nodwyd bod y Cyngor yn ymgynghori ar gynllun i gadw 20% o unrhyw arbedion a grëwyd gan ddalgylch wrth ad-drefnu ysgolion o fewn y dalgylch hwnnw am y cyfnod o adolygu'r sir. Os gwireddir y cynigion ar gyfer dalgylch Tywyn yn llawn, byddai arbediad o tua £220,000 yn flynyddol, a tua £40,000 o hynny'n aros o fewn dalgylch Tywyn.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd a bod croeso i ychwanegu at y manteision ac anfanteision drwy ymateb i'r ymgynghoriad.

*Gofynnwyd sut fyddai niferoedd staffio yn cael eu pennu?*

Eglurwyd byddai niferoedd staffio ysgol newydd yn ddibynnol ar niferoedd disgyblion. Gan fod yr ysgol ardal arfaethedig wedi'i gostio ar sail 95 o ddisgyblion, roedd gwybodaeth a rannwyd yn ystod y cyfarfodydd dalgylchol yn awgrymu byddai 4 athro.

*Nodwyd nad oedd sôn am sefydlu swydd Pennaeth digyswllt?*

Eglurwyd fod hyn yn rhan o'r cyn gynllun ad-drefnu gwrthodwyd gan y Cyngor yn 2008, ac nad oedd cyfeiriad at hynny yn y cynllun presennol.

Cynigiwyd cymorth i staff unigol gan nodi y byddai camau pellach i drafod sefyllfaoedd staff unigol a bod cefnogaeth i'r staff hynny yn yr Adran Addysg.

*Gofynnwyd beth fyddai'r drefn o ran cael corff llywodraethu a staff i'r ysgol newydd?*
Eglurwyd y byddai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu a byddai canllawiau a chymorth ar sut i wneud hynny.

O ran penodi staff, eglurwyd byddai trefn o benodi Pennaeth i gychwyn ac yna gweddill y tîm. Byddai hyn yn digwydd cyn i'r ysgol agor.

**Effaith y cynnig**

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd i'r neuadd gymunedol ym Mryncrug pe na bai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli yno?*

Nodwyd fod yr Arweinydd Portffolio wedi nodi byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ddarpariaeth gymunedol ar y safle presennol petai'r ysgol ardal newydd tu allan i bentref Bryncrug.

Nodwyd ymhellach:

- Fod bwriad gan y Cyngor i gefnogi unrhyw anghenion teithio yn ystod cyfnod o newid h.y. plant sydd yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- Y cyfleoedd all godi wrth gynnig darpariaeth feithrin o fewn ysgol newydd, a'r posibiliadau o gynnig gofal plant ehangach.
- Fod bid am gyllid cyfalaf wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, a hefyd i wneud gwelliannau i ysgolion eraill o fewn dalgylch Tywyn a bod ymateb i'r bid yn ddisgwyliedig yn ystod yr haf.

**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd:

- Camau nesaf y broses, a bod posibilrwydd o wrthwynebiad yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn golygu gellid fod hyd at 7 mis o oedi i gael penderfyniad gan y Cynulliad.

*Gofynnwyd y byddai modd apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidog y Cynulliad?*

Eglurwyd byddai modd gwneud hynny os fyddai'r seiliau yn ddigon cadarn.

- Fod cefnogaeth ar gael i staff yn ystod y cyfnod gan gydnabod fod ansicrwydd, ond fod croeso iddynt gysylltu â'r Adran Addysg gyda chwestiynau neu am Gymorth.

**Opsiynau lleoliad:**

*Nodwyd fod rhwystredigaeth yn lleol gan nad oedd penderfyniad ar leoliad wedi ei wneud, a nodwyd fod angen penderfyniad buan ar hynny.*

Gofynnwyd am gyfle i ymweld ag ysgolion newydd a chymryd rhan yn y trafodaethau wrth lunio'r ysgol ardal arfaethedig.

Edrychodd staff yr ysgol a llywodraethwyr ar 5 opsiwn o leoliad posib i'r Ysgol Ardal newydd. Aethpwyd trwy'r opsiynau a mynegwyd barn trwy osod dotiau gwahanol liw i fynegi blaenoriaeth ar y cynlluniau:

Safle 5 – 14 dot blaenoriaeth 1
Safle 9 – 3 dot blaenoriaeth 2
Safle 8 – 2 dot blaenoriaeth 3

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod

Gorffennodd y cyfarfod am 18.30.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRYNCRUG**

**14 Mehefin 2010 18:30**

## CYFARFOD LLYWODRAETHWYR

7 aelod o'r corff llywodraethu'n bresennol a'r Aelod Lleol a'r Pennaeth.

### Croeso a chyflwyniadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

### Cefndir a pham cyflwynir y cynnig

Eglurwyd:

- Ynglŷn â'r drafodaeth sydd wedi arwain at y cyfarfod statudol, gan egluro fod y trafodaethau hyd at hyn wedi bod yn anstatudol.
- Fod cyfnod yr ymgynghoriad hyd at 30 Gorffennaf 2010, a bod sylwadau o'r ymgynghoriad wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu, Bwrdd a'r Cyngor Llawn.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

*Gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud o ran ymgynghori â'r gymuned gan fod Ysgol Bryncrug yn ysgol gymunedol?*
Eglurwyd fod y papur statudol wedi ei ddosbarthu i sefydliadau a mudiadau lleol a bod croeso i unrhyw un sydd heb dderbyn copi, gysylltu â'r Rheolwr Prosiect.

Eglurwyd fod y Cyngor yn awyddus i dderbyn barn disgyblion yr ysgol ac a bydd ffurf yr ymgynghoriad hwnnw yn cael ei drafod efo'r ysgol.

Eglurwyd pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno:

- Rhesymau cyllidol; ac eglurwyd fod ysgol Bryncrug yn derbyn £21,747 oherwydd gwarchodaeth lleiafswm staffio'r rhwyd-diogelwch.
- Rhesymau niferoedd llefydd gwag – 65% o lefydd gwag yn ysgol Bryncrug – cwymp o 79 mewn nifer i 20 yn 2009/10.

Eglurwyd y bwriad i ailgylchu arbedion o fewn y gyfundrefn addysg, ac yn ogystal, o ganlyniad i drafodaethau Panel Adolygu Dalgylch Tywyn, fod bwriad cadw 20% o arbedion o fewn y dalgylch am hyd y cyfnod trawsnewidiol yn ddibynnol ar gyfnod ymgynghori. Byddai defnydd o'r arian hynny drwy drafodaeth yn lleol.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd. Croesawir unrhyw un i ychwanegu at y manteision ac anfanteision drwy ymateb i'r ymgynghoriad.

*Gofynnwyd beth fyddai'r drefn o ran cael corff llywodraethu i'r ysgol newydd?*
Eglurwyd y byddai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu a byddai canllawiau a chymorth ar sut i wneud hynny. O ran penodi staff, eglurwyd byddai trefn o benodi Pennaeth i gychwyn ac yna gweddill y tîm cyn i'r ysgol agor. Eglurwyd byddai'r cynnig cyntaf o ran penodi o blith y staff presennol, ond byddai gan y corff llywodraethol yr hawl i hysbysebu'n allanol.

**Effaith y cynnig**

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd i'r neuadd gymunedol ym Mryncrug pe na bai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli ym Mryncrug?*
Nodwyd fod yr Arweinydd Portffolio wedi nodi byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ddarpariaeth gymunedol bresennol ar safle presennol yr ysgol petai'r ysgol ardal newydd tu allan i bentref Bryncrug.

*Mynegwyd fod angen edrych ymhellach ar berchnogaeth tir ac adeilad yr ysgol. Mae rhannau wedi ei drosglwyddo yn sgil trosglwyddo'r neuadd i'r gymuned.*
Diolchwyd am y sylw ac ymrwymwyd i wneud gwaith pellach ar hyn.

Nodwyd ymhellach:
- Fod bwriad gan y Cyngor i gefnogi unrhyw anghenion teithio yn ystod cyfnod o newid h.y. plant sydd yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- Y cyfleoedd all godi wrth gynnig darpariaeth feithrin o fewn ysgol newydd, a'r posibiliadau o gynnig gofal plant ehangach.
- Fod bid am gyllid cyfalaf wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, a hefyd i wneud gwelliannau i ysgolion eraill o fewn dalgylch Tywyn a bod ymateb i'r bid yn ddisgwyliedig yn ystod yr haf.

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd be na fyddai'r bid yn llwyddiannus?*

Eglurwyd fod gan y Cyngor "pot" o arian cyfalaf yn bodoli gallai fod yn ddigonol i anghenion Ysgol Ardal yn Tywyn, ond y byddai hynny wedyn yn creu problemau o ran cynlluniau pellach mewn ardaloedd eraill o bosib.

**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd:

- Camau nesaf y broses, ac y byddai unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn golygu gellid fod hyd at 7 mis o oedi i gael penderfyniad gan y Cynulliad.
- Y byddai'r Awdurdod yn rhannu cofnodion y cyfarfodydd hyn gyda'r ysgol ac yn gofyn i'r ysgol eu gwirio
- Fod cefnogaeth ar gael i staff yn ystod y cyfnod gan gydnabod fod ansicrwydd, ond fod croeso i staff gysylltu â'r Adran Addysg gyda chwestiynau neu am gymorth.

**Opsiynau lleoliad:**

*Nodwyd fod rhwystredigaeth yn lleol gan nad oedd penderfyniad ar leoliad wedi ei wneud, a nodwyd fod angen penderfyniad buan ar hynny. Wrth ymateb, ymrwymwyd i sicrhau y byddai dewis safle'r Awdurdod wedi'i nodi'n gyhoeddus cyn i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ystyried y mater ym mis Medi 2010.*

Eglurwyd fod cyfle yn y cyfarfod i staff, llywodraethwyr a rhieni i roi eu barn ar opsiynau o leoliadau, ac wedi hynny byddai trafodaethau pellach gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - a phenderfyniad wedi hynny. Nodwyd fod arweiniad lleol ar yr opsiynau yn ddefnyddiol.

*Mynegwyd fod angen i'r Cyngor wneud penderfyniad ar y lleoliad.*

Edrychodd staff yr ysgol a llywodraethwyr ar 5 opsiwn o leoliad posib i'r Ysgol Ardal newydd. Aethpwyd trwy'r opsiynau a mynegwyd barn trwy osod dotiau gwahanol liw i fynegi blaenoriaeth ar y cynlluniau (roedd modd i fynychwyr osod 4 dot o wahanol liw pe byddent yn dewis gwneud hynny):

Safle 5 – 14 dot blaenoriaeth 1
Safle 9 – 3 dot blaenoriaeth 2
Safle 8 – 2 dot blaenoriaeth 3

*Mynegwyd fod ysgol Bryncrug wedi bod yn gefnogol i'r syniad o newid, a bod cefnogaeth bendant i leoliad ym Mryncrug, yn benodol safle presennol yr ysgol.*

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod

Gorffennodd y cyfarfod am 20.30

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL BRYNCRUG**

**14 Mehefin 2010, 19:30**

**CYFARFOD RHIENI**

7 rhiant yn bresennol a'r Aelod Lleol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd:
- Ynglŷn â'r drafodaeth sydd wedi arwain at y cyfarfod statudol, gan egluro fod y trafodaethau hyd at hyn wedi bod yn anstatudol.
- Fod angen i unrhyw sydd am anfon sylwadau wneud hynny cyn diwedd cyfnod yr ymgynghoriad – 30 Gorffennaf 2010. Eglurwyd bod sylwadau o'r ymgynghoriad wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu, Bwrdd a'r Cyngor Llawn.

Eglurwyd pam fod y cynnig yn cael ei gyflwyno:
- Rhesymau cyllidol; ac eglurwyd fod ysgol Bryncrug yn derbyn £21,747 oherwydd gwarchodaeth y rhwyd-ddiogelwch.
- niferoedd llefydd gwag – 65% o lefydd gwag yn ysgol Bryncrug – cwymp o 79 mewn nifer i 20 yn 2009/10.
- Nodwyd y bwriad i ailgylchu arbedion o fewn y gyfundrefn addysg, ac yn ogystal, o ganlyniad i drafodaethau Panel Dalgylch Tywyn, fod bwriad cadw 20% o arbedion o fewn y dalgylch am hyd y cyfnod trawsnewidiol (yn ddarostyngedig i ymgynghoriad pellach). Byddai defnydd o'r arian hynny drwy drafodaeth yn lleol.
- Nodwyd y byddai'r awdurdod yn gwarantu cludiant am ddim i'r ysgol safle newydd am gyfnod plant fyddai yn ysgol Bryncrug wrth drosglwyddo i'r ysgol ardal newydd.

Nodwyd y gallasai ysgol newydd fod yn atyniadol i blant all-ddalgylch. Eglurwyd byddai hyblygrwydd i dderbyn rhai plant all-ddalgylch, ond fod blaenoriaeth gyntaf yn ôl polisi mynediad i blant o fewn y dalgylch.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd. Croesawir unrhyw un i ychwanegu at y manteision ac anfanteision drwy ymateb i'r ymgynghoriad.

Nodwyd mai staff yw'r adnodd pwysicaf mewn unrhyw ysgol – ond bod darpariaethau addas, wrth gwrs o gymorth.

*Gofynnwyd beth fyddai'r broses o sefydlu corff llywodraethol i'r ysgol ardal arfaethedig?*
Nodwyd bod canllawiau cenedlaethol yn bodoli ac y byddai'r Cyngor yn cynorthwyo cymunedau wrth sefydlu'r corff llywodraethol.

**Effaith y cynnig**

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd i'r neuadd gymunedol ym Mryncrug pe na bai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli ym Mryncrug? Eglurwyd fod cysylltiad clos i'r gymuned efo'r neuadd, a bod angen gwarchod y ddarpariaeth.*

Nodwyd fod yr Arweinydd Portffolio wedi nodi byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ddarpariaeth gymunedol petai'r ysgol ardal tu allan i bentref Bryncrug.

Nodwyd ymhellach:
- Fod bwriad gan y Cyngor i gefnogi unrhyw anghenion teithio yn ystod cyfnod o newid h.y. plant sydd yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- Y cyfleoedd all godi wrth gynnig darpariaeth feithrin o fewn ysgol newydd, a'r posibiliadau o gynnig gofal plant ehangach.
- Fod bid am gyllid cyfalaf wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, a hefyd i wneud gwelliannau i ysgolion eraill o fewn dalgylch Tywyn.

*Gofynnwyd beth fyddai yn digwydd be na fyddai'r bid yn llwyddiannus?*

Eglurwyd bod cronfa cyfalaf gan y Cyngor er mwyn codi ysgolion newydd gallai ddeillio o drafodaethau ad-drefnu ysgolion gallai fod yn ddigonol i anghenion Ysgol Ardal ym Mro Dysynni, ond y byddai hynny wedyn yn creu problemau o ran cynlluniau pellach mewn ardaloedd eraill o bosib.

*Gofynnwyd am sicrwydd o nifer a maint dosbarthiadau yn yr ysgol ardal newydd*
Atebwyd drwy nodi bod cyllideb drafft yr ysgol newydd wedi'i seilio ar ragdybiaeth y byddai 95 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, a hynny ar sail y nifer o blant oedd yn byw yn y 4 dalgylch. Nodwyd y byddai cyllideb o tua £298,000 fyddai'n caniatáu cyllideb ddigonol i gyflogi ychydig dros 4 athrawes llawn amser gan gynnwys pennaeth. Rhagdybiwyd felly y byddai dosbarthiadau'r ysgol newydd tua 23 o ddisgyblion o ran maint.
**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd camau nesaf y broses a bod hawl gan rieni yrru sylwadau erbyn 30/7/2010.

Nodwyd y byddai unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod rhybudd statudol yn golygu gellid fod hyd at 7 mis o oedi i gael penderfyniad gan y Cynulliad.

*Mynegwyd y byddai yn rhwystredig gorfod aros am benderfyniad am gyfnod mor hir.*

**Opsiynau lleoliad:**

Eglurwyd fod cyfle yn y cyfarfod i staff, llywodraethwyr a rhieni i roi eu barn ar opsiynau o leoliadau, ac wedi hynny byddai trafodaethau pellach gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - a phenderfyniad wedi hynny. Eglurwyd mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fyddai'n penderfynu ar gais cynllunio cysylltiedig. Nodwyd fod arweiniad lleol ar yr opsiynau yn ddefnyddiol.

Eglurwyd y bwriad i gynnal yr holl ysgolion a effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan yr ysgol ardal arfaethedig ar agor tan fyddai'r ysgol newydd yn barod.

Edrychodd y rhieni ar 5 opsiwn o leoliad posib i'r Ysgol Ardal newydd. Aethpwyd trwy'r opsiynau a mynegwyd barn trwy osod dotiau gwahanol liw i fynegi blaenoriaeth ar y cynlluniau (roedd modd i fynychwyr osod 4 dot o wahanol liw pe byddent yn dewis gwneud hynny):

Safle 5 – 7 dot blaenoriaeth 1
Safle 9 – 6 dot blaenoriaeth 2
Safle 1 – 1 dot blaenoriaeth 3

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod. Gorffennodd y cyfarfod am 20:50

**A4: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Llanegryn**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL YSGOL LLANEGRYN**

**9 Mehefin 2010 17:00**

**CYFARFOD STAFF**

5 aelod o staff yn bresennol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cynghorydd Liz Saville Roberts, Deilydd Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd yn hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd fod y Cyngor yn awyddus i egluro cynnwys y ddogfen ymgynghorol a bod tan 30 Gorffennaf 2010 i gasglu ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

Mynegwyd mai safle'r ysgol ardal arfaethedig a'r amserlen gweithredu yw'r prif faterion sy'n poeni staff.

Nodwyd maint dosbarthiadau yr ysgol.

Eglurwyd y polisi gwarchodaeth lleiafswm staff (y rhwyd diogelu) a bod gwariant ychwanegol o £64,051 yn y dalgylch o ganlyniad i'r polisi hynny. Nodwyd fod dros 49% o lefydd gweigion yn Llanegryn a bod 42-45 yn ffigwr gyffyrddus i'r ysgol. Nodwyd fod arbedion refeniw o £164,302 o ddatblygu Ysgol ardal. Eglurwyd bwriad yr awdurdod - oedd yn destun ymgynghoriad - i gadw 20% o unrhyw arbedion a wireddwyd wrth ad-drefnu o fewn y dalgylch o fewn y dalgylch hwnnw am gyfnod yr ad-drefnu ar draws y sir. Nodwyd hefyd y byddai'r holl arbedion yn aros yn y gyfundrefn addysg.
Llongyfarchwyd Pennaeth Llanegryn am ennill cymhwyster CPCP yn ddiweddar.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig**

Nodwyd manteision ac anfanteision cau'r ysgol sydd yn y papur, ac eglurwyd mai'r prif bwyntiau a nodwyd a bod croeso i gynrychiolwyr yr ysgol ychwanegu at y manteision ac anfanteision wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

Amcangyfrifir y byddai isafswm o 4 athro yn yr Ysgol newydd ar y sail y byddai 95 disgybl yn mynychu'r ysgol.

Cyfeiriwyd at ragolygon ysgolion unigol oedd yn rhagweld y byddai tua 70 disgybl yn y 4 ysgol erbyn 2013. Cwestiynwyd a fyddai modd cynnal lefel staffio o'r math. Wrth ymateb, nodwyd bod nifer sylweddol o ddisgyblion sydd yn byw o fewn dalgylchoedd y 4 ysgol ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion eraill.

Awgrymwyd fod cyfle i'r ysgol fod yn ganolbwynt cymuned a byddai modd ehangu'r cyfleoedd datblygol e.e. gofal plant. Croesawyd hyn.

Mynegwyd pryder ei bod yn debygol y bydd dipyn llai o swyddi na sydd o staff yn bresennol. Eglurwyd bydd cyfrifoldeb gan y Cyngor gyfrifoldeb i drafod gyda'r staff.

Nodwyd fod profiadau cadarnhaol o symud i ysgol newydd a chyfeiriwyd at ymweliad Sir Benfro.

Eglurwyd a nodwyd:

- Fod yr anfanteision yn rai cyffredinol a bod angen cywiro 4.2. Cadarnhawyd y bydd swyddogion ar gael i drafod y dyfodol gyda staff yr ysgol.
- Bod athrawes yn teimlo ei bod wedi datblygu ei gyrfa yn well yn Llanegryn na mewn ysgol fwy a bod gwell cyfle i weld pethau rheolaethol gan y Pennaeth na mewn ysgol fwy. Gallai hyn amrywio o ysgol i ysgol.
- Nad oeddent yn hapus fod camgymeriad yn y ddogfen (2.7 + 4.2).
- Eglurwyd y drefn i ddatblygu'r strategaeth, a'i derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor.
- Fod y niferoedd disgyblion all-ddalgylch yn aneglur oherwydd hen ddalgylch Rhoslefain. Mae'n edrych yn anghywir oherwydd bod plant Rhoslefain yn cael eu cyfri'n all-ddalgylch.

Nodwyd fod angen edrych i'r manylion o berchnogaeth yr ysgol.

Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd i elusen Tŷ'r Ysgol o gau'r ysgol a chadarnhawyd yr hoffent iddo gael ei gadw ar gyfer plant Llanegryn oddi fewn y gymuned/plwyf. Nodwyd mai Llywodraethwyr yw ymddiriedolwyr yr elusen a'u bod yn awyddus i'w gadw ym mhlwyf Llanegryn. Penderfynwyd fod angen i'r Cyngor edrych i mewn i hyn yn ogystal â pherchnogaeth y tir.

**Effaith y cynnig**

Eglurwyd fod bid eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad am arian i adeiladu Ysgol Ardal a hefyd i ddatblygu Penybryn, Pennal a Chorris.

*Beth fyddai'n digwydd petai'r bid yn methu?*
Cadarnhawyd bod arian wrth gefn gan y Cyngor ond byddai rhaid gofyn am fwy er mwyn datblygu ysgolion eraill y dalgylch.

Cadarnhawyd y byddai'r Llywodraeth yn gwneud ei benderfyniad dros yr haf.

*A fydd yr Ysgol Ardal yn bendant?*
Bydd cyhyd bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig a'r Gweinidog yn cadarnhau hynny. Mae gan y Cyngor gyllideb wrth gefn gellid ei defnyddio i wireddu'r ysgol ardal.

**Camau nesaf**

Nodwyd fod cyfle i staff gyflwyno sylwadau unigol cyn 30 Gorffennaf 2010 a chynigwyd efallai y byddent yn hoffi cyflwyno sylwadau ar y cyd ac eglurwyd y broses.

Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i'r rhybudd statudol. Eglurwyd os bydd gwrthwynebiad, byddai'n rhaid iddo gael ei basio i'r Cynulliad am benderfyniad. Eglurwyd y gallai fod yn gyfnod o 7 mis. Rhoddwyd eglurhad o'r atodiadau a hefyd o sut i ymateb.

Nodwyd os bydd Ysgol Ardal, bydd disgwyliad y bydd cynrychiolaeth o bob ysgol ar y corff Llywodraethol newydd. Mae rheoliadau Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'n glir sut y dylid llunio Corff Llywodraethol.

Gofynnwyd a fyddai gwarchodaeth ar gyfer staffio a cholli swyddi. Nodwyd y bydd colli naturiol oherwydd ymddeoliadau ac ati a byddai'r Cyngor yn ceisio gwarchod a chynnig swydd gyfatebol o fewn pellter addas. Byddai cynnig cyntaf yn dod i'r staff presennol gan gynnwys y Pennaeth, ond nodwyd mai gan y Llywodraethwyr fydd yr hawl i benodi.

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL YSGOL LLANEGRYN**

**9 Mehefin 2010 18:00**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR**

10 aelod o'r Corff Llywodraethol yn bresennol.

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cynghorydd Liz Saville Roberts, Deilydd Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd..

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

Cafwyd cais i'r cyfarfod gael ei gynnal drwy'r Saesneg, ond eglurwyd fod yn rhaid dilyn polisi'r Cyngor, ond y byddai cwestiynau gofynnwyd yn Saesneg yn cael eu hateb yn Saesneg.

Tynnwyd sylw at rhai gwallau yn y papurau ymgynghorol statudol. Tynnwyd sylw at rai ac fe'u cywirwyd.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd:

- Pwrpas y cyfarfod yw egluro a thrafod y ddogfen, ac egluro'r broses statudol o hyn allan.
- Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Llanegryn a'r bwriad i adeiladu Ysgol Ardal newydd.
- Nodwyd fod y cyfnod wedi cychwyn nos Lun 07/06/10 ac yn rhedeg hyd at 30/07/10. Bydd cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau i fynd i adroddiad y Pwyllgor Craffu'r Cyngor, Bwrdd a'r Cyngor Llawn.

*Peth petai safle heb ei gael erbyn hynny?*
Adroddwyd y byddai rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad.

*Faint o ddylanwad fydd gan y Parc Cenedlaethol?*
Cadarnhawyd mai'r Parc yw'r Awdurdod Cynllunio a bod rhai trafodaethau wedi bod eisoes.

Mynegwyd ymhellach bod cyfle i un gymuned gael cyfle i gael ysgol oddi fewn i'r cyffiniau er mwyn medru cerdded yno o'i leoli o fewn ffiniau pentref. Nodwyd os lleolir yr ysgol ardal newydd y tu allan i bob pentref yna gallai cael ei weld fel ysgol fyddai'n eiddo i'r 4 ardal. Nodwyd fod hyn yn amod llwyr gan lywodraethwyr ysgol, h.y. y dylai'r ysgol fod ar dir "niwtral"..

**Manteision ac Anfanteision y Cynnig**

Nodwyd mai detholiad cyffredinol sydd yma ac anogir y Llywodraethwyr i anfon mwy i mewn fel rhan o'u sylwadau. Nodwyd hefyd fod rhannu profiadau a chyfleoedd yn digwydd yn Llanegryn.

Nodwyd fod plant yn gadael y dalgylch ar hyn o bryd ond petai Ysgol newydd yn cael ei chreu, fe all y nifer hyn newid.

Cyfeiriwyd at ymweliad â Sir Benfro ble clywid am y ffordd y newidiodd barn athrawon , rhieni a'r gymuned o fod yn erbyn ysgol newydd wedi newid eu meddwl ar ôl gweld yr adeilad newydd wedi'i godi ac ar ôl i blant y pentrefi ddechrau mynychu'r ysgol ardal newydd.

Eglurwyd fod yr arbedion yn aros yn y gyfundrefn addysg a bod y Cyngor yn gweithio ar gynllun i gadw 20% o arbedion a wireddwyd trwy ad-drefnu o fewn dalgylch yn aros yn y dalgylch yn ystod y cyfnod ad-drefnu ar draws y sir.

*A oedd ysgol newydd Sir Benfro oddi fewn y Parc Cenedlaethol?*
Oedd, ond wedi ei lleoli mewn pentref a drws nesaf i Ysgol Uwchradd. Mae lle i wneud mwy o ymchwil i hyn.

Nodwyd y bydd goblygiadau staffio o gau ysgolion.

*A oes sicrwydd fod cludiant ?*
Cadarnhawyd y polisi cludiant gan nodi y byddai graddfa'r cludiant fyddai angen ei ddarparu yn ddibynnol ar leoliad yr ysgol Nodwyd y bydd rhaid bod yn ofalus i ystyriaeth y rhai sy'n byw o dan 2 filltir. Gellid ystyried cynnig cludiant am ddim i blant fyddai'n byw o fewn dalgylch yr ysgol ardal tra bod plant sydd ar hyn o bryd yn yr ysgol yn parhau o fewn y gyfundrefn gynradd, ond ni fyddai modd cynnal hyn dim pellach. Cadarnhawyd y byddai hyn yn hwyluso newid i bawb sydd yn mynd drwy'r drefn newydd.

*Pam nad yw Ysgol Gydol Oes yn fodel ystyriwyd?*

Ni ddaeth o'r drafodaeth yn Nhywyn ond fe gododd yn naturiol yn y Berwyn. Nodwyd nad oes 6ed Dosbarth yn Nhywyn ond eu bod eisiau sicrhau dyfodol yr uwchradd. Cadarnhawyd mai'r newid mawr yma yw'r Ysgol Ardal.

**Effaith y cynnig**

Nodwyd ymhellach:

- Bod rhaid archwilio goblygiadau statws elusen a dyfodol unrhyw hawliau o gau'r ysgol. Eglurwyd sefyllfa'r adeilad ond nodwyd fod angen ymchwiliad bellach yn Llanegryn.
- Ni ddylai'r ffaith fod Ysgol Bryncrug/Canolfan Cymunedol fod yn rheswm dros leoli'r ysgol newydd ym Mryncrug. Mae posibl trosglwyddo adeiladau ysgol i'r gymuned os oes cynlluniau.
- Fod bid eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad, a'r bwriad o ddatblygu/addasu'r ysgolion eraill gyda rhan ohono. Nodwyd mai Ysgol Bro Dysynni fydd cyntaf i gael blaenoriaeth

*Faint o arian cyfalaf sydd gan y Cyngor wrth gefn?*
Byddai yn swm digonol i'r Ysgol Ardal ond ddim ar gyfer datblygiadau pellach.

**Camau nesaf**

Eglurwyd a nodwyd:

- Fod angen unrhyw sylwadau erbyn 30 Gorffennaf 2010 a byddai'r Cyngor yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad.
- Y broses a'r rhybudd statudol ac os derbynnir gwrthwynebiad y bydd yn mynd i'r Gweinidog Addysg am benderfyniad.

*Pam na fedr yr Aelod Lleol bleidleisio ar ddyfodol yr ysgol hon? Dylai'r ymholiadau gael eu gwneud cyn i'r Cyngor bleidleisio.*
Nodwyd fod hyn yn fater cyfreithiol sydd wedi codi yn gyffredinol.

Eglurwyd y gall fod yn gyfnod hir cyn i'r Cynulliad wneud penderfyniad. Nodwyd y gall y dyddiadau gael eu taflu ymhellach nag Awst 2013.

*Beth fyddai yn digwydd i Abergynolwyn petai oedi wrth ddatblygu'r ysgol newydd?*
Nodwyd fod cydweithio'n digwydd rhwng Abergynolwyn a Bryncrug ac y byddai angen i'r awdurdod gefnogi addysg yn yr ardal yn y cyfamser.

Cadarnhawyd y byddai Llanegryn yn ei hoffi'n ddelfrydol petai pethau yn aros yr un fath ond eu bod yn derbyn fod rhaid datblygu a symud ymlaen. Os oes rhaid cau'r ysgol, eu dymuniad gweld ysgol ardal newydd ar safle niwtral.

Esboniwyd y broses o gyflwyno sylwadau.

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL LLANEGRYN**

**09 Mehefin 2010 19:30**

**CYFARFOD RHIENI**

10 rhiant yn bresennol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cynghorydd Liz Saville Roberts, Deilydd Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010. Eglurwyd fod y Cyngor yn awyddus i dderbyn barn disgyblion yr ysgol ac y byddai ffurf hynny yn cael ei drafod efo'r ysgol.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i stopio ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau.

Daeth cais i gynnal y cyfarfod yn Saesneg – nodwyd bod angen dilyn polisi'r Cyngor ond y byddai atebion Saesneg i gwestiynau gofynnwyd yn Saesneg.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro.

Eglurwyd cefndir y cynnig:

- Mae'r Cyngor yn parhau i geisio darganfod safle ar gyfer yr Ysgol Ardal.
- Cychwynnodd y cyfnod Ymgynghoriad wedi cychwyn ers nos Lun 07/06/10 a bydd yn rhedeg hyd at 30/07/10.
- Bydd cofnodion ac unrhyw faterion neu sylwadau a dderbynnir yn mynd yn yr adroddiad i'r Cyngor wneud penderfyniad.

Aethpwyd ymlaen i egluro fod yr ysgol oddi fewn y rhwyd-diogelwch gwarchodaeth lleiafswm staffio a beth mae hyn yn ei olygu.

Nodwyd os byddai'r ysgol hon yn medru dal 64 eisoes ac, os oedd angen ymestyn yr ysgol i dderbyn mwy o ddisgyblion, y byddai'n bosibl prynu'r tŷ drws nesaf, a datblygu'r ysgol ymhellach. Awgrymir anfon y sylwadau ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Eglurwyd y bydd yr arian a arbedir yn cael ei ailgylchu i mewn i'r gyfundrefn addysg.

Rhoddwyd ymddiheuriad am y camgymeriad (2.6) a chyfeiriwyd at gywiriad 2.7.

Cyhoeddwyd fod y Pennaeth wedi ennill CPCP sydd yn ei gwneud yn gymwys i ymgeisio am swydd Pennaeth Parhaol.

**Manteision ac Anfanteision y cynnig**

Nodwyd mai detholiad o'r prif bwyntiau sydd yma ac mae'n debyg y bod llawer mwy na hyn. Nodwyd fod rhai yn gyffredinol ond anogir anfon mwy i mewn i'r Cyngor.

Nodwyd ymhellach:

- Ei fod yn gyfle i blant gael budd o arbenigedd staff mewn ysgol fwy.
- Fod yr ail aelod o staff yn cydweithio yn dda a'r Pennaeth a'i bod yn datblygu o rannu'r arbenigedd.

*Faint o athrawon fydd yn yr ysgol newydd? A fyddent yn gyfrifol am amryw lawn o bynciau?*
Bydd 4 dosbarth a byddai'r rhaniad dysgu yng ngofal y Pennaeth. Byddai angen i'r Pennaeth ddysgu rhan amser.

Y teimlad oedd y bod plant yn cael gwell addysg mewn ysgol fach. Os byddai rhieni eisiau i'w plant fynd i ysgol fwy byddent wedi eu hanfon i Dywyn.

*A yw Llanegryn yn cael eu tynnu i mewn i'r Ysgol Ardal oherwydd sefyllfa'r ysgolion eraill?*
Mae'r ystadegau a'r rhagolygon yn dangos fod y niferoedd yn disgyn.

Nodwyd y buasai rhieni yn medru dewis anfon eu plant i Ysgol Tywyn petai'r ysgol yn cau ond eu bod yn gwerthfawrogi addysg wledig. Nid ydynt eisiau'r ysgolion ddirywio cymaint y byddent yn cau eu hunain. Cadarnhawyd eu bod yn ymwybodol ei fod yn costio ond y teimlad oedd bod 34 o blant yn yr ysgol ac felly nad oedd angen adeiladu ysgol newydd i lawr y ffordd pan bod ysgol dda ar gael yn barod a fedr gael ei ymestyn.

Nodwyd fod angen i bobl leol a Cynghorwyr ddatgan y flaenoriaeth a bod y safle niwtral o'r ysgol newydd o fudd.

Nodwyd gan un rhiant:
*"Gallaf gerdded y plant i'r ysgol a gan nad oes gennyf gar, mae'n rhaid i mi gerdded. Erbyn 2013, mi fydd gennyf blentyn 3 mlwydd oed fydd yn mynychu Ysgol Feithrin. Ni fydd yn bosibl i mi gerdded gyda'r plentyn yno.*

Nodwyd eu bod yn siomedig nad oedd aelod o'r Parc Cenedlaethol yn bresennol yn y cyfarfod. Y teimlad oedd nad yw'r swyddogion cynllunio yn poeni sut mae rhieni yn anfon plant i'r ysgol.

*Gofynnwyd beth mae'r Parc Cenedlaethol yn ei ddweud:*
Eglurwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal. Maent yn debygol o wrthod cais ymhell o'r ffin ddatblygu.

Nodwyd y byddai rhaid cael mwy o dystiolaeth gymunedol petai bwriad ceisio caniatâd y Parc i adeiladu ar safle tu allan i ffiniau datblygu. Nodwyd ei fod yn bwysig lleisio hyn er mwyn cryfhau y cais yn ffurfiol.

Y teimlad o fewn y rhieni oedd y dylai'r Parc ddod allan i wynebu'r bobl leol a dylai llythyr gael ei anfon gan y rhieni i gyd er mwyn cael cefnogaeth.

Gofynnwyd a fyddai modd darparu pethau fel llwybr cerdded/beicio i ysgol newydd er mwyn i'r rhieni gael hwylustod a chymysgu ymysg ei gilydd.

Nodwyd ynglŷn â diogelwch yr ysgol. Pwysleisiwyd y byddai rhaid rhoi blaenoriaeth petai hyn yn dod ymlaen.

Cwestiynwyd yr isod:

- Pa mor bell yw'r safle 8 o Lanegryn a Bryncrug? A fyddai hyn yn bosibl i gerdded i'r ysgol?
- Beth os nad yw'r plentyn yn setlo yn yr ysgol neu'n sâl – byddai'n anodd i'r rhiant fynd yno atyn nhw.
- Beth os yw rhieni o Dywyn ac Aberdyfi yn dod a'r plant i Bro Dysynni – byddai dosbarthiadau yn tyfu wedyn?

Nodwyd fod rhai rhieni yn dewis i ddod a'u plant yma o ysgolion eraill oherwydd dosbarthiadau llai a gwell addysg.

Ychwanegwyd bod rhaid cael darpariaeth a digon o lefydd er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Anogwyd y rhieni i basio'r sylwadau ymlaen i'r Cyngor.

Eglurwyd bod y Cyngor yn ymgynghori ar fwriad i gadw 20% o unrhyw arbedion a grëwyd trwy ad-drefnu dalgylch o fewn y dalgylch hwnnw hyd at ddiwedd y prosiect ad-drefnu ar draws y sir.

**Effaith y cynnig**

Nodwyd y byddai'n rhaid i'r Pennaeth gymryd cyfrifoldeb dros blentyn petai'n sâl.

Nodwyd fod problem pan mae ysgol yn cau oherwydd y gallai bod yn anoddach i athrawon a disgyblion gyrraedd yr ysgol mewn tywydd garw. Nodwyd bod plant ar hyn o bryd yn medru cerdded i mewn. Gofynnwyd a fyddai bws yn mynd o bob dalgylch/pentref?

Cyhoeddwyd fod safle canolog yn ffafriaeth am nifer o resymau ac nid yw'r rhieni yn fodlon i'w plant deithio'n rhy bell ar fws.

Nodwyd hefyd nad oes bob tro cefnogaeth teulu estynedig yn yr ardal i blant ysgol y cylch.

Eglurwyd sut y datblygwyd y cynnig yn ogystal â chefndir y strategaeth a aeth y grŵp dros effaith y cynnig.

Archwiliwyd 6.4 a phwy oedd berchen a'r tir a'r adeilad. Nodwyd y drefn o waredu safleoedd petai'r tir yn eiddo i'r Cyngor

Y teimlad gan y rhieni oedd ei bod yn annheg i gau'r ysgol a gorchmynu fod y gymuned yn cymryd cyfrifoldeb. Nid oeddent chwaith eisiau'r ysgol newydd gael ei chyfeirio ati fel 'Ysgol Ardal Bro Dysynni' gan fod hynny'n awgrymu bod yr ysgol wedi ei henwi yn barod.

Eglurwyd ystyriaeth i gynnig darpariaeth teithio i'r plant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd - sef i ddarparu cludiant iddynt am weddill eu hamser yn y sector cynradd - ac nad yw hyn yn bolisi ar hyn o bryd.

Cyhoeddwyd y bydd darpariaeth Feithrin yn yr ysgol newydd a bydd hyn yn hybu gwasanaeth gofal plant i'r dyfodol a fyddai'n gallu hwyluso pethau i'r rhieni ac y gallai dosbarthiadau Meithrin ddatblygu cyfleusterau gofal plant. Nodwyd y byddai'n wasanaeth gofal plant parhaol ac y byddai'n gyfleus i rieni drwy gynnig clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol a gofal plant drwy gydol y dydd. Cyhoeddwyd bod 10 awr ar gael eisoes . Nodwyd fod angen edrych ar y broblem o sut mae rhieni i fod i fynd â phlant 3 mlwydd oed i'r ysgol mewn ardal wledig os nad oes ganddynt gar.

Eglurwyd fod y bid wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer adeiladu'r ysgol.

**Camau nesaf**

Eglurwyd y bydd unrhyw sylwadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Bwyllgorau'r Cyngor.

Nodwyd os bydd gwrthwynebiad statudol, byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad. Eglurwyd y gall hyn fod hyd at 7 mis o oediad a all gael ddylanwad ar yr amserlen a'i thaflu ymhellach.

Nodwyd y bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn cael ei gydnabod.

Cyhoeddwyd pe bai'r ysgol yn cael ei gau, buasai'n rhwygo'r gymuned ac y bydd y diwrnod y bydd yr ysgol yn cau yn ddiwrnod trist dros ben.

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod.

**A5: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Llwyngwril**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL LLWYNGWRIL**

**11 Mehefin 2010 17:00**

**CYFARFOD STAFF**

5 aelod o staff yn bresennol yn cynnwys pennaeth, staff dysgu, cymorthyddion a staff ategol

**Croeso a chyflwyniadau:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg, i'r gynulleidfa.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i aros ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau. Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig:**

Eglurwyd y rhesymau dros gyflwyno'r cynnig.

Nodwyd nifer o sylwadau ar yr adran hon gan staff yr ysgol:
- 27, nid 32 o blant yn yr ysgol yn ystod 2009/10
- Derbyniwyd bod nifer helaeth o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ond pwysleisiwyd fod amrywiaeth o resymau dros hyn gan gynnwys ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol
- Gall cymunedau dysgu (a ddatblygwyd trwy'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion) lesteirio nifer o anfanteision honedig ysgolion bach
- Dylid sicrhau bod unrhyw arbedion yn aros o fewn y dalgylch (nodwyd wrth ymateb bod y Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gadw 20% o unrhyw arbedion a wireddwyd wrth ad-drefnu ysgolion dalgylch o fewn y dalgylch hwnnw am hyd y prosiect ad-drefnu ledled y sir)
- Dylid defnyddio arbedion i geisio creu cyfleoedd gwaith er mwyn denu pobl i'r ardal. Nodwyd pryder y byddai cau ysgol yn golygu na fyddai teuluoedd ifanc yn symud i neu'n aros yn yr ardal
- Dylid tynnu dyfodol y sector uwchradd i'r drafodaeth

<u>Safle'r ysgol ardal arfaethedig</u>

Cyfeiriwyd at arddangosfa yn yr ystafell oedd yn adnabod y 5 safle oedd dan ystyriaeth ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig. Gwahoddwyd staff i gynnig sylwadau ar y safleoedd ar ddiwedd y cyfarfod.

**Manteision ac anfanteision**

<u>Iaith</u>
Cyfeiriwyd at effaith negyddol cau ysgol ar iaith cymunedau mewn ardal ddi-Gymraeg.

<u>Cludiant</u>
Nodwyd y byddai cludiant i'r ysgol yn fater cynhennus iawn. Amlinellwyd polisi cludiant i'r ysgol y Cyngor. Nodwyd mewn ymateb fod y gymuned yn anhapus gyda'r cynnig i

- gludo plant ifanc ar fws i'r ysgol
- gludo plant heb warchodwyr
- gludo plant ar hyd lôn oedd ym marn nifer yn y gymuned yn beryglus i Lanegryn/Bryncrug

**Sut ddatblygwyd y cynnig**

Nodwyd anfodlonrwydd cyffredinol yn y dalgylch fod y broses o adolygu'r ardal wedi cymryd gymaint o amser ac yn creu ansicrwydd. Derbyniwyd y pwynt gan nodi bod nifer o gamau statudol eto i'w cymryd yn y broses.

**Effaith y cynnig**

<u>Materion staffio</u>
Gofynnwyd gan staff a oedd disgwyl iddynt aros o fewn yr ysgolion oedd i'w cau neu a ddylent fod yn ceisio am swyddi mewn ysgolion eraill nawr. Datganwyd pryder na fyddai dymuniad yr awdurdod i warchod swyddi wrth ad-drefnu i staff y dalgylch yn ddigonol oherwydd y byddai llai o swyddi a bod dalgylchoedd cyfagos hefyd yn wynebu adolygiad trefniadaeth ysgolion. Nodwyd effaith y trafodaethau a'r ansicrwydd ar moral staff.

Atebwyd i gadarnhau dymuniad yr awdurdod y byddai'r ysgol ardal arfaethedig newydd yn gwarchod swyddi i staff o'r 4 ysgol, ond pwysleisiwyd bod rheolaeth leol ar ysgolion yn golygu mai mater i gorff llywodraethol ysgol oedd penodi staff.

Cyfeiriwyd at bolisi'r awdurdod i geisio canfod swyddi cyfwerth a chyffelyb ble bynnag fo hynny'n bosib pan fyddai diswyddo yn digwydd.

Gofynnwyd i staff oedd yn awyddus i drafod materion staffio, eu hawliau, pensiynau ac ati gysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod hyn yn gyfrinachol gyda swyddog perthnasol.

<u>Perchnogaeth y safle</u>

Cwestiynwyd y gosodiad fod adeilad yr ysgol a'r tir o'i chwmpas yn eiddo i'r Cyngor. Ymatebwyd i ddweud mai dyna oedd y wybodaeth oedd gan swyddogion, ond y byddent yn ymrwymo i wirio hyn.

**Camau nesaf**

Eglurwyd y broses a'r drefn o hyn allan ac y byddai'r cofnodion o'r cyfarfod hwn a'r holl gyfarfodydd eraill yn y dalgylch yn ogystal ag unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael ei roi mewn adroddiad i bwyllgorau'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:55

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL LLWYNGWRIL**

**11 Mehefin 2010 19:00**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR, RHIENI A'R GYMUNED**

7 o lywodraethwyr yn bresennol a 27 o rieni ac aelodau o'r gymuned

**Croeso a chyflwyniadau:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg gan gyflwyno'r swyddogion a'r Cyng Liz Saville Roberts, sef y Deilydd Portffolio Addysg, i'r gynulleidfa.

Nodwyd fod yr holl gyfarfodydd hyd hyn wedi bod yn rai anstatudol a bod y cyfnod o ymgynghori statudol wedi dechrau ar 7 Mehefin 2010 ac yn mynd hyd at 30 Gorffennaf 2010.

Ar gais yr ysgol, cyfunwyd y cyfarfodydd a gynigiwyd ar wahân i lywodraethwyr a rhieni. Roedd llywodraethwyr yr ysgol hefyd wedi estyn gwahoddiad i'r gymuned fynychu'r ysgol.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol gan y Pennaeth Addysg a nodwyd y byddai cyfle i aros ar ôl pob is adran i dderbyn sylwadau a chwestiynau. Nodwyd bod rhai camgymeriadau yn y ddogfen statudol. Trafodwyd y gwallau ac ymrwymwyd i ysgrifennu'n ffurfiol at bawb oedd wedi derbyn y papur ymgynghorol statudol yn nodi'r gwallau ac yn eu cywiro

Nodwyd ar y cychwyn bod camgymeriad ar y ddogfen ymgynghorol statudol – cyfeiria'r papur at y papur ymgynghorol fel papur drafft. Cadarnhawyd mai'r cyfarfod statudol a'r ddogfen ymgynghorol statudol oedd dan sylw.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig:**

Eglurwyd y rhesymau dros gyflwyno'r cynnig.

<u>Hawl rhieni i ddewis ysgol</u>
Gofynnwyd a oedd gwariant, trwy'r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio, o £11,495 ychwanegol yn wariant afresymol? O dderbyn ymateb nad oedd ynddo'i hun yn afresymol, datganwyd y byddai cau'r ysgol felly yn groes i Ddeddf Addysg 1996 sydd yn nodi disgwyliad i awdurdodau ddarparu addysg yn unol â dymuniadau rhieni

<u>Ceisiadau cyfalaf</u>
Cwestiynwyd y penderfyniad i gyflwyno cais am grant cyfalaf gan y Llywodraeth i godi'r ysgol ardal arfaethedig newydd ym Mro Dysynni cyn cwblhau adolygiadau ledled y sir. Awgrymwyd bod ardaloedd oedd angen gwariant cyfalaf oedd dan risg o fethu cael mynediad at gyllid oherwydd eu lle yn y drefn adolygu. Ymatebwyd trwy gyfeirio at y strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ddiwrthwynebiad ac sydd yn sail i'r holl adolygiadau ledled y sir fesul dalgylch.

Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd i'r cynigion petai'r cais am arian cyfalaf o'r Llywodraeth yn methu? Atebwyd bod y Cyngor wedi cytuno i greu cronfa cyfalaf i gefnogi rhai datblygiadau cyfalaf fyddai'n deillio o ad-drefnu ysgolion ac y byddai'r penderfyniad ar sut i ddefnyddio hyn yn fater i'r Deilydd Portffolio.

<u>Rhesymeg y cynigion</u>
Beirniadwyd y cynigion am nifer o resymau:
- bod ysgolion Corris a Phennal yn destun cynnig i aros ar agor a chydweithio am eu bod yn agos at ffin sir Powys
- bod arian a gwneud arbedion yn gyrru'r ystyriaethau

<u>Arbedion</u>
i) Gofynnwyd am dystiolaeth o'r arbedion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghorol o tua £164,000 o sefydlu ysgol ardal arfaethedig Bro Dysynni. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at wybodaeth a rannwyd i gyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch oedd yn gosod allan cyllideb debygol yr ysgol arfaethedig.
ii) Gofynnwyd am dystiolaeth o gostau cludiant. Atebwyd bod swyddogion wedi defnyddio gwybodaeth am gontractau oedd eisoes yn bodoli i amcangyfrif cost darparu bws 50 sedd i gludo plant dalgylch Llwyngwril i'r ysgol arfaethedig. Nodwyd mai amcangyfrif o £22,000-24,000, a rhwng £14-18,000 am fws mini 20 sedd, fesul bws oedd yr amcangyfrif, ac felly amcangyfrif holl gostau cludiant ychwanegol i'r ysgol ardal fyddai tua £64,000.
iii) Cyfeiriwyd at nifer disgyblion yr ysgol arfaethedig newydd. Cadarnhawyd fod y gwaith modelu ariannol wedi'i wneud ar sail 95 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol. Cyfeiriwyd at ragolygon ysgolion unigol y byddai tua 70 o blant yn y 4 ysgol erbyn 2013 a'r feirniadaeth felly na fyddai arbedion o £164,000 gan y byddai cyllideb yr ysgol ardal yn sylweddol is na'r £298,000 oedd wedi'i ddyfynnu gan yr Awdurdod.

iv) Cyhuddwyd y ddogfen ymgynghorol o fod yn gamarweiniol gan y byddai llai o ddisgyblion, felly llai o gyllid, felly llai o athrawon. Wrth ymateb, cyfeiriwyd at y nifer sylweddol o ddisgyblion (dros 30 mewn nifer) oedd yn byw o fewn dalgylchoedd y 4 ysgol ond nad oedd yn mynychu'r un o'r 4 ysgol. Nodwyd bod maint yr ysgol ardal arfaethedig wedi'i amcangyfrif ar y rhagdybiaeth y byddai'r ysgol newydd yn atyniad i'r plant hyn.

v) Os gwireddwyd y rhagolygon cyfeiriwyd atynt uchod, sef mai tua 70 o blant fyddai yn mynychu'r ysgol ardal newydd, byddai mwy o lefydd gweigion yn yr ysgol newydd na'r ysgolion presennol. Nodwyd wrth ymateb bod dros 40% o lefydd gweigion ymhob un o'r 4 ysgol ar hyn o bryd.

<u>Cynnal a chadw</u>

Gofynnwyd am wybodaeth am ddyfodol y safle o safbwynt diogelwch petai'r ysgol yn cau. Atebwyd gan nodi'r hyn a ddigwyddodd mewn ysgolion oedd wedi cau yn ddiweddar yn y sir, sef bod y Cyngor yn ariannu gofalwr/gofalwraig i ofalu am y safle am gyfnod priodol.

<u>Plant all-ddalgylch</u>

Cwestiynwyd y gosodiad yn y papur bod 41% o blant dalgylch Llwyngwril yn mynychu ysgolion all-ddalgylch, a nodwyd anfodlonrwydd bod plant oedd yn byw yn nalgylch dewisol Rhoslefain (ers cau ysgol Rhoslefain yn y 1960au bu gan blant y pentref hawl i fynychu naill ai Llwyngwril neu Llanegryn fel eu hysgol dalgylch). Atebwyd i nodi bod y ffigyrau a ddefnyddiwyd yn rhai a gytunwyd gyda'r Panel Adolygu Dalgylch ac nad oedd plant dalgylch Rhoslefain wedi'u cynnwys fel plant all-ddalgylch Llwyngwril. Roedd amheuaeth o hyn a chytunwyd y byddai swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar y ffigyrau all-ddalgylch.

<u>Opsiynau ad-drefnu amgen</u>

Gofynnwyd pam na fu ystyriaeth i gynnig gwnaethpwyd gan gynrychiolwyr yr ysgol yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu Dalgylch i ystyried model o gydweithio rhwng ysgolion Llwyngwril a'r Friog? Atebwyd bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r cynnig a bod gwybodaeth a dadansoddiad ar y cynnig wedi'i gyflwyno i'r Panel Adolygu Dalgylch.

Cyfeiriwyd at drafodaeth oedd ar gychwyn ar ad-drefnu ysgolion dalgylch cyfagos Y Gader, a'r rhestr o fodelau posib oedd dan sylw yno oedd yn cynnwys opsiwn o gau ysgol y Friog a chynnig lle i ddisgyblion yr ysgol yn yr ysgol fro arfaethedig ym Mro Dysynni.

<u>Safle'r Ysgol Ardal arfaethedig</u>

Nodwyd y byddai cyfle i'r gynulleidfa ystyried 5 o safleoedd posib oedd dan sylw ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig ar ddiwedd y cyfarfod. Pan ddaeth y cyfarfod i ben, gwrthododd cynrychiolwyr yr ysgol gynnig sylwadau ar y safleoedd posib.

**Manteision ac anfanteision**

<u>Cludiant</u>

Nodwyd barn cynrychiolwyr bod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwarchodwyr ar fws i blant cynradd, a bod methiant i warantu hyn yn golygu bod yr Awdurdod yn esgeuluso'u dyletswydd gyfreithiol. Nodwyd hefyd bod gofynion ychwanegol ym mholisi diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad ar gludiant i'r ysgol. Atebwyd trwy ddweud mai arweiniad Llywodraeth y Cynulliad oedd sylfaen polisi Gwynedd a bod y Cyngor yn cyfarfod â phob gofyn cyfreithiol.

Nodwyd anfodlonrwydd bod disgwyl i blant cynradd deithio ar fws ar hyd lôn beryglus heb wregysau a heb warchodwyr. Atebwyd i'r pwynt hwn trwy nodi bod siroedd eraill ar adegau wedi cynnig ariannu gwarchodwyr ar fws am gyfnod penodol wrth symud i drefniant newydd. Nid oedd cefnogaeth o blith y gynulleidfa i'r polisi hyn.

Awgrymwyd gan yr Awdurdod y dylai'r ysgol ofyn i'w aelod etholedig lleol godi'r mater o warchodaeth ar fws ysgol yn y Cyngor. Cytunwyd i hyn.

<u>Darpariaeth feithrin</u>
Nodwyd anfodlonrwydd na fyddai gan blant tair oed yr hawl statudol i dderbyn cludiant i'r ysgol ardal newydd. Awgrymwyd fod hyn yn amddifadu plant y pentref o'u hawl i dderbyn addysg feithrin.

<u>Clybiau cyn ac ar ôl ysgol, clybiau brecwast</u>
Gofynnwyd a fyddai cludiant i glwb brecwast yn yr ysgol ardal?
Nodwyd mai mater i'r ysgol fyddai trefnu amser dechrau'r ysgol, amser dechrau unrhyw glybiau cyn ac ar ôl ysgol, ac unrhyw drefniadau cludiant.

Beirniadwyd y papur ymgynghorol statudol am fod cyn lleied o anfanteision wedi'u rhestru. Cynigiwyd nifer o anfanteision eraill gan y gynulleidfa:

- mae Llywodraeth yr Alban wedi gwrthdroi pob penderfyniad i gau ysgolion
- mae sir Birmingham wedi gorfod gwario £50m ar gynlluniau i ymateb i broblemau ymddygiol a bod ysgolion bach gwledig eisoes yn cynnig y math hwn o gefnogaeth ar gost isel
- bod llai o gefnogaeth i blant mewn dosbarthiadau mwy
- bod adroddiad HYB yn nodi mai bach iawn fyddai unrhyw arbedion o gau ysgolion bach

**Sut ddatblygwyd y cynnig?**

<u>Costau'r prosiect</u>
Gofynnwyd am wybodaeth am wariant y Cyngor ar adolygiadau trefniadaeth ysgolion dros gyfnod o 5 mlynedd gan gynnwys y cylch gafodd ei wrthod gan y Cyngor yn 2008. Atebwyd y bu gwariant ychwanegol cronnus ar y prosiect gan y Cyngor ers 2005 o tua £190,000.

<u>Cyfreithlondeb y broses</u>

Daeth cyhuddiad nad oedd y broses yn gyfreithiol a bod nifer o ddiffygion o ran ymateb i ofynion Cylchlythyr diweddaraf y Llywodraeth. Nodwyd y byddai her gyfreithiol i'r broses gan y gymuned.

**Effaith y cynnig**

<u>Staffio</u>
Nodwyd bod ansicrwydd hir dymor dros ddyfodol yr ysgol wedi creu anawsterau penodi staff na fyddai fel arall yn bodoli.

<u>Materion iaith a chymuned</u>
Beirniadwyd yr asesiadau o effaith ieithyddol a chymunedol am eu bod yn cyfeirio at adolygiad o'r ysgol yn 2003, a bod adolygiad arall wedi'i chynnal yn 2009. Ymrwymwyd i fynd yn ôl at yr ymgynghorydd a gofyn iddo a fyddai cynnwys yr adolygiad diweddaraf a gynhaliwyd ar ddiwedd 2009 wedi newid ei ganfyddiadau.

Nodwyd fod yr ysgol yn cynnal Cymreictod yr ardal

**Camau nesaf**

Eglurwyd y broses a'r drefn o hyn allan ac y byddai'r cofnodion o'r cyfarfod hwn a'r holl gyfarfodydd eraill yn y dalgylch yn ogystal ag unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael ei roi mewn adroddiad i bwyllgorau'r Cyngor.

Nodwyd y byddai ymgynghori gyda phlant yr ysgol yn digwydd. Beirniadwyd yr ymgynghori anffurfiol gyda phlant a ddigwyddodd yn ystod 2009 oherwydd y canfyddiad bod natur y sesiwn yn arwain plant i roi atebion oedd yn ffafrio cau ysgolion a bod athrawon wedi'u gwahardd o'r sesiwn. Amlinellwyd y ddau opsiwn oedd ar gael i ysgolion ddewis, sef i'r Awdurdod anfon swyddog cyfranogiad arbenigol i gynnal sesiynau gyda phlant, neu i'r Awdurdod anfon dogfennaeth at yr ysgol gan adael i'r pennaeth gynnal y sesiynau. Mater i'r ysgol fyddai dewis y fformat yr oeddynt yn ei ffafrio.

Gofynnwyd i'r Awdurdod wirio cofnodion y cyfarfod gyda'r ysgol. Cytunwyd i hyn.

Gofynnwyd i'r Awdurdod ymestyn y cyfnod ymgynghori statudol i gyfnod o 6-12 mis.

Gofynnwyd i'r Awdurdod sicrhau bod y papurau fyddai'n mynd gerbron y Cyngor yn ystod yr Hydref ar gael yn gyhoeddus. Nodwyd wrth ymateb bod papurau holl bwyllgorau'r Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor o leiaf wythnos cyn pob cyfarfod. Ymrwymwyd hefyd i greu pecynnau at sylw cynghorwyr byddai'n cynnwys pob darn o ohebiaeth ysgrifenedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 22:00.

**A6: Cyfarfodydd Ymgynghoriad Penybryn**
*** Gafodd cyfarfod Rhieni Penybryn ei ailadrodd oherwydd amryfusedd yn y trefniadau***

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL PENYBRYN, TYWYN**

**7 Mehefin 2010 17:00**

**CYFARFOD STAFF**

Roedd 14 aelod o staff yn bresennol.

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan gyflwyno'r swyddogion a nodwyd fod natur y cyfarfod ychydig yn wahanol i gyfarfodydd statudol gweddill yr ysgolion yn y dalgylch gan mai ymgynghori i newid oedran derbyn plant o 4-11 oed i 3-11 ydym.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol drwy oedi ar ôl pob isadran er mwyn rhoi cyfle i'r staff ofyn cwestiynau.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Eglurwyd fod bid bellach wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad am arian cyfalaf i godi'r ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni ac yn rhan o'r bid mae cais oddeutu £1.5m o arian i ddatblygu adeiladau ac adnoddau ysgolion Penybryn, Pennal a Chorris.

*Gofynnwyd a oes gwarant y bydd y bid yn llwyddiannus?*
Nid oes gwarant ond roedd gwahoddiad i bob awdurdod yng Nghymru roi 3 bid i mewn ac eglurwyd natur y 3 cais. Nodwyd mai cais Bro Dysynni yw'r uchaf ar restr flaenoriaeth y Cyngor a gobeithir y bydd y Cynulliad yn cyd-weld. Nodwyd hefyd fod awdurdodau eraill wedi denu degau o filoedd o arian yn barod dros y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd Gwynedd mewn sefyllfa i roi cais am yr arian hwn oherwydd diffyg strategaeth.

Os bydd Ysgol Aberdyfi yn cau byddai posibl i'r plant meithrin yno wedyn gael yr un math o ddarpariaeth ym Mhenybryn. Byddai hyn wedyn yn cynyddu nifer y gweithlu. Derbynnir plant meithrin mewn ysgolion yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, mae trafodaethau wedi digwydd yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn i newid y polisi mynediad er mwyn iddynt gael cyfle i gychwyn yn Ionawr neu Ebrill hefyd. Nid yw hyn wedi ei basio eto.

*Nodwyd na fyddai cylchoedd meithrin preifat yn gyffyrddus â hyn.*

Mae gan blant 3 oed hawl i 10 awr o ofal meithrin bob wythnos ond mae modd cynnig mwy na 10 awr petai'r ysgol yn dymuno gwneud hynny. Dewis y rhieni

fyddai mynd a'u plant i ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol neu i ddarpariaeth breifat.

Nodwyd fod Ysgol Penybryn wedi derbyn arolygiad da iawn yn ddiweddar.

**Effaith y cynnig**

Eglurwyd fod yr ymgynghoriad ffurfiol yn dechrau heno hyd at 30 Gorffennaf 2010 a nodwyd y broses yn dilyn hyn. Os bydd gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol yna byddant yn cael eu cyfeirio at y Cynulliad a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol wedyn - gall hyn gymryd misoedd, mae rhai achosion wedi bod yn aros tua 7 mis.

Agorwyd y drafodaeth er mwyn ateb cwestiynau a derbyn barn.

A yw'r staff yn gyfforddus gyda newid statws?

*Nid oes gwrthwynebiad gan y bydd y newidiadau yn cryfhau'r ysgol.*

*Gofynnwyd a yw'r bylchau cyfreithiol wedi eu datrys?*
Gwnaed cais yn 1997 i newid statws 82 ysgol yn y sir i dderbyn plant 3-11oed nid yw'r Uned Gyfreithiol wedi canfod dim ynglŷn ag Ysgol Penybryn.

Nodwyd ei fod yn bwysig cael y ddarpariaeth hon o'r cychwyn gan y bydd yr ysgol newydd ym Mro Dysynni yn cynnig yr un ddarpariaeth.

*Beth os na fydd y bid am arian i'r Cynulliad yn llwyddiannus?*
Byddai rhaid dod yn ôl i'r dalgylch i ymgynghori.

*Beth os fydd gwrthwynebiadau o Aberdyfi, a fydd hyn yn effeithio ar y cynnig hwn?*
Na fydd, mae'r ymgynghoriad yma yn annibynnol oddi wrth ymgynghoriad Aberdyfi - petai Aberdyfi ddim yn cau ni fyddai'n effeithio ar y cynnig hwn.

*A fydd arian yn dod gyda phlant Aberdyfi?*
Mae unrhyw blentyn yn dod a swm o arian i ba bynnag ysgol y maent yn mynd iddo. Rhagdybir y bydd y rhan fwyaf o'r plant yn dod i Benybryn.

*Os bydd twf o blant yn dod yng nghanol tymor a fydd yr arian yn dod gyda hwy adeg hynny?* Gall hyn roi pwysau ar y gyllideb.
Bydd cefnogaeth ar gael gan y Cyngor petai hyn yn digwydd.

*A fyddai'r £57,000 yn dod o Aberdyfi petai'r plant ddim yn dod i Benybryn?*
Yr oedd yr ysgol yn wynebu toriadau staff y llynedd ond wedi penderfynu peidio gan fod y posibilrwydd o dderbyn y plant o Aberdyfi yn mynd i gadw'r sefyllfa yr un peth. Yr un nifer o staff fydd ganddynt a byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i gadw yr un sefyllfa.
Bydd rhaid edrych yn fanwl iawn ar y symudiad plant sydd i ddod.

**Camau nesaf**
Diolchwyd pawb am fynychu ac anogwyd y staff i anfon eu sylwadau i mewn erbyn 30 Gorffennaf 2010.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL PENYBRYN, TYWYN**

**7 Mehefin 2010 18:00**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR**

Roedd 9 aelod o'r Llywodraethwyr yn bresennol.

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan gyflwyno'r swyddogion a nodwyd mai ymgynghori i newid oedran derbyn plant o 4-11 oed i 3-11 ydym a'i fod yn digwydd cyd-fynd a'r drafodaeth yn y dalgylch.

Cyflwynwyd y papur ymgynghorol statudol drwy oedi ar ôl pob isadran er mwyn rhoi cyfle i'r staff ofyn cwestiynau.

**Cefndir**

Tair ysgol sydd yn y Sir bellach ble nad ydynt yn derbyn plant yn 3oed. Mae'r polisi mynediad yn ael ei drafod ar hyn o bryd gan mai dim ond ym Medi mae' posib i blant ddechrau yn ysgolion y Sir. Mae gan Gylchoedd Meithrin fantais ble maent yn gallu derbyn plant ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Eglurwyd fod bid eisoes wedi mynd i'r Cynulliad am arian i adeiladu'r ysgol newydd ym Mro Dysynni a bod rhan ohono ar gyfer datblygu adnoddau ysgolion Penybryn, Pennal a Chorris. Eglurodd y Pennaeth fod y Llywodraethwyr eisoes wedi derbyn y rhestr o argymhellion a luniwyd ar gyfer datblygu'r ysgol.

*Beth os bydd y bid yn aflwyddiannus?*
Byddai'n rhaid dod yn ôl i'r ardal i drafod. Eglurwyd fod 3 bid wedi mynd i'r Cynulliad ac mai cynllun Dysynni yw'r 1af ar flaenoriaethau'r Cyngor, cwestiwn arall yw a yw'r Cynulliad yn gweld datblygu ysgol wledig yn flaenoriaeth. Mae nifer o siroedd eraill wedi manteisio ar yr arian yma ers rhai blynyddoedd ond nad oedd y Cyngor yn gallu oherwydd diffyg strategaeth. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ofalu am yr arian i Fro Dysynni ond ni fyddai hyn yn golygu datblygu'r ysgolion eraill.

Nodwyd fod Penybryn wedi derbyn arolwg cadarnhaol iawn gan Estyn yn ddiweddar.

**Effaith y cynnig**

Mae cynnig addysg feithrin yn rhoi cyfle gwahanol i'r plant o'r cylch meithrin. Nodwyd mai prinder lle yn yr ysgol oedd y rheswm yn erbyn cynnig lle i blant meithrin yn yr ysgol flynyddoedd yn ôl ond fod y sefyllfa wedi newid erbyn hyn ac mae cyfle i ddatblygu ymhellach yma hefyd. Nodwyd fod y llywodraethwyr eisoes wedi cytuno i dderbyn plant yn 3 oed.

Eglurwyd camau nesaf a'r broses yn dilyn y cyfarfod heno. Ar ôl penderfyniad y Cyngor Llawn ar 21 Hydref 2010 bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.

Agorwyd y drafodaeth er mwyn ateb cwestiynau a derbyn barn.
Nodwyd fod y llywodraeth yn cefnogi derbyn plant meithrin i'r ysgol.

*Rhaid darparu cyllideb ar gyfer y flwyddyn – beth fydd ar gael i helpu'r ysgol?*
Mae trafodaeth ad-drefnu yn cymhlethu'r sefyllfa yma, nid yw'n ragdybiaeth y bydd y plant i gyd yn dod mewn un llif. Bydd Penybryn yn mynd drwy gyfnod ansefydlog a bydd y Cyngor yn gorfod bod yn agored i drafodaeth i helpu'r sefyllfa.

Mae lleihad mewn niferoedd yn golygu lleihad mewn cyllideb mewn nifer o ysgolion eraill y sir. Bydd 20% o unrhyw arbedion y dalgylch yn cael ei gadw oddi fewn y dalgylch a fydd yno i helpu i ddelio a gofynion y dalgylch yn ystod y cyfnod ad-drefnu. Dosbarthiadau mawr a diffyg staff yw'r broblem.

Nodwyd pryder fod cylchoedd meithrin preifat yn y dalgylch yn gallu derbyn plant yn ieuengach na 3 oed.

*A fyddai'r Cyngor yn darparu trafnidiaeth i'r plant 3 oed?*
Mae'n annhebyg y bydd rhieni eisiau i blant mor ifanc teithio ar fysus ysgol.

*Faint o rybudd gaiff yr ysgol wybod faint o blant i'w disgwyl?*
Mae rhieni yn rhoddi cais yn Rhagfyr.

*Mae angen sicrhau fod digon o arian ar gael i dalu am yr addysg i'r plant yma.*

Byddai'n cymryd tipyn o amser i hyn sefydlu ei hun yn y dref. Nodwyd y byddai cynnig gofal plant yn ychwanegol yn gallu bod o fantais i ddenu mwy o blant.

Byddai'n statudol bosibl derbyn plant yn 2011 ond efallai y byddai'n fwy ymarferol cynllunio eu derbyn yn hwyrach na hyn.

Mae pob ysgol yn wynebu toriadau - mantais ym Mhenybryn yw y gallant ddenu mwy o blant.

**Camau nesaf**

Diolchwyd pawb am fynychu ac anogwyd y staff i anfon eu sylwadau i mewn erbyn 30 Gorffennaf 2010.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL PENYBRYN, TYWYN**

**7 Mehefin 2010 19:00**

**CYFARFOD RHIENI**

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd y rhiant i'r cyfarfod gan egluro mai ymgynghori i newid oedran derbyn plant o 4-11 oed i 3-11 ydym a'i fod yn digwydd cyd-fynd a'r drafodaeth yn y dalgylch. Roedd 9 aelod o'r Llywodraethwyr yn bresennol.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Nodwyd mai Ysgol Penybryn yn un o dair ysgol yn y sir sydd ddim yn derbyn plant meithrin ar hyn o bryd.

Eglurwyd fod y cyngor wedi cyflwyno bid gwerth £7m i'r Cynulliad sydd yn cynnwys £1.5m i ddatblygu adeiladau ac adnoddau ysgolion Penybryn, Pennal a Chorris.

Gall derbyn plant meithrin gynnig cyfle i bob ysgol ddatblygu gwasanaeth gofal plant a fyddai yn denu mwy o blant. Byddai potensial i gynnig gwasanaeth lletach na hynny ac efallai derbyn plant yn 2 ½ i'r dyfodol.

*Nodwyd na fyddai anfantais i'r ysgol ond y byddai'n anfantais i gylchoedd meithrin y dre o bosib.*

*Gofynnwyd a oes ymgynghori yn digwydd gyda chylchoedd y dref?*
Eglurwyd fod copïau wedi cael eu hanfon i'r cylchoedd a bod croeso iddynt ymateb.

Eglurwyd y drefn o ymateb ac eglurwyd y byddai unrhyw sylwadau yn cael eu croesawu.

Nododd y rhiant ei fod yn fudd i blant fod yn yr un awyrgylch meithrin ag a fyddant pan yn yr ysgol.

**Camau nesaf**

Eglurwyd os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod rhybudd statudol, y byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad i wneud penderfyniad. Gall hyn gymeryd peth amser.

Diolchwyd i'r rhiant am fynychu a fe'i hanogwyd i anfon ei sylwadau i mewn erbyn 30 Gorffennaf 2010.

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL PENYBRYN**

**14eg o Orffennaf 2010 am 7.00 yr hwyr**

**CYFARFOD RHIENI**

10 rhiant yn bresennol

**Croeso a chyflwyniadau**

Croesawyd pawb a chyflwynwyd swyddogion.

**Cefndir a pham cyflwynir y cynnig**

Ymgynghorwyd ar y cynnig os am newid oedran yr ysgol o 4-11 i 3-11.

Eglurwyd fod 100 allan o 103 ysgol yng Ngwynedd yn ysgolion oedran 3-11. Dim ond 3 ysgol sydd efo ystod oedran 4-11.

Eglurwyd fod cyfle i rieni ymateb i'r ymgynghoriad a bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad wedyn yn cael ei gyflwyno gerbron Aelodau Cyngor Gwynedd – mewn Pwyllgor Craffu, Bwrdd a'r Cyngor Llawn.

Nodir y bwriad os bydd Ysgol Aberdyfi yn cau, bydd yn dod yn rhan o ddalgylch Penybryn ond bydd y dewis gan rieni Aberdyfi.

**Effaith y cynnig**

Nodwyd y polisi perthnasol o ran derbyn plant 3 oed.

Eglurwyd fod bid wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad o ran adeiladu ysgol ardal ym Mro Dysynni a gwneud gwelliannau i ysgolion eraill - yn cynnwys Penybryn. Nodwyd fod y bid hwn wedi bod yn llwyddiannus a bydd cyfle os bydd ad-drefnu, i ysgol Penybryn elwa o hyn.

*Beth oedd cynnwys y bid?*
Eglurwyd fod y bid yn cynnwys elfen ar gyfer adeiladu'r ysgol ardal a datblygu Ysgol Penybryn, Corris a Pennal.
Eglurwyd y bydd yr union wariant yn fater i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr ei drafod â'r Cyngor, a'i fod angen trafodaeth.

*Cwestiynwyd os yw'r gwaith ar Ysgol Penybryn wedi ei gostio.*
Eglurwyd y bydd yr union waith yn cael ei drafod gyda'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr a bydd yr union gostau yn cael eu cyfrifo.

*Cwestiynwyd a fydd gwaith yn cael ei wneud ar barcio?*
Eglurwyd fod cyfle yn yr ymgynghori i godi'r pwynt, ond gall fod yn fater i'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr drafod y defnydd o'r arian cyfalaf.

*Cwestiynwyd ynglŷn â symud plant all-ddalgylch o Penybryn i'r ysgol ardal.*

Eglurwyd mai'r dalgylch yr ysgol ardal fydd dalgylch y 4 ysgol sydd wedi eu hargymell i'w cau, ond yn amodol â pholisïau mynediad ei fod yn ddewis i rieni yn yr ardal. Eglurwyd bydd yr ysgol ardal yn cynnwys amrediad oedran 3-11 oed.

Mynegwyd fod bygythiad i'r cylchoedd meithrin wrth i'r dewis gael ei greu a bydd posibilrwydd y bydd arian yn dilyn y plant.

*Cwestiynwyd sut all yr ysgol ddarparu cyfleusterau ehangach.*
Eglurwyd y bydd y plant yn medru manteisio ar gyfleusterau eraill yn yr ysgol.

**Eglurwyd y drefn**

Nodwyd y bydd canlyniad yr ymgynghori yn cael ei gyfleu i Aelodau Cyngor Gwynedd.

Os bydd Cyngor Gwynedd yn cytuno, bydd angen symud i roi rhybudd statudol a bydd cyfnod o 2 fis i ymateb. Eglurwyd fod gwrthwynebiad yn ddigon i'r mater gael ei gyfeirio i'r Cynulliad a gall hyn gymeryd hyd at 7 fis.

Eglurwyd fod cyfle i gyflwyno sylwadau i Gyngor Gwynedd erbyn 30 Gorffennaf 2010 ac yn ddibynnol os bydd y Cyngor yn cefnogi bydd cyfnod o 2 fis i ymateb i'r rhybudd statudol.

Eglurwyd ei bod yn bwysig bod sylwadau o blaid ac yn erbyn yn cael eu cyflwyno.

Diolchwyd i bawb am fynychu a chyfrannu i'r cyfarfod.

## CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL GYDA CHYNRYCHIOLWYR CYLCH MEITHRIN TYWYN, CYLCH CHWARAE MARGARET BARNARD A CHYNGHORWYR Y DREF

### Cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghylch Chwarae Margaret Barnard
### 11 Awst 2010 18:30

Galwyd y cyfarfod hwn gan gynghorwyr tref Tywyn yn ychwanegol at gyfarfodydd statudol a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr yr ysgol a'r grwpiau meithrin.

Roedd arweinwyr a staff y ddau gylch chwarae a dau gynghorydd tref yn bresennol. Roedd Cyngor Gwynedd yn cael eu cynrychioli gan Ddeilydd Portffolio Addysg a Rheolwr y Prosiect Trefniadaeth Ysgolion.

**Croeso a chyflwyniadau.**

Diolchodd Cyng. Liz Saville Roberts y rhai oedd yn bresennol am y gwahoddiad i gwrdd gan amlinellu ei chyfrifoldebau fel Deilydd Portffolio Addysg.

Eglurodd mai'r rheswm dros ystyried caniatáu i Ysgol Penybryn agor dosbarth meithrin oedd ei bod yn un o ond tair ysgol gynradd yn y Sir (o gyfanswm o 103) na allai ar hyn o bryd, gynnig yn gyfreithiol addysg i blant o'r mis Medi yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed, a bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn y ddwy ysgol arall oedd yn wynebu'r un sefyllfa.

Nododd mai ei phwrpas mewn mynychu'r cyfarfod oedd clywed pryderon ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd gan gynrychiolwyr y grwpiau meithrin.

Caiff y prif sylwadau a godwyd yn ystod y drafodaeth eu hamlinellu isod.

1. Y rhybudd a roddwyd ynghylch cyfarfodydd ymgynghori blaenorol
   Mynegwyd pryder nad oedd rhai rhanddeiliaid roedd hyn yn berthnasol iddynt wedi derbyn rhybudd digonol o gyfarfodydd ffurfiol a gynhaliwyd yn ystod Mehefin a Gorffennaf yn yr ardal, a dyna pam y gofynnwyd am gael y cyfarfod ychwanegol hwn.

2. Cefnogaeth i'r ysgol a'r grwpiau meithrin
   Mynegodd y Cynghorwyr eu cefnogaeth i'r tri darparwr gan bwysleisio nad oedd eu pryder ynghylch dyfodol y cylchoedd chwarae mewn unrhyw ffordd yn golygu eu bod yn dymuno tanseilio sefyllfa Ysgol Penybryn.

3. Ymateb i'r ymgynghoriad statudol ffurfiol ar yr ymgynghoriad
   Nododd Cynghorwyr bod Cyngor Tref Tywyn wedi cytuno yn ddiwrthwynebiad (roedd dau gynghorydd wedi datgan buddiant ac ymatal eu pleidlais) y dymunent weld y gwasanaeth a ddarperid gan y ddau gylch chwarae yn parhau. Byddai llythyr ffurfiol yn cael ei gyflwyno gan glerc Cyngor y Dref er caed cyfaddefiad nad oedd y llythyr wedi ei anfon eto. Cytunodd swyddogion o Gyngor Gwynedd i nodi eu dealltwriaeth bod y llythyr ar ei ffordd gan ofyn i gynrychiolwyr Cyngor y Dref sicrhau bod y llythyr yn cyrraedd cyn gynted a bo modd. *(Noder: derbyniwyd e-bost ar 12 Awst 2010 oddi wrth glerc y Cyngor tref)*

4. Y broses statudol
   Roedd dryswch yn parhau ynghylch statws y broses statudol. Eglurwyd bod cyfnod yr ymgynghoriad cyfredol wedi dod i ben ar 13 Awst 2010. Hyd hynny, gallai ysgolion, grwpiau meithrin, eu cynrychiolwyr ac unrhyw unigolion eraill oedd â diddordeb yn y mater, gyflwyno eu sylwadau ysgrifenedig i'r Cyngor. Byddai pwyllgorau perthnasol Cyngor Gwynedd yna'n ystyried y mater yn ystod hydref 2010, gan ddiweddu gyda cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 21 Hydref 2010. Byddai rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar unrhyw gynigion oedd yn derbyn cefnogaeth y

Cyngor oedd yn caniatáu cyfnod o ddeufis i gyflwyno gwrthwynebiadau. Pe derbynnid unrhyw wrthwynebiadau i gynnig arbennig, byddai'r mater yna'n cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru am benderfyniad terfynol.

5. Gwasanaeth a ddarperir gan y cylchoedd chwarae
Darparai cylch chwarae Margaret Barnard addysg a gai ei gyllido'n rhannol ar gyfer disgyblion 3+ am dair awr bob bore. Cai dwy awr eu cyllido gan grant Cyngor Gwynedd tra bod rhieni yn talu am yr awr arall. Ceid darpariaeth hefyd ar gyfer 2 awr arall o addysg ar gyfer plant 2½ flynedd oed bob prynhawn. Mae'r Cylch Meithrin yn agor am gyfnod o deirawr rhwng 9yb-12 bob bore ac yn darparu ar gyfer plant rhwng 2½-4 oed.

6. Cyfnod Sylfaen
Roedd cylch chwarae Margaret Barnard wedi cynnal peilot ar y Cyfnod Sylfaen ac wedi derbyn arolygiadau ffafriol.

7. Ansawdd Darpariaeth
Roedd y ddau gylch chwarae, ynghyd ag Ysgol Penybryn, wedi derbyn arolygiadau da yn ddiweddar gan ESTYN a CSSIW.

8. Diogelwch safleoedd cylchoedd chwarae
Ceid digon o le diogel i barcio a mynedfeydd diogel yn y ddau gylch chwarae.

9. Cynlluniau at y dyfodol
Amlinellodd Cylch Chwarae Margaret Barnard eu bwriad i brynu'r adeilad oedd yn gartref i'r cylch chwarae ac i fuddsoddi yn y cyfleuster, yn cynnwys to newydd. Roedd yr ansicrwydd ynghylch cyllido'r cylch yn y dyfodol wedi atal trafodaethau o'r fath.

10. Effaith posibl unrhyw dorri mewn cyllid
Roedd y ddau gylch chwarae yn ddibynnol ar y cyllid blwyddyn lawn a dderbyniwyd o'r mis Medi yn dilyn penblwydd plentyn yn dair oed, i gynnal eu gwasanaethau. Pe bai lleoedd ar gael yn Ysgol Penybryn, roedd cynrychiolwyr cylchoedd chwarae yn ofni na fyddent yn gallu parhau. Ar hyn o bryd, mae plant yn derbyn cyllid am y ddarpariaeth 10 awr o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd - pe bai'r polisi hwn yn berthnasol i Tywyn o Fedi 2010, byddai'r Cylch Chwarae Margaret Barnard Playgroup yn cael ei gyllido ar gyfer 3 plentyn a'r Cylch Meithrin ar gyfer 2 yn Medi 2010 am y tymor cyntaf, er yn amlwg byddai rhifau'n cynyddu gydol y flwyddyn ysgol. Derbynnid bod cymorth ariannol ar gael i rieni gefnogi talu ar gyfer darpariaeth gofal plant, a chadarnhaodd staff cylch chwarae eu bod ar hyn o bryd yn cefnogi teuluoedd oedd yn gymwys i wneud cais am gymorth.

11. Effaith ar gyflogi staff cylch chwarae

Mae cylch chwarae Margaret Barnard yn cyflogi pedwar o staff ar hyn o bryd. Mae'r Cylch Meithrin yn cyflogi tri aelod o staff. Tra derbynnid y byddai swyddi yn cael eu creu yn nosbarth meithrin yr ysgol, pe rhoddid sêl bendith i'r cynnig, roedd pryderon o hyd y byddai rhai diswyddiadau.

12. Diffyg darpariaeth gofal plant arall ac effaith hynny ar allu rhieni i weithio. Nodwyd mai dim ond un gwarchodwr plant oedd yn gweithio yn Tywyn ar hyn o bryd, ac un yn Aberdyfi. Roedd pryder y byddai symud cyllid statudol oddi wrth y cylchoedd chwarae yn cyfyngu gallu rhieni i weithio.

13. Toriadau mewn gwasanaethau
Roedd teimlad bod toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn tueddu i effeithio ar dde Meirionnydd ynghynt nac ar ardaloedd eraill.

14. Yr effaith ar Ysgol Penybryn o dderbyn nifer sylweddol o ddisgyblion ychwanegol.
Nodwyd bod dau gynnig ar wahân a allai effeithio ar rifau disgyblion yn Ysgol Penybryn. Gallai cau Ysgol Aberdyfi arwain at ychwanegu tua 20 disgybl yn Ysgol Penybryn, tra gallai agor darpariaeth meithrin yn yr ysgol ychwanegu tua 30 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Caed sicrwydd bod lle yn Ysgol Penybryn ar gyfer cynnydd o'r fath mewn nifer disgyblion, a bod y Cyngor yn ddiweddar wedi derbyn cyllid cyfalaf oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gwneud gwelliannau pellach i Ysgol Penybryn ymhlith eraill yn yr ardal.

15. Polisïau yn Ysgol Penybryn ar gyfer delio â phlant ifanc iawn
Roedd pryder bod polisi yn Ysgol Penybryn oedd yn atal staff rhag newid dillad disgyblion oedd wedi baeddu eu hunain yn ystod y diwrnod ysgol. Roedd achosion o'r fath yn debygol o ddigwydd yn amlach gyda nifer ychwanegol sylweddol o blant iau yno.

16. Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Cyng Roberts yn diolch i'r cylchoedd chwarae am y gwahoddiad i gwrdd â chynrychiolwyr y cylchoedd chwarae yn diolch i'r Cyng Roberts am fynychu. Cafodd Cyng Roberts gyfle i ymweld â'r cyfleusterau ar safle Cylch chwarae Margaret Barnard a safle'r Cylch Meithrin.

17. Daeth y cyfarfod i ben am tua 20.15

**Atodiad B: Dadansoddiad o Sylwadau Ymgynghorol Statudol**

**B1: Ymateb i Ymgynghoriad Statudol ynghylch y Cynnig i Gau Ysgol Aberdyfi**

Derbyniwyd 35 o ymatebion ysgrifenedig:
1 Dogfen Dwyieithog
33 Llythyrau yn Saesneg
1 E-bost yn Saesneg

Sylwadau'n cynnwys oddi wrth:
Lywodraethwyr a Pwyllgor Gweithredu Ysgol Aberdyfi, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Parchedig Lleol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru Seisnig Aberdyfi, Cadeirydd Pwyllgor Gweithredu Ysgol Aberdyfi a 30 llythyr

| Cod Sylwadau | Sylwadau | Nifer o ymatebion ysgrifenedig oedd yn cynnwys y sylw | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cymuned** | | |
| 1.1 | Yr ysgol yw calon y gymuned/ Byddai cau yr ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol/Ni ddylid trin cau'r ysgol fel mater addysgol yn unig – ceir goblygiadau i'r gymuned/Byddai'r pentref yn dod yn llai atyniadol i deuluoedd ifanc/ Mae ysgol yn denu teuluoedd ifanc/Pwysig y caiff | 26 | Byddai disgyblion Ysgol Aberdyfi yn trosglwyddo i ysgol fwy a gwell yn Tywyn. Caiff Ysgol Penybryn ei hannog i ddatblygu ymhellach fel ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn fan canolog ar gyfer cymuned ehangach Tywyn/Aberdyfi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant eu haddysgu yn eu cymuned/Dylai plant gael cyfle i fynychu eu hysgol leol | | Mae dros 35% o drigolion Aberdyfi sy'n blant oedran cynradd eisoes yn mynychu ysgolion heblaw Aberdyfi, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn dewis mynychu Ysgol Penybryn, Tywyn.<br><br>Mae bron i hanner disgyblion oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi eisoes yn derbyn eu haddysg yn Tywyn. Mae'r mwyafrif llethol o blant yn Aberdyfi yn mynychu Ysgol Uwchradd Tywyn ar ôl eu penblwydd yn 11oed.<br><br>Derbynnir ceir pryderon y gall cau ysgol gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd angen i Ysgol Penybryn ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau â'r cymunedau y bydd yn eu gwasanaethu os derbynnir y cynnig hwn. Nid yw'r gymuned ehangach yn gwneud fawr o ddefnydd o'r ysgol gan bod Aberdyfi yn cael ei gwasanaethu'n dda gan amrywiaeth o adeiladau cyhoeddus.<br><br>Tra gall ysgol wneud cyfraniad sylweddol i fywyd cymuned, ei ddiben pennaf ddylai darparu'r addysg orau bosibl ar gyfer ei disgyblion. Er hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth. Dosbarthwyd yr adroddiad i randdeiliaid. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o fesurau y gellid eu cymryd i liniaru'r effeithiau negyddol y teimlir y byddai cau ysgolion yn eu cael. |
| 1.2 | Mae ysgol yn rhan egnïol o'r gymuned; mae disgybllion yn cyfrannu tuag at ddigwyddiadau | 12 | Ceir enghreifftiau niferus o arfer dda mewn ardaloedd oedd yn wynebu ad-drefnu ysgolion yn ystod y 1960s |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y gymuned ac mae pob disgybl yn cyfrannu/ Byddai plant yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned ac ar ôl ysgol; clwb brecwast ysgol; byddant yn colli diddordeb yn y gymuned. | | ac maent wedi cadw cysylltiadau cryf â'r holl gymunedau oedd yn rhan o hynny. |
| 1.3 | Mae gan gymunedau gwledig fynediad i lai o gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus na threfi/ Mae gorchwyl y cyngor o ddarparu mannau ar gyfer etholwyr gyda gwasanaethau hanfodol ac ysgolion lleol yn wasanaeth hanfodol/ Adeiladau ysgol yn adnodd defnyddiol i'r pentref ac yn cael eu defnyddio gan glybiau a grwpiau | 2 | Tra gall bod hyn fod yn wir, caiff Aberdyfi ei gwasanaethu'n dda gan ystod o adeiladau cyhoeddus yn cynnwys canolfan gymuned, theatr, swyddfa bost a nifer o siopau, bwytai a thafarndai, banciau gyda ATMs, cyfleusterau chwarae a chwaraeon, canolfan wybodaeth ar gyfer twristiaid a gorsaf reilffordd. |
| 1.4 | Delio â phroblemau tai gan bod llawer yn gartrefi gwyliau ar hyn o bryd, byddai hynny yn annog teuluoedd ifanc i'r ardal/ Byddai cau'r ysgol yn gwneud Aberdyfi yn gyrchfan i dwristiaid ddod ar eu gwyliau'n unig/Cynyddu'r ganran o gartrefi gwyliau/Prisiau Tai'n codi | 9 | Ceir tystiolaeth bod hynny eisoes yn digwydd. Mae Aberdyfi yn bentref sylweddol gyda sawl busnes eto oddeutu 40 o ddisgyblion oedran cynradd, gyda cyfran mawr ohonynt yn cael ei haddysgu tu allan i'r pentref. |
| 1.5 | Beth fydd yn digwydd i'r safle os bydd yr ysgol yn cau? / Canllawiau gan y Parc Cenedlaethol yn debygol o gyfyngu'r defnydd o'r safle ar ôl cau | 5 | Mae gan y Cyngor bolisi ar ddefnydd o safleoedd ysgol ar ôl cau, a dderbyniwyd gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. Yn y bôn, bydd gan y gymuned tua 6 mis ar ôl cau'r ysgol i baratoi achos o blaid defnyddio'r ysgol. Mae'r Cyngor yn neilltuo'r hawl i ryddhau'r adeilad a'r cyfraddau ffafriol i'r gymuned pe bai'r ddadl o blaid yn un gadarn. Bydd y swyddog adfywio lleol ar gael i gynghori'r gymuned. |
| **2** | **Lles ac Ymddygiad Plant** | | |
| 2.1 | Mae plentyn gyda chyflwr meddygol yn derbyn llawer o ofal a sylw ar hyn o bryd; mae'r athrawon yn ei drin. A oes gweithdrefnau i | 2 | Mae angen i athrawon allu ymateb i anghenion disgyblion dan eu gofal. Disgwylid i athrawon yn Penybryn dderbyn y wybodaeth a'r hyfforddiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sicrhau y rhoddir yr un sylw a gofal unigol i'r cyflwr yn Penybryn? | | perthnasol er mwyn gallu cefnogi unrhyw ofynion meddygol eu disgyblion. |
| 2.2 | Bod yn agos iawn i'r ysgol pe bai'r plentyn yn mynd yn wael na fyddai ar gael pe bai'r ysgol yn cau /Pan fo plentyn yn wael yn yr ysgol, a fyddai tacsi ar gael i riant fynd i'w nôl? | 3 | Mae Tywyn 3 milltir o Aberdyfi. Mae'r ddwy gymuned wedi eu cysylltu â ffordd A o ansawdd dda, gwasanaeth trenau a gwasanaeth bws rheolaidd. |
| 2.3 | Plant yn drist iawn o golli eu hysgol a'u hathrawon, colli sefydlogrwydd o'u bywydau, plentyndod anhapus/byddai diwrnod y plant yn hywy gydag amser teithio/Bydd plant yn colli pob hunaniaeth/ | 6 | Derbynnir y gall newid gael effaith gythryblus. Caiff ysgolion eu hannog i sefydlu arferion gweithio ar y cyd, ymweliadau, cyd-rannu staff ac amrywiaeth o fesurau eraill ar y cyd yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at gau'r ysgol.<br>Byddai angen i blant sy'n trosglwyddo o Aberdyfi i Tywyn, deithio 3 milltir ychwanegol. |
| 2.4 | Disgyblion yn ymddwyn yn dda/Mater o fwlio yn cynyddu llawer mewn ysgol fwy | 2 | Disgwylir i bob ysgol sicrhau y caiff plant lonydd i ddysgu a datblygu heb gael eu bwlio. |
| **3** | **Addysg** | | |
| 3.1 | Safon ragorol o addysg yn Aberdyfi, ysgol yn ffynnu/Adroddiad diwethaf Estyn ddim yn feirniadol felly ni ellir cau'r ysgol oherwydd safonau addysgol gwael/""If it isn't broken don't fix it!" | 18 | Cafodd Ysgol Aberdyfi ei gosod o dan fesurau arbennig yn dilyn dau arolwg gan ESTYN yn 2005. Tynnwyd yr ysgol allan o fesurau arbennig yn 2008 a bellach rhydd addysg foddhaol. Cafodd Ysgol Penybryn, Tywyn, arolwg yn ddiweddar a chanfuwyd ei bod yn darparu addysg o safon uchel iawn. |
| 3.2 | Manteision meintiau dosbarth llai, anfanteision dosbarthiadau mwy Penybryn / Beth yw grwp sylweddol? Plant Aberdyfi eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grwp/Gormod o blant eisoes mewn dosbarthiadau yn Penybryn/ A fydd digon o le yn Penybryn/ Cwestiynau ynghylch meintiau dosbarth yn y pen draw – a fyddant dros y 25 a argymhellir? | 14 | Nod strategaeth y Cyngor *Addysg Ragorol ar gyfer Plant yng Ngwynedd* yw sicrhau dosbarthiadau o rhwng 12-25 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae dosbarthiadau yn Aberdyfi islaw'r trothwy o 12 disgybl, tra bod rhai dosbarthiadau yn Penybryn uwchlaw'r trothwy o 25 disgybl. Buasai'r cynig hwn yn rhyddhau cyllid refeniw ychwanegol sylweddol i Ysgol Penybryn a fyddai'n galluogi'r ysgol i gyflogi athrawon ychwanegol pe dymunai wneud hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Byddai'r cynnig hwn yn rhyddhau cyllid ychwanegol i Ysgol Penybryn a fyddai yn ei galluogi i gyflogi mwy o athrawon – ac felly ostwng meintiau dosbarthiadau – pe dymunai wneud hynny. |
| 3.3 | Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r ddamcaniaeth bydd plant Aberdyfi yn derbyn gwell safon o addysg yn Penybryn, beth sydd mor arbennig ynghylch addysg yn Penybryn? | 6 | Mae aroygiadau ESTYN yn awgrymu y rhydd Ysgol Penybryn brofiad addysgol rhagorol. Tynnwyd Ysgol Aberdyfi allan o fesurau arbennig yn 2008. |
| 3.4 | Rhydd y grwp babanod lleol gyswllt da i'r ysgol / Byddai'n rhaid i 2 ysgol feithrin gau a byddai'r gost o ddod a hwy i Penybryn yn fwy nac a fyddai cadw'r meithrinfeydd presennol ar agor / A ellid cadw rhai elfennau o'r dosbarth meithrin yn Penybryn yn Aberdyfi? | 5 | Ni ddylai'r grwp babanod lleol gael ei effeithio gan y cynnig hwn gan y rhydd ddarpariaeth an-statudol. Nid y'w plant yn cael mynediad i'r ysgol ar hyn on bryd hyd y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. |
| 3.5 | Ceir cyfnod sylfaen yn ysgol Aberdyfi, ni cheir dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn | 10 | Fel rhan o'r ad-drefnu, cynigir y dylai Ysgol Penybryn agor dosbarth meithrin i roi mynediad i ddisgyblion 3 oed. |
| 3.6 | Mae ysgol fechan hefyd yn elwa trwy addysgu sgiliau cymdeithasol a mentora / Mae plant o 'allu isel' yn llawer mwy tebygol o lwyddo mewn amgylchfyd 'ysgol leol' / Rhieni dim â pherthynas ar lefel bersonol ag athrawon – nid yw athrawon Penybryn yn sefyll ger giât yr ysgol a sgwrsio â rhieni | 4 | Yn gyffredinol mae'r addysgu a'r mentora yn Ysgol Penybryn yn rhagorol fel y tystir mewn adroddiad arolwg diweddar gan ESTYN. |
| 3.7 | Plant yn elwa o ddosbrthiadau grwp oedran cymysg/Astudiaethau dosbarth grwp oedran cymysg niferus yn cael eu dyfynnu | 2 | Tra gall hyn fod yn wir, mae'r Cyngor yn teimlo bod dosbarthiadau rhy fach yn cyfyngu ar y cyfleoedd a gaiff plant i ryngweithio â'u cyfoedion. |
| 3.8 | Gostyngiad yn nifer disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf i ryw raddau oherwydd y newid mewn pennaeth/ Dewis gwael o ran | 5 | Cafodd ysgolion yn ardal Tywyn anhawster i benodi penaethiaid. Pan ddechreuodd yr adolygiad yn 2009, roedd pedair o'r wyth ysgol yn y dalgylch dan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | recriwtio Pennaeth/Nid yw cael Pennaeth dros dro yn broblem, dengys profiad yn y gorffennol bod y pennaeth dros dro wedi cael gwell hwyl arni na rhai penaethiaid blaenorol parhaol / Mae rhai rhieni wedi penderfynu mynd â'u plant i ysgolion eraill, ac mae hynny'n hawdd i'w egluro oherwydd yr ansicrwydd mae'r Cyngor wedi ei greu ynghylch parhad ysgol Aberdyfi / mae cyngor Gwynedd wedi gadael Aberdyfi i lawr yn ystod y blynyddoedd diweddar trwy beidio â chael pennaeth newydd, a arweiniodd at i rieni Aberdyfi symud eu plant i Pennal a Tywyn. | | ofal penaethiaid dros dro, tra cai dwy arall eu harwain gan atharwon oedd a'r hawl i ymddeol. Gofynnodd y Cyngor i ysgolion ystyried peidio â phenodi penaethiaid parhaol yn ystod adolygiad blaenorol o drefniadaeth ysgolion a gynhaliwyd yn 2005-7 ond tynnwyd y cais hwnnw'n ôl yn dilyn gwrthod cynnig trwy'r sir i ad-drefnu ysgolion. |
| 3.9 | Dywedodd CG 75% o leoedd gwag sy'n wir o ddefnyddio'r fformwla, ond yn ei hanfod, mae gan yr ysgol 3 ystafell ddosbarth gydag uchafswm o 20 ymhob un (uchafswm 60) a rydd 67% o leoedd dros ben / Mae'n wir bod rhai plant yn nalgylch Aberdyfi catchment yn mynd i Tywyn ond dim ond 33% a dim "o leiaf 40%" fel y dyfynnir gan CG | 1 | Caiff nifer lleoedd mewn ysgolion, ac felly nifer lleoedd dros ben, eu cyfrifo gan ddefnyddio fformwla cydnabyddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>Mae cyfradd sylweddol o ddisgyblion cynradd sy'n byw yn Aberdyfi yn mynychu ysgolion a meithrinfeydd eraill heblaw Ysgol Aberdyfi – dros y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi amrywio o rhwng 33% i dros 40%. |
| **4** | **Ansawdd/Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol** | | |
| 4.1 | Mae'r adeilad mewn cyflwr rhagorol a cheir cyfleusterau priodol ynddo, yn cynnwys caeau chwarae, mannau cyfnod sylfaen, costau isel o ran cynnal a chadw/ mae adeilad ysgol / Penybryn mewn cyflwr gwaeth nac Aberdyfi / mae adeilad ysgol Aberdyfi yn fodern / Ceir peth gofod na ddefnyddir o fewn yr adeiladau ond mae hwn yn le ar gyfer twf/ mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn awgrymu bod angen gwario dros £100,000 ar adeilad ysgol Aberdyfi – pam gan ei | 14 | Mae'n ysgol gymharol newydd ac yn gyffredinol mewn cyflwr da. Fel rhan o gynnig llwyddiannus am gyllid cyfalaf wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Haf 2010, caiff Ysgol Penybryn ei hail-wampio er mwyn cwrdd â gofynion yr 21g. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fod mewn cyflwr rhagorol? | | |
| 4.2 | Parcio diogel yn Aberdyfi, peryglus yn Tywyn | 6 | Bydd rhan o'r pecyn i uwchraddio Ysgol Penybryn yn cynnwys gwella mynediad i'r adeilad. |
| 4.3 | Beth fydd yn digwydd i'r safle pe bai'r ysgol yn cau? / Canllawiau'r Parc Cenedlaethol yn debygol o gyfyngu'r defnydd o'r safle yn dilyn cau | 5 | Mae gan y Cyngor bolisi ar ddefnydd o safleoedd ysgol yn dilyn cau, a dderbyniwyd gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. Yn ei hanfod, bydd y gymuned yn cael tua 6 mis ar ôl i'r ysgol gael ei chau, i baratoi achos o blaid defnyddio'r ysgol. Deil y Cyngor a'r hawl i ryddhau'r adeilad a'r cyfraddau ffafriol i'r gymuned pe bai'r achos o blaid yn gadarn. Bydd y swyddog adfywio lleol ar gael i gynghori'r gymuned. |
| **5** | **Gwybodaeth/Ystadegau** | | |
| 5.1 | Gwybodaeth leol bod cyfraddau geni/rhagamcanestyniadau disgyblion yn codi / Pe bai'r proffil demograffig yn newid, sut gall Aberdyfi gael ei hysgol leol yn ôl ? / Byddai cysylltiadau ffyrdd a chludiant yn dylanwadu ar deuluoedd yn byw yn yr ardal ac sy'n cymudo i'w gwaith, gan arwain at fwy o blant yn yr ysgol / Mae'r swyddi sydd ar gael yn effeithio ar faint sy'n byw mewn tai lleol a fyddai'n cynyddu rhifau yn yr ysgol. | 8 | Efallai bod gwirionedd yn hyn er nad oes tystiolaeth eglur i gefnogi'r honiad. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod llai na 40 o ddisgyblion oedran cynradd yn byw yn nalgylch Aberdyfi ac o'r rheini mae dros draean yn dewis mynychu ysgolion heblaw Aberdyfi. |
| 5.2 | Mae Dyffryn Dyfi Valley yn arbennig ac mae Aberdyfi yn rhan o 'Warchodfa Biosffer UNESCO' – sut mae cau'r ysgol o gymorth i ddatblygu economi leol mwy hunan-ddibynnol, yn ardal fwy cynaladwy a bodloni dynodiad biosffer Uneso a gwneud yr ardal yn lle i fyw, gweithio a magu plant? | 1 | Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar drosglwyddo addysg gynradd o'r ansawdd uchaf. Mae ymwybyddiaeth o leolaid yn gydran allweoddol o unrhyw ddarpariaeth cwricwlaidd. Ar hyn o bryd, mae pentref Aberdyfi yn bentref sy'n ffynnu er gwaethaf y nifer isel o blant sy'n mynychu'r ysgol gynradd. |
| **6** | **Cyllid** | | |
| 6.1 | Yr unig ffactor sy'n gyrru'r cynnig yw'r angen i | 4 | Nid yw hyn yn wir, fel mae'r gwahanol ddogfennau a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arbed arian; rhoddir gormod o bwyslais ar arbed arian / Arian yn cael ei arbed oherwydd cau – amau'r ffigurau/ Rhesymwaith ariannol o fewn y papur ymgynghori statudol ddim yn eglur / Pam cau'r ysgol os nad am resymau gwleidyddol ac i gael arian o werthu'r safle | | gyhoeddwyd yn ystod y broses o drafod â chymunedau lleol ac ymgynghori'n ffurfiol gyda chymuned yr ysgol wedi dangos. Mae fodd bynnag yn wir bod y sefyllfa economaidd sydd ohoni yn gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn wir bod gwariant berdyfi ar bob disgybl yn ddwbl gwariant Penybryn, ac mae tegwch sylfaenol yn berthnasol.<br><br>Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ar arbedion a ragwelir yn seiliedig ar yr un broses modelu ariannol cadarn sy'n nodi dyraniadau cyllideb cyfredol. |
| 6.2 | Byddai'n rhatach cadw dosbarth meithrin Penybryn yn Aberdyfi nac i adeiladu un newydd yn Tywyn / Os oes angen mwy o adnoddau ac athrawon yn Tywyn i ymdopi a'r plant ychwanegol, oni fyddai'n well ei wario ar gadw ysgol leol dda, a gedwir yn dda?/ Gellid bod wedi gwario'r swm mawr o arian a gafodd eu wario yn cyflawni gwaith cefndirol ar gyfer y prosiect cau ysgolion ar ysgolion cynradd lleol/Pam bod angen ysgol ardal newydd? Am swm llai, mae'n bur debyg y gellid datblygu Ysgol Bryncrug i gwrdd ag anghenion yr ardal gyfagos | 5 | Cafodd yr opsiwn o leoli dosbarth meithrin i fyny at ac yn cynnwys yr holl ddarpariaeth cyfnod sylfaen ar gyfer y ddwy gymuned ei ystyried yn ystod y broses adolygu dalgylch a gychwynnwyd gan lywodraethwr o Aberdyfi. Byddai'r cynnig yn gostus ac o'r herwydd fe'i gwrthodwyd. |
| 6.3 | A fydd Cyngor Gwynedd yn talu costau megis gwisgoedd ysgol newydd? | 1 | Ni fwriedir darparu gwisgoedd ysgol newydd heblaw trwy'r broses grant arferol ar gyfer teuluoedd sydd â hawl iddynt. |
| 6.4 | Yr unig waith fydd ar ôl fydd gwaith tymhorol/ ceir yn Aberdyfi gyfradd mawr o ail dai sy'n talu trethi llawn a gan nad ydynt yn defnyddio | 2 | Mae'r patrwm hwn yn wir am Aberdyfi ac ardaloedd eraill o fewn y dalgylch heddiw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau Cyngor Gwyenedd gydol y flwyddyn, mae'r refeniw lleol dros ben yn uwch na'r costau lleol. | | |
| **7** | **Sgiliau Iaith** | | |
| 7.1 | Mae gan blant Aberdyfi sgiliau iaith Cymraeg cryf, byddai cau ysgol Aberdyfi school yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg yn yr ardal / Mae ysgolion llai yn rhoi gwell trochiad mewn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. | 7 | Cynhaliwyd asesiad o effaith ar iaith fel rhan o'r broses adolygu. Canfuwyd bod disgyblion o'r ddwy gymuned yn dod o gefndiroedd ieithyddol tebyg iawn ac nai chai unrhyw effaith negyddol ei ragweld o'r defnydd o'r Gymraeg pe derbynnid y cynnig.<br><br>Gall hynny fod yn wir o ran ysgolion llai ond yw hynny'n wir o anghenraid. Mae'r asesiad o effaith iaith yn awgrymu bod y ddwy ysgol yn llwyddo i ddatblygu sgiliau eu disgyblion yn y Gymraeg. |
| **8** | **Cludiant** | | |
| 8.1 | Ni ddylid anfon plant i'r ysgol ar fws/ Pryderon ynghylch diogelwch: dylid sicrhau bod gwarcheidwaid ar fysiau sy'n cludo plant ifanc iawn i'r ysgol / nid yw polisi Cyngor Gwynedd yn darparu gwarcheidwaid, camymddwyn ar rai bysiau | 12 | Derbynnir y gall bydd rhieni'n betrus ynghylch plant ifanc yn teithio ar fws heb warcheidwad. Fodd bynnag, polisi Gwynedd yw na ddarperir gwarcheidwaid, er bod wrth gwrs, gyrrwyr yn derbyn hyfforddiant ac yn derbyn archwiliadau CRB. |
| 8.2 | Y ffordd i Dywyn yn beryglus | 3 | Mae'r ffordd o Aberdyfi i Tywyn o ansawdd da, yn llydan ac yn syth yn gyffredinol. |
| 8.3 | Bydd pris cynyddol tanwydd yn gostwng arbedion / Costau ychwa egol cludo plant/A fydd Cyngor Gwynedd yn talu am gludiant i unrhyw ysgol arall heblaw Penybryn? | 3 | Os deil prisiau tanwydd i godi, bydd cynnydd hefyd ym mhris gwresogi a goleuo adeilad presennol Ysgol Aberdyfi.<br>Darperir cludiant yn unol â pholisi cludiant y Cyngor o'r cartref i'r ysgol |
| 8.4 | Mae plant yn cerdded i'r ysgol yn cyfrannu tuag at amgylchfyd mwy diogel ac mae'r ymarfer corff yn llesol iddynt/olion traed Carbon. | 5 | Derbynnir y bydd mwy o ddisgyblion oedran cynradd yn teithio'n ddyddiol o Aberdyfi pe derbynnid y cynnig hwn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae dros |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 30% o'r disgyblion oedran cynradd sy'n byw yn Aberdyfi yn mynychu ysgolion tu allan i Aberdyfi, gyda'r mwyafrif yn mynychu Penybryn Tywyn. Pe cai hyn ei weithredu, byddai'r cynnig hwn yn arwain at ddarparu cludiant o Aberdyfi i Tywyn ar gyfer disgyblion oedran cynradd a ddylai ostwng trafnidiaeth ysgol presennol. Pe bai Ysgol Aberdyfi yn cau, gwneid arbedion ar gynnal a chadw, goleuo a gwresogi'r adeilad a fyddai ynddo'i hun yn gostwng ôl-traed carbon. |
| **9** | **Proses Statudol** | | |
| 9.1 | Mae'r ddogfen statudol yn cynnwys gwallau, gadal allan/ Nid yw'r papur statudol yn delio ag Aberdyfi ac mae'n ymwneud yn gyfangwbl â Penybryn, dylid dileu'r broses i gael adolygiad barnwrol/ Nid oedd unrhyw gyfarfod na dogfen yn cynnwys gwybodaeth fanwl, a sail iddo ynghylch arbedion ariannol/ Dengys papur ymgynghorol y bydd gwelliannau i Tywyn yn cael eu hariannu trwy gau Aberdyfi, dylai hwn fod yn rhan o ymgynghoriad Tywyn/ni dderbyniodd Aberdyfi bapur ymgynghorol perthnasol | 3 | Cafodd y papur ymgynghorol statudol ei ryddhau i bob ysgol yn amodol ar ymgynghoriad statudol ar 24 Mai 2010. Roedd y papur ar Aberdyfi yn cynnwys rhywfaint o wallau, yn cynnwys disgrifiad gwallus oedd yn nodi y ceid nifer sylweddol o leoedd gwag dros ben mewn ysgolion oedd a rhifau o 25% neu 30, yn hytrach na'r rhifau cywir o 25% a 30 mewn rhif. Cafodd y gwallau hyn eu cywiro a pharatowyd a dosbarthwyd taflen gwelliannau mewn copi caled i bawb yr yngynghorwyd â hwy ar 13 Gorffennaf 2010, a trwy ddulliau electronig ble roedd cyfeiriadau e-bost ar gael. Hefyd gosowdyd y daflen gwelliant ar wefan y Cyngor ynghyd â'r ddogfen ymgynghorol wreiddiol. Gadawyd copïau dros ben yn yr ysgol, ac anfonwyd copïau eraill ar gais yr ysgolion. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am bythefnos arall o 30 Gorffennaf i 13 Awst 2010 i ganiatau ar gyfer dosbarthu'r papur gwelliant a phapur ychwanegol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch lleoliadau oedd dan ystyriaeth fel safleoedd ar gyfer yr ysgol ardal newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | arfaethedig.<br><br>Mae'r papur ymgynghorol statudol ar gyfer Aberdyfi yn delio ag Ysgol Aberdyfi. Yn amlwg, mae hefyd angen iddo amlinellu'r darpariaeth arall y dylid ei wneud ar gyfer addysg disgyblion oed cynradd sy'n byw yn Aberdyfi, pe bai'r ysgol yn cau. |
| 9.2 | Mae'r broses statudol yn wallus – roedd pleidleisiau yn seiliedig ar seiliau gwleidyddol yn unig, dylai pob ysgol fod yn fater ar wahân ac nid yn un bleidlais ar y 3 mater ar yr un pryd / Mae'r polisi sydd tu ôl i'r penderfyniad yn gyfeiliornus/Mae'r dadleion dros gau'r ysgol yn wallus | 5 | Gwnaed y cynigion i gau Ysgol Aberdyfi, ynghyd a chynigion eraill ar gyfer ardal Tywyn, yn dilyn trafodaethau helaeth gyda'r gymuned leol. Yna, derbyniwyd y cybnigion fel sail ar gyfer ymgynghoriad statudol gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2009.<br><br>Cafodd y polisi *Addysg Rhagorol ar gyfer pob plentyn yng Ngwynedd* ei dderbyn yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor llawn yn Ebrill 2009. |
| 9.3 | Dylid bod wedi sefydlu ysgol cyn cau unrhyw ysgol/ Rhagdybiaeth bydd plant Aberdyfi yn teithio i Penybryn – ble'r aeth dewis rhieni? / Byddai ysgol newydd yn rhoi dewis i rieni/Mater amseru – dim amser i gynllunio unrhyw benderfyniadau naill gan yr ysgol na rhieni gan y gallai Gweinidog dros Addysg yn y Cynulliad gyhoeddi penderfyniad mor hwy a Haf 2011; dod a chau Aberdyfi yn unol â'r bwriad i gau 4 ysgol arall; pam y caniateir i'r ysgolion bychain eraill aros ar agor nes caiff yr ysgol aradl arall ei hadeiladu ond bod rhaid i Aberdyfi gau? Dylai Aberdyfi gael cyfle i aros ar agor a rhoi'r dewis i rieni anfon plant i'r ysgol ardal newydd a rhoi cyfle teg i staff o ran swyddi. | 3 | Mae gan rieni hawl i anfon eu plant i unrhyw ysgol. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor ddarparu cludiant di-dâl i'r ysgol ardal dalgylch lleol ble mae anghenion y plentyn unigol yn cwrdd â pholisi cludiant y Cyngor (h.y. bod y plentyn yn byw dros 2 filltir o'r ysgol ac yn mynychu ei ysgol ddalgylch, neu ysgol agosaf). Bydd y polisi hwn yn parhau.<br><br>Mae'r cynnig i gau ysgolion yn Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril yn ddibynnol ar adeiladu ysgol ardal newydd. Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Aberdyfi a darparu lleoedd ar gyfer disgyblion Aberdyfi yn Ysgol Penybryn yn ddibynnol ar waith adeiladu sylweddol. Nid oes felly reswm na ellid gweithredu'r cynnig sy'n berthnasol i Aberdyfi ynghynt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | na'r cynnig i greu ysgol ardal yn Dysynni. |
| 9.4 | Nodwyd nad oedd ysgolion eraill eisiau cydweithio ag Aberdyfi pan mae cadarnhad ysgrifenedig gan lywodraethwr ysgol Pennal nad yw hyn yn wir, cofnodion nad ydynt yn gywir wedi eu cymryd yn ystod o leiaf un cyfarfod ysgol/Llythyr oddi wrth Lywodraethwyr Ysgol Pennal yn gynwysedig /<br>Llythyr oddi wrth riant ynghylch cydweithredu rhwng Aberdyfi a Pennal yn gynwysedig | 3 | Yn ystod cyfarfodydd anffurfiol a gynhaliwyd yn Ysgol Pennal, nodwyd bod cynrychiolwyr ysgol o blaid sefydlu model o gydweithrediad ffurfiol gyda Ysgol Dyffryn Dulas, Corris, ac nad oeddent o blaid sefydlu model cydweithredol ag Aberdyfi. Fodd bynnag, nid yw hwn ond yn un o blith llawer o ffactorau sydd wedi arwain at y cynnig y dylai Ysgol Aberdyfi gau, yn cynnwys maint bychan yr ysgol a grwpiau dysgu, profiadau disgyblion, y nifer mawr o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill, gwariant fesul disgybl. |
| 9.5 | Yn ystod y cyfnod ymgynghorol, ni soniwyd y byddai pob plentyn 3 oed yn mynychu Penybryn | 1 | Roedd y cynnig i agor dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn yn rhan o'r papurau ymgynghorol, a darparwyd copïau o'r papurau ymgynghorol statudol ar gyfer Ysgol Penybryn i Ysgol Aberdyfi. |
| 9.6 | Penderfynwyd cau ysgol Aberdyfi, beth bynnag a ddywedwyd. | 1 | Nid yw'r Cyngor eto wedi pleidleisio ar y cynnig i gau'r ysgol. Nes gwneir hynny, ni wnaed penderfyniad. |
| 9.7 | Llythyrau blaenorol a anfonwyd yn lleisio pryderon, a oes rhywun yn eu darllen neu a yw Cyngor Gwynedd yn anwybyddu llawer o resymau dros gadw ein hysgol ar agor? Teimlo nad oedd neb yn adran addysg Gwynedd wedi gwrando | 1 | Cafodd pob llythyr ei gydnabod a'i gyhoeddi mewn pecyn at sylw Cynghorwyr. Caiff atebion i sylwadau a godwyd yn yr ohebiaeth eu cynnwys yma. |
| 9.8 | Angen i'r Cyngor roi mwy o bwyslais i ddangos effaith cau ar les cyffredinol a ffyniant economaidd y pentref yn y dyfodol / Cynnal Arolwg o ' Asesiad Annibynnol ar Effaith ar y Gymuned' a gynhaliwyd yn dilyn cynnal yr asesiad cychwynnol/ Ni chynhaliwyd asesiadau o'r effaith economaidd a chymdeithasol/ Mae'r rhestr o anawsterau a awgrymwyd gan CG yn | 4 | Roedd datblygu cynigion ar gyfer ardal Tywyn yn dilyn cyfnod maith o drafodaaethau'n lleol. Pan wnaed y cyhoeddiadau ynghylch y cynigion ar gyfer ardal Tywyn ym Medi 2009, roedd y cylchlythyr perthnasol yn dal yn Cylchlythyr 23/02. Yn ystod y mis hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau diwygiedig yng Nghylchlythyr 021/2009 ble roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hollol annigonol, mae'n hepgor perthynas yr ysgol â'r gymuned a'r effaith a gaiff cau'r ysgol ar y gymuned/ Roedd y sesiwn a gynhaliwyd ar gyfer plant a phobl ifanc y dalgylch wedi ei ogwyddo o ran sut y cafodd ei drefnu a'i asesu / Ni chafodd yr ysgol, rhieni a'r plant ddewis o ran eu dyfodol. | | asesiadau effaith ar iaith a chymuned ar gynigion y daethpwyd a hwy ymlaen o Ionawr 2010. Cynhaliodd Cyngor Gwynedd yr asesiadau hyn gan gymryd ystyriaeth llawn o'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Cafodd yr asesiadau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cydrannu ag aelodau etholedig, ysgolion ac eraill. |
| 9.9 | Ni soniwyd yn ystod y broses y byddai ar ysgol Penybryn angen cyllid ychwanegol fel ei fod yn addas ar gyfer y pwrpas, beth sy'n digwydd os nad yw'r arian ar gael? A fydd yr ysgol yn cael ei hystyried yn anaddas? | 2 | Mae Ysgol Penybryn yn addas ar gyfer pwrpas. Fodd bynnag, cyflwynwyd cynnig i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Haf 2010 ar gyfer cyllid oedd yn cynnwys cynnig i uwchraddio Ysgol Penybryn. Bu'r cais yn llwyddiannus. |
| **10** | **Ysgolion Eraill** | | |
| 10.1 | A roddwyd ystyriaeth y gellid defnyddio ysgol Aberdyfi ar y cyd ag ysgol gynradd Tywyn/ Rhoi cyfle i ysgol Aberdyfi gydweithredu ag ysgolion eraill megis Pennal / Dim yn rhy hwyr i sefydlu system ffederal – ni roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r dewis hwn. | 6 | Cafodd nifer o gynigion eraill eu hystyried yn ystod y broses adolygu, yn cynnwys sefydlu ysgol ffederal rhwng Aberdyfi and Penybryn, a sefydlu safle cyfnod sylfaen yn Aberdyfi a safle Cyfnod Allweddol 2 yn Penybryn. Yn y diwedd, penderfynodd y Cyngor llawn ei fod yn dymuno ymgynghori ynghylch y cynnig presennol hwn.<br><br>Cafodd sefydlu system ffederal i gynnwys Ysgol Aberdyfi ei ystyried yn ystod y broses adolygu. Oherwydd rhesymau a amlinellir ym mhapurau'r Cyngor, ni ddilynwyd y cynnig. |
| 10.2 | Pe bai ysgol Aberdyfi yn cau, bydd rhai rhieni yn anfon eu plant i Pennal, yn hytrach na Tywyn gan eu bod o'r farn na fyddai safon yr addysg yn Tywyn yn ddigon da/ / Ni fydd rhan fwyaf o rieni yn fodlon anfon eu plant i Penybryn felly ni ddylid cynnnwys unrhyw gyllideb ar gyfer plant Aberdyfi | 3 | Rhydd Penybryn Tywyn brofiadau addysgol rhagorol fel y tystia arolwg diweddar gan ESTYN. Mae gan rieni hawl i ddewis pa ysgol bynnag y teimlant sydd fwyaf addas ar gyfer eu plentyn.<br><br>Mae'r costau yn seiliedig ar ddisgyblion cyfredol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yng nghyllideb Penybryn / Dim yn wir y bydd cyllideb Penybryn yn cynyddu / Rhagamcanestyniad Dyraniad Cyllideb Ysgol Penybryn wedi ei gynnwys | | Aberdyfi yn trosglwyddo i Penybryn gan mai hwn fyddai'r ysgol ddalgylch ar gyfer Aberdyfi pe cai'r cynnig hwn ei weithredu. Cafodd y sail dros lunio'r gyllideb a amcangyfrifwyd ei egluro yn y cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylchol a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn yr ysgol. Os yw'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer llai o ddisgyblion, bydd gostyngiad yn ei gyllideb. Os yw'n darparu ar gyfer rhagor, bydd ei gyllideb yn cynyddu. Cafodd costau cludiant ychwanegol eu cynnwys yn y costau a ddarparwyd ar gyfer y Panel Adolygu Dalgylchol, yr ysgol ac aelodau etholedig. |
| 10.3 | Tywyn yn cael crefnogaeth ar draul Aberdyfi / Gan nad yw Penybryn yn addas ar gyfer y diben, efallai y dylid ei chau a symud plant o Penybryn i'r holl ysgolion pentref bychan / Mae'n siwr bod y gost o symud un set o blant unffordd yr un fath o ran plant Aberdyfi a Tywyn? | 3 | Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar ddarparu'r profiadau addysgol gorau posibl i blant tra'n defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon. Ar hyn o bryd, mae Aberdyfi yn derbyn ddwywaith cymaint o gyllid ar gyfer pob disgybl o'i gymharu ag Ysgol Penybryn.<br><br>Ceir tua 20 o ddisgyblion yn Aberdyfi, a dros 200 yn Tywyn. Byddai symud plant Aberdyfi i Tywyn yn golygu cael bws a dim estyniad sylweddol o Ysgol Penybryn. I symud 200 disgybl o Tywyn i Aberdyfi byddai angen darparu o leiaf 4 bws ac adeiladu ysgol newydd sbon yn Aberdyfi bedair gwaith ei maint bresennol. |
| **11** | **Economaidd** | | |
| 11.1 | Byddai'r arbedion economaidd yn arwain o'r cynnig yn fychan iawn, byddai llawer o bobl yn colli eu swyddi o ganlyniad i gau Ysgol Aberdyfi / Byddai cau yn lleihau natur hyfyw busnesau lleol | 8 | Ar ôl cymryd cynnydd mewn costau teithio i ystyriaeth, byddai cau Ysgol Aberdyfi yn rhyddhau tua £57,000 mewn cyllid ychwanegol i Ysgol Penybryn a £57,000 pellach i'r gyllideb addysg ganolog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ac yn effeithio potensial ar gyfer denu busnesau newydd/ mae llai o fusnesau a thrigolion parhaol yn golygu gostyngiad mewn cyfraddau busnes cyngor, treth cyngor a mwy o bobl di-waith yn hawlio budd-dâl/Dim budd-daliadau ariannol nac addysgol/Nid yw cau yn gwneud unrhyw synnwyr econoamidd gan bod yr ysgol yn ffynnu ar hyn o bryd | | |
| 11.2 | Gwerth cydnabyddedig tir y safle a faint y gellid gael amdano ar y farchnad agored yw'r prif gymhelliad dros gau / Beth yw'r prif ffactor o ran beth fydd Cyngor Gwynedd yn ei ennill o gau'r ysgol? Os mai'r ateb yw adeiladu tai, yna pwy fydd yn eu prynu heb unrhyw ysgol? | 4 | Cafodd y rhesymau am y cynnig eu hamlinellu'n eglur ym mhapurau'r Cyngor ac yn y ddogfen ymgynghorol statudol. Ni wnaed penderfyniad ynghylch y defnydd o safle'r ysgol pe bai'r ysgol yn cau. Caiff y broses o gael gwared o safleoedd ysgolion sydd wedi cau eu hamlinellu'n eglur mewn polisi y cytunwyd arni gan Fwrdd y Cyngor ym Medi 2009. |
| 11.3 | Buasai'n rhaid i staff yr ysgol gael gwaith yn rhywle arall/ Datgan y byddai angen mwy o staff yn Penybryn ym amheus gyda gostyngiad mewn arian a pob un o'r plant o Aberdyfi dim yn mynd i Penybryn, gan hefyd olygu llai o arian. | 2 | Mae cyllid yn ddibynnol ar ddisgyblion, felly bydd unrhyw gynnydd o ran cyllid ar gyfer Ysgol Penybryn neu unrhyw ysgol arall yn dibynnu ar nifer y disgyblion sy'n mynychu. Mae'r cynnig yn darparu ar gyfer plant sy'n drigolion Aberdyfi sy'n mynychu Ysgol Penybryn, ac felly mae'r gyllideb a gaiff ei hamcangyfrif yn dilyn gweithrediad, yn rhagdybio y bydd disgyblion cynradd sy'n trigo yn Aberdyfi yn mynychu eu hysgol ardal ddalgylch newydd yn Tywyn. |
| 11.5 | Cofrestru tir/Perchnogaeth yn cael ei gwestiynu/ Cofrestriad y safle'n wallus / Llythyr oddi wrth Seimon Williams at gadeirydd y llywodraethwyr dyddiedig 06/07/10 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch perchnogaeth y safle/ Pam cafodd tir ei gofrestru ym Mai 2010? / Pan ddigwyddodd | 3 | Mae'r Cyngor yn y broses o gofrestru'r holl dir sydd yn eu meddiant yn wirfoddol ac maent wedi gwneud hynny ers sawl blwyddyn. Cyd-ddigwyddiad ydyw mai dim ond yn ddiweddar y cafodd yr ysgol hon ei chofrestru. Mae'r Cyngor yn cofrestru ei dir yn unol â'r mannau a brynwyd a'r hyn sy'n gyfleus i'w gofrestru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hynny, ni gofrestrodd y Cyngor drosglwyddiad rhwng Richard Price Morgan a John Edward Jones, sydd yn berthnasol i'r tir sydd yn ofyn cyfreithiol. | | ar y cyd trwy diroedd cyfagos. Nid yw'r Cyngor yn cofrestru ei holl dir gyda Theitlau unigol. Mae'r Gofrestrfa Dir wedi gwneud un camgymeriad o ran y maes parcio trwy dim ond cynnwys hanner ohono. Caiff hynny ei gywiro maes o law. |
| **12** | **Dogfennau a Gafodd eu Cynnwys neu eu Dyfynnu** | | |
| 12.1 | Llyfryn 'Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bychain' wedi ei gynnwys – a gafodd yr holl ymchwil hwn ei anwybyddu? | 1 | Cyflwynodd Cymdeithas Genedlaethol Ysgolion Bychain dystiolaeth i weithgor Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2009 cyn paratoi fersiwn drafft o'r strategaeth *Addysg Ragorol ar gyfer Plant yng Ngwynedd*. Felly, cafodd tystiolaeth y Gymdeithas ei hystyried wrth lunio'r strategaeth wreiddiol ac mewn ystyriaethau dilynol. |
| 12.2 | Ymateb cyfansawdd yn cynnwys cyfeiriad at ac adrannau o<br>- Cynnwys 'Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru' – cynllun i gau Ysgol Aberdyfi yn mynd yn groes i'r cynllun hwn<br>- Gwynedd Gyda'n Gilydd 2008-12<br>- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13<br>- Strategaeth Adfywio Gwynedd 2007-13<br>- Polisïau Parc Cenedlaethol Eryri<br><br>Roedd sylwadau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar bryderon nad oedd cau Ysgol Aberdyfi yn cwrdd â'r dyheadau a amlinellir yn y dogfennau hyn. | 1 | Derbyniwyd y gall cau ysgolion gael effaith negyddol ar gymunedau lleol fel mae'r Asesiadau Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd mewn gwahanol rannau o Feirionnydd, yn tystio. Yn achos Aberdyfi, canfu'r asesiad na fyddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol sylweddol ar y pentref. Ar hyn o bryd, caiff y pentref ei wasanaethu'n dda gan ystod o fusnesau a chanolfannau diwylliannol er gwaethaf maint bychan ei hysgol. v Dylid hefyd nodi bod Trefniadaeth Ysgol yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr, ac felly addysg leol ac ar draws y Sir sy'n ysgogi'r cynnig yn bennaf. |
| 12.7 | Ni chafodd astudiaeth effaith ar iaith a'r gymuned a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd a ddyfynnir ac y sonnir amdani, ei chynnwys mewn unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd rhwng | 4 | O dan gylchlythyr blaenorol 23/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru, ni ddisgwylid i awdurdodau gynnal asesiadau effaith ar iaith a chymuned. Roedd cylchlythyr newydd, diwygiedig – 021/2009 – a gafodd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mehefin 2009 a Hydref 2009 | | ei gyhoeddi ym Medi 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau effaith ar iaith a'r gymuned o gynigion i ad-drefnu ysgolion. Gwnaed y gwaith hwn gan ymgynghorydd annibynnol yn ystod Chwefror-Ebrill 2010. |

**Cynhwysir sylwadau gan:**
**B2: Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Bryncrug**

Derbyniwyd 9 ymateb ysgrifenedig
7 Llythyr (3 Cymraeg, 4 Saesneg)
2 E-bost (2 Saesneg)

Cynhwysir sylwadau gan:
Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryncrug, Cadeirydd Merched Dysynni, Llywodraethwyr Ysgol Bryncrug, Prifathrawes Bryncrug, Cadeirydd Llywodraethwyr Bryncrug, Clwb Ieuenctid Bryncrug, Merched Y Wawr, Pwyllgor Cyngor Cymuned Bryncrug a llythyrau gan y cyhoedd.

| Cod Sylwad | Sylwadau | Nifer o ymatebion ysgrifenedig oedd yn cynnwys y sylwad | Canran ymatebion yn cynnwys y sylwad | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Cymuned** | | | |
| 1.1 | Ysgol yw calon y gymuned / Fyddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned | 2 | | Derbynnir bod pryder y gall symud ysgol o gymuned effeithio yr y gymuned. Serch hynny, disgwylir i'r ysgol ardal wasanaethu'r dalgylch gyfan a gweithredu fel catalydd i adfywiad yr ardal. |
| 1.2 | Cyfleusterau'r Ysgol yn cael ei defnyddio gan y gymuned / Unig neuadd cymunedol ar gael i holl aelodau'r gymuned / Gwrthwynebiad i cau os nad leoli'r ysgol ardal yn y pentref i ddarparu lleoliad arall / Datganiad gan 'Deilydd Portffolio Addysg' fyddai darpariaeth cymunedol yn cael ei cynnal yn Bryncrug – ond yn union pa 'darpariaeth' fydd? / Gall y neuadd gymunedol ei ddefnyddio gan y 4 cymuned | 8 | | Mae Ysgol Bryncrug yn ysgol ddynodedig gymunedol ac felly mae'r neuadd gymunedol yn rhan o adeilad yr ysgol. Rhoddwyd ymrwymiad yn ystod yr ymgynghoriad statudol ym Mryncrug y byddai'n fwriad i'r Cyngor sicrhau canolfan gymunedol ym mhentref Bryncrug beth bynnag fyddai'r penderfyniad ar leoliad yr ysgol ardal arfaethedig.<br><br>Ysgol Bryncrug yw'r ysgol gymunedol ymhlith y 4 sy'n destun i'r cynnig hwn. Disgwylir i'r ysgol ardal arfaethedig ddarparu ysgol o weithgareddau cymunedol i wasanaethu Bro Dysynni. |
| 1.3 | Pobl y pentref yn drist am gau ysgol Bryncrug ond yn derbyn hyn cyn belled fydd yr ysgol newydd yn y pentref / Rhieni, llywodraethwyr a staff wedi bod yn | 3 | | Yn gyffredinol, amcan y Cyngor fyddai i ddatblygu ysgolion gymunedol o fewn cymunedau. Serch hynny, yn yr achos arbennig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gydweithredol a cymhwysol i'r syniad o newid ond ar yr gwarant fyddai'r ysgol newydd yn pentref Bryncrug / Ddim yn fodlon i Fryncrug cau a disgyblion ei yrru i Penybryn oherwydd bod hawl i pentref gwledig i'm plant / Os yw'r ysgol ym Mryncrug dim ond cost teithio i 3 gymuned yn hytrach na 4 i safle niwtral / Roedd addewid fyddai'r ysgol ardal yn Bryncrug | | | hon, cyflwynwyd farn gryf yn yr ardal o blaid sefydlu'r ysgol ardal arfaethedig ar safle y tu allan i'r 4 cymuned. Am y rheswm hwn, aethpwyd ati i geisio sicrhau safle ger Talybont fel y safle ffafredig. Cyflwynwyd adroddiad at sylw Bwrdd y Cyngor ar 27 Gorffennaf 2010 yn amlinellu'r bwriad hyn. Yn ystod Haf 2010, daeth yn amlwg na fyddai modd gwireddu'r bwriad oherwydd cyfuniad o faterion pryniant a chynllunio. Roedd adroddiad Bwrdd y Cyngor yn cadw'r hawl i gadw dau safle arall dan ystyriaeth. Cyflwynwyd argymhelliad gerbron Bwrdd y Cyngor ar 2 Tachwedd 2010 i ffafrio Safle 9 ar gyrion Llanegryn.<br><br>Ni rhoddwyd addewid mai ym Mryncrug fyddai'r ysgol. Trafodwyd cynnig i sefydlu ysgol ardal yng nghyffiniau Bryncrug yn ystod 2007 ond gwrthodwyd y cynllun strategol oedd yn sylfaen i'r cynnig. Yn ystod yr adolygiad rhwng 2009-10 yn nalgylch Tywyn wnaeth gyflwyno'r cynnig am ysgol ardal ym Mro Dysynni, nodwyd yn glir y byddai'r Cyngor yn edrych ar safleoedd ym Mryncrug a Llanegryn a rhwng y pentrefi. |
| **2** | **Ansawdd / Addasrwydd o Adeiladau Ysgol** | | | |
| 2.1 | Bryncrug ddylai fod yn safle i'r ysgol ardal newydd, unai'r lleoliad am yr adeilad newydd neu drwy addasu'r adeiladau presennol / Ysgol gymunedol yn fwy dderbyniol, "a fyddai'r ysgol ardal yn ysgol gymunedol rhwng dau bentref?" / Arian grant yn fwy parod i ysgol ardal newydd sydd yn ysgol gymunedol | 2 | | Cyflwynwyd safbwyntiau gwahanol yn ystod yr ymgynghoriad, a cyflwynwyd dewis i Fwrdd y Cyngor (2 Tachwedd 2010) ddewis naill ai safle ar gyrion Bryncrug neu safle ar gyrion Llanegryn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | / Safle arfaethedig yn Talybont yn unig – oes unrhyw ymchwil wedi bod ar "effaith ar ddisgyblion o ysgol gynradd yn cael ei adeiladu mewn ardal unig oddi wrth adeiladau eraill?", sut gallent rhyngweithio gyda'r gymuned? | | | |
| 2.2 | Rhieni o'r pedwar ysgol arall yn fodlon i teithio i ddod a'i plant i Ysgol Feithrin Bryncrug / Plant eisioes yn defnyddio'r adeiladau | 1 | | Dealltwriaeth y Cyngor yw bod hyn yn wir |
| 2.3 | "Mae gan Cyngor Gwynedd rhai ymrwymiadau i wneud a cyfamodau o fewn prydles dyddiad 24/05/1978 i'r pwyllgor yma ynghylch a'r dyfodol hir dymor o rhannau o'r adeiladau ysgol" | 1 | | Mae Ysgol Bryncrug yn un o wyth ysgolion yn y Sir wedi ei benodi fel ysgol a adwaenir fel ysgol gymunedol. Gafodd prydles ei arwyddo yn 1978 sydd yn gwarantu bod y Cyngor yn cefnogi darpariaeth cymunedol yn y safle. Mae'r rhwymedigaeth yma dal i bodoli. |
| **3** | **Cyllid** | | | |
| 3.1 | Gwneud synnwyr cyllidol i addasu a uwchraddio Bryncrug / Medi 2010 ymlaen mae plant Abergynolwyn yn Bryncrug sydd yn meddwl fydd yr Ysgol gyda cynnwys dau ysgol yn barod / Faint yn fwy fydd y gost i adeiladu ysgol newydd yn Talybont ynglyn a'r lolefydd parcio a ffensio ayyb / Cost o cludo holl blant i Talybont, oherwydd ni all unrhyw un gerdded | 2 | | Penderfynwyd Bwrdd y Cyngor yn Tachwedd 2010 i ffafrio lleoliad y safle ar gyrion pentref Llanegryn.<br><br>Trosglwyddiad o ddisgyblion Abergynolwyn i Ysgol Bryncrug, tra'n darparu grwpiau dysgu fwy cadarn, ddim yn hanfodol effeithio'r cynnig gwreiddiol. Mae'r tri ysgol ar ôl yn addysgu 30 neu llai o ddisgyblion oedran 4-11 a'r teimlad yw bod y cynnig gwreiddiol i greu ysgol ardal newydd yn cynnig yr ateb orau. |
| **4** | **Proses Ymgynghorol** | | | |
| 4.1 | Camwybodaeth wedi derbyn yn ystod cyfarfodydd statudol / Sefydliadau allanol heb cael ei hysbysu | 6 | | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion statudol ac arweiniad Llywodraeth y Cynulliad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nac ymgynghori o'r posibilrwydd o gau / Cais am gyfarfod cyhoeddus i drafod parhad o gyfleusterau neuadd gymunedol / Siom bod cyfarfodydd heb ei gynnal oedd yn cynnwys sefydliadau sydd yn gwneud defnydd o'r ysgol | | | Anfonwyd gopïau o'r ddogfen ymgynghorol statudol at ymgynghorai, cyhoeddwyd hwy ar y we ac roeddent ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus |

**B3: Ymateb i Ymgynghoriad Statudol i'r Cynnig i Gau Ysgol Llanegryn**

Derbyniwyd 12 ymateb ysgrifenedig:
10 Llythyr (6 yn Gymraeg, 4 yn Saesneg)
2 E-bost (1 yn Gymraeg, 1 yn Saesneg)

Sylwadau'n cael eu cynnwys gan:
2 Lywodraethwr o Ysgol Llanegryn, Corff Llywodraethol Ysgol Llanegryn, Pennaeth mewn gofal Ysgol Llanegryn, Cyngor Cymuned Llanegryn, 4 llythyr gan rieni a 3 oddi wrth y cyhoedd

| Cod Sylwadau | Sylwadau | Nifer o ymatebion ysgrifenedig oedd yn cynnwys y sylw | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Addysgol** | | |
| 1.1 | Mae Ysgol Llanegryn yn ysgol ragorol / Yn darparu addysg o'r safon uchaf// Mae'r atharwon yn glod i'r ysgol – maent yn sicrhau ei llwyddiant - / Mae llawer o'r plant yn derbyn addysg Prifysgol – pwysig cael dechrau da / Plant, athrawon a'r holl staff fel teulu mawr/Disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol | 4 | Mae'n wir bod Ysgol Llanegryn yn darparu addysg o ansawdd da. Caiff y cynnig i gau Ysgol Llanegryn a sefydlu ysgol ardal i wasanaethu Bro Dysynni ei ysgogi gan yr angen i sicrhau y caiff safonau eu cynnal yng ngwyneb gostyngiad yn nifer disgyblion ac i ddarparu cyfleusterau addysgol sy'n briodol ar gyfer cyflwyno addysg yn y 21g. |
| 1.2 | Ysgolion bychain yn cyfrannu at well ymddygiad gan ddisgyblion/dim ymddygiad gwrth-gymdeithasol. | 1 | Gall ysgolion mawr ac ysgolion bach gefnogi datblygiad disgyblion, yn cynnwys ymddygiad priodol. |
| 1.4 | Rhaid i'r ysgol ardal arfaethedig fod ar gyfer disgyblion y pedair ysgol yn unig – ni ddylid rhoi mynediad i ddisgyblion o Aberdyfi / Penybryn ayb. | 1 | Caiff yr ysgol ardal arfaethedig ei chynllunio i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n byw ym mhedwar dalgylch Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril. Caiff disgyblion o'r dalgylchoedd hyn y cynnig cyntaf i dderbyn lleoedd yn yr ysgol newydd. Golyga dewis i rieni y gall rhieni ddewis anfon eu plant i unrhyw ysgol ond dim ond os oes lle yn yr ysgol a ddewisir. |
| 1.5 | Pryder y byddai meintiau dosbarth yn sylweddol fwy yn yr ysgol ardal arfaethedig | 1 | Ar hyn o bryd mae maint dosbarthiadau yn Ysgol Llanegryn tua 16. Mae Mae'r rhagolygon a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gynhwysir yn yr ymgynghoriad statudol yn rhagfynegi bydd tua 95 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar draws o leiaf pedwar dosbarth. Felly, gallai meintiau dosbarth fod tua 23. |
| 1.6 | Buasai cau'r ysgol yn dileu darpariaeth meithrin lleol ar gyfer plant 3 oed heb ddarparu cludiant i'r ysgol ardal arfaethedig, byddai rhai yn cael eu hamddifadu o'r ddarpariaeth gan na allant gyrraedd yr ysgol newydd | 1 | Nid yw darpariaeth meithrin yn statudol ac felly nid oes raid darparu cludiant. Fodd bynnag, os oes lleoedd ar fysiau i'r ysgol ardal, gall plant oed meithrin ddefnyddio'r bws. |
| 1.7 | Mae'r plant yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod ar hyn o bryd, cymer pob plenrtyn ran mewn dramêu ysgol ac maent yn plannu ac yn casglu llysiau yn yr ardd – cymryd rhan mewn sioe arddio flynyddol/ / Buasai hyn yn cael ei golli mewn ysgol fwy/Hefyd cymryd rhan mewn gwasanaethau eglwysig yn Gymraeg a Saesneg | 3 | Nid oes sail dros dybio y caiff plant eu hamddifadu o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath wrth symud ysgol o tua 30 o ddisgyblion i un gyda tua 90 o ddisgyblion. |
| **2.** | **Lles Plant** | | |
| 2.1 | Plant eisoes wedi cynhyrfu ac yn ddryslyd ynghylch pam bod eu hysgol yn cau | 1 | Mae'n benderfyniad anodd cau ysgol a rhoddir llawer o ystyriaeth cyn gwneud hynny. Mae'n ddyletswydd ar bawb sydd a diddordeb mewn lles plant, eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor gefnogi disgyblion, staff ac eraill yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol newydd os yw'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen. |
| **3.** | **Cefndir Hanesyddol yr Ysgol** | | |
| 3.1 | Mae Ysgol Llanegryn sydd yn 350 mlwydd oed, yn un o'r ysgolion hynaf yng Ngwynedd. | 5 | Mae'r ysgol ymhlith yr hynaf yn y Sir. |
| **4.** | **Iaith** | | |
| 4.1 | Mae Ysgol Llanegryn / ysgolion gwledig bychain yn gyffredinol yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg/plant yn Llanegryn yn rhugl yn y | 4 | Disgwylir i holl ysgolion Gwynedd ddilyn Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae ysgolion mawr a bach yn llwyddo yn hyn o beth. Dylid nodi cafodd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gymraeg | | yr ysgol ardal arfaethedig gefnogaeth gan y byddai'n rhoi'r dewis i rieni o addysg wledig ar gyfer eu plant. Byddai tua 95 o ddisgyblion yn yr ysgol newydd, sef maint cyfartalog ysgolion y sir. |
| **5.** | **Materion Cymunedol** | | |
| 5.1 | Cai cau'r ysgol effaith negyddol ar gymeriad y pentref / Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r pentref a'r gymuned/ Mae plant yn aelodau gweithredol o'r gymuned/ Mae cymunedau'n bwysicach nac arian; mae gan blant hawl i gael eu haddysgu o fewn eu cymuned/ Yr ysgol yw calon y pentref/ Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned/buasai'r pentref yn troi'n bentref tai gwyliau ar gyfer mewnfudwyr cyfoethog/Byddai cymeriad y pentref yn newid | 6 | Buasai disgyblion Ysgol Llanegryn yn symud i ysgol newydd, bwrpasol yn ardal Llanegryn.<br><br>Bydd plant Llanegryn children yn dal i gael eu haddysgu o fewn dalgylch Dysynni, a dim mwy nac ychydig o gannoedd o lathenni o'r ysgol bresennol. Bydd gwariant cyhoeddus sylweddol ar yr ysgol ardal newydd a bydd yn adnodd modern ar gyfer y gymuned a fydd yn fodd i adfywio'r ardal.<br><br>Tra gall ysgol wneud cyfraniad sylweddol i fywyd y gymuned, ei diben pennaf ddylai darparu'r addysg orau bosibl ar gyfer ei disgyblion. Er hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned yn unol â disgwyliadau'r Llywodraeth. Cafodd y adroddiad ei rhannu gyda'r rhai mae o ddiddordeb iddynt. Mae'r adroddiad yn amlinellu sawl cam y gellid eu cymryd i liniaru'r effeithiau negyddol y tybir fydd yn deillio o gau'r ysgol.<br><br>Derbynnir ceir pryderon y gall cau ysgol gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd angen i'r ysgol ardal newydd arfaethedig ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau â'r cymunedau hynny mae'n eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethu. Ceir enghreifftiau niferus o arfer dda mewn ardaloedd a wynebai ad-drefnu ysgolion yn ystod y 1960au ac sydd wedi cynnal cysylltiadau cryf â'r holl gymunedau a fu'n rhan o hynny.<br><br>Cynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar y gwahanol opsiynau dan ystyriaeth yn ardal Tywyn. Cafodd yr adroddiad ei rhannu â'r sawl oedd a diddordeb yn hyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu sawl cam y gellid eu cymryd i liniaru effeithiau negyddol y tybir y gallai cau ysgolion eu cael.<br><br>Ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r ysgol gan y gymuned tu allan.<br><br>Ceir enghreiffftiau niferus o arfer dda mewn ardaloedd oedd yn wynebu ad-drefnu ysgolion yn ystod y 1960'au ac maent wedi cynnal cysylltiadau cryf â phob cymuned a fu'n rhan o hynny. |
| **6.** | **Lleoliad yr Ysgol Ardal Newydd** | | |
| 6.1 | Nodi cefnogaeth ar gyfer safle niwtral yn cynnwys ystyriaeth benodol safle Talybont (safle 8) / Dylai'r safle fod tu allan i bob pentref / Ni fydd ysgol ardal ond yn llwyddo os yw'n annibynnol/ Anfodlon i Lanegryn gau os yw'r ysgol ardal yn cael ei lleoli yn rhywle arall/ Angen bod o fewn cyrraedd rhesymol i'r pentref/ Gwrthwynebiad i gau'r ysgol a throsglwyddo plant i ysgol arall/ amau mai hyn yw bwriad y Cyngor/ Dicter bod ysgol bresennol Bryncrug dan ystyriaeth – dylai fod yn adeilad newydd / Cefnogi'r cysyniad o ysgol ardal newydd | 8 | Mae'r cynnig yn amlinellu bwriad y Cyngor i ddatblygu ysgol newydd i wasanaethu'r pedair cymuned. Nod cyffredinol y Cyngor fyddai datblygu ysgolion cymunedol o fewn cymunedau. Fodd bynnag, yn yr achos arbennig hwn, roedd barn gref yn yr ardal o blaid sefydlu'r ysgol ardal arfaethedig ar safle tu allan i'r 4 cymuned. O'r herwydd, gwnaed ymdrech i sicrhau safle ger Talybont fel y safle a gâi ei ffafrio. Cyflwynwyd adroddiad at sylw Bwrdd y Cyngor ar 27 Gorffennaf 2010, yn amlinellu'r bwriad. Yn ystod Haf 2010, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyhyd a'i bod yn newydd sbon ac yn darparu'r cyfleusterau gorau posibl | | daeth yn amlwg na ellid sylweddoli'r amcan hwn oherwydd cyfuniad o faterion prynu a materion cynllunio. Roedd adroddiad Bwrdd y Cyngor yn crybwyll y gellid cadw dau safle arall o dan ystyriaeth. Cyflwynwyd argymhelliad i Fwrdd y Cyngor ar 2 Tachwedd 2010 o blaid Safle 9 ar gyrion Llanegryn.<br><br>Cyflwynodd yr awdurdod lleol gais llwyddiannus am gyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru gwerth £5.5m yn ystod haf 2010. Bydd y grant yn cyllido adeiladu ysgol ardal newydd ynghyd â gwaith gwneud gwelliannau i Ysgolion Penybryn, Dyffryn Dulas a Corris, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad statudol.<br><br>Y cynnig a gyflwynir yw ar gyfer ysgol ardal newydd i wasanaethu'r pedair cymuned ac i'w lleoli yn ardal Bryncrug/Llanegryn. Ni fu erioed yn fwriad gan y Cyngor i drosglwyddo plant i ysgol sy'n bodoli eisoes. |
| 6.2 | Mae safle arfaethedig yr ysgol ardal newydd yn Bryncrug yn dueddol o gael llifogydd / Dim yn gallu rhoi cefnogaeth i'r ysgol ardal newydd a gynigir oherwydd diffyg safle penodol/dim caniatâd cynllunio / dim trafodaeth gyda pherchennog y tir/ ni ddylid bod wedi ei gynnig i lywodraethwyr a rhieni heb fod safle arfaethedig mewn lle/ Angen i'r Cyngor benerfynu a chael caniatâd cynllunio a drafft cynllunio/ Cynnig safleoedd eraill yn Llanegryn / Mae lle i ymestyn ar safle cyfredol yr | 7 | Mae'r broses o nodi safle ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig wedi golygu llawer o waith technegol, trafodaethau gydag asiantaethau perthnasol (yn cynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Asiantaeth yr Amgylchfyd), tirfeddianwyr a cynrychiolwyr ysgol a'r gymuned. Cafodd y rhestr hir wreiddiol o 20 o safleoedd posible ei chwtogi i 9 erbyn Gwanwyn 2010 a trafodwyd y safleoedd hyn gyda llywodraethwyr yr ysgol. Erbyn y cyfnod ymgynghori statudol dros Haf 2010, roedd tri safle |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgol – a gafodd hynny ei ystyried? / Mae t^y^'r ysgol sydd yn rhan o'r ysgol ar werth a gellid ei brynu a buasai hynny yn gwneud y safle'n ddigon mawr ar gyfer y 4 ysgol/ Mae nifer o'r safleoedd arfaethedig yn anaddas | | yn dal dan ystyriaeth. Mae'r Cyngor yn hyderus bod y safle a ddewiswyd yn cwrdd â'r gofynion technegol. |
| 6.3 | Cyfleuster preswyl ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu/sy'n derbyn moddion a allai roi disgyblion mewn perygl | 1 | Ni cheir tystiolaeth na rheswm dros ddisgwyl bydd hyn yn broblem i'r ysgol. |
| **7.** | **Cludiant** | | |
| 7.1 | Pryder na ddarperid unrhyw oruchwyliaeth ac eithrio gan y gyrrwr ar fysiau. | 2 | Ar hyn o bryd, mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd yng Ngwynedd yn teithio i'r ysgol ar fws. Mae'r awdurdod yn cytuno ar gytundebau cludiant gyda darparwyr unigol. Nid yw'n mynnu ar hyn o bryd bod angen gwregysau diogelwch ar fysiau na dylid goruchwylio. |
| 7.2 | Byddai cludo plant ar fysiau yn atal rhieni rhag cael y cyfle i sgwrsio ger llidiart yr ysgol. | 1 | Mae safle arfaethedig yr ysgol newydd ar gyrion pentref Llanegryn. |
| 7.3 | Gofyn am warantu cludiant am ddim i blant Llanegryn i'r ysgol ardal newydd | 1 | Caiff disgyblion eu cludo i'r ysgol ardal arfaethedig yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor. |
| 7.4 | Cynnig y dylid adeiladu llwybrau beicio/cerdded o Lanegryn i safle'r ysgol newydd. | 2 | Mae safle arfaethedig yr ysgol newydd ar gyrion pentref Llanegryn. |
| 7.5 | Dylid sicrhau bod mesurau tawelu trafnidiaeth o amgylch safle'r ysgol ardal | 1 | Bydd materion diogelwch o'r pwys mwyaf wrth gynllunio'r mynedfeydd i'r ysgol. |
| **8.** | **Y broses a Gwybodaeth ynghylch Ymgynghoriad** | | |
| 8.1 | Cafodd y broses ymgynghorol effaith negyddol ar y berthynas rhwng y pedwar pentref/ Pryder ynghylch y dull o ad-drefnu yn nalgylch Tywyn / Ffordd mae Cyngor Gwynedd wedi gwthio'r syniad o ysgol ardal wedi bod yn niweidiol / Ansicrwydd ynghylch lleoliad a phenderfyniadau yn cael effaith | 3 | Derbynnir bod y broses wedi peri ansicrwydd a pheth tyndra. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gau'r ysgolion, bydd yr Adran Addysg yn ymgymryd â phecyn o weithgareddau wedi eu cynllunio i sefydlu'r ysgol ardal newydd a hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr ysgolion a'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | negyddol ar yr ysgol | | cymunedau yn y cyfnod yn arwain at agor yr ysgol newydd. |
| 8.2 | Dim rheswm i gau ysgol gyda dros 30 o ddisgyblion yn mynychu / Nifer plant yn yr ysgol yn bur uchel o ystyried ei maint; Llanegryn yn cael ei chlustnodi'n unig oherwydd bod niferoedd isel mewn ysgolion eraill (Bryncrug & Abergynolwyn) | 2 | Ceir llai na 35 disgybl yn y pedair ysgol sy'n destun y cynnig hwn ac felly maent oll angen cyllid ychwanegol er mwyn sicrhau lleiafswm lefel staffio yn unol â pholisi'r Cyngor. |
| 8.3 | Nid yw rhagamcanestyniadau o boblogaeth ysgol yn wyddor fanwl / mae nifer disgyblion yn newid | 2 | Mae rhagamcanestyniadu'r cyngor yn seliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu'n uniongyrchol gan yr ysgol. Nid yw nifer disgyblion yn Llanegryn wedi bod dros 35 yn ystod y 35 mlynedd diwethaf. |
| 8.4 | Pryder ynghylch trosglwyddo disgyblion Ysgol Abergynolwyn i Ysgol Bryncrug o Fedi 2010 / Awgrym bod rhieni Abergynolwyn wedi cael eu gorfodi gan y Cyngor i anfon eu plant i Bryncrug gan mai dim ond ar gyfer yno mae cludiant wedi ei ddarparu | 1 | Yn dilyn trafodaethau gyda'r llywodraethwyr a'r pennaeth, penderfynodd Rhieni disgyblion Ysgol Abergynolwyn symud eu plant i Ysgol Bryncrug erbyn Medi 2010. Ni roddodd y Cyngor unrhyw bwysau ar rieni i drosglwyddo disgyblion. |
| 8.5 | Sawl camgymeriad mewn dogfennau sy'n aros hyd yn oed ar ôl dosbarthu'r ddogfen yn cynnwys newidiadau / Ni roddwyd llawer o amser i ymateb. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 09/06/10 ar 13/07/10 a gofyn am ymatebion erbyn 30/07/10 / Derbyniwyd gwybodaeth ynghylch lleoliad ar 13/07/10 a arweiniodd at orfod trefnu cyfarfod o'r Llywodraethwyr ar fyr rybudd / Derbyn llythyr yn sôn am 4 lleoliad ond dim ond 3 map yn y cyfarfod; beth yw'r pedwerydd dewis? | 1 | Cymerwyd camau i gywiro gwallau yn y ddogfennaeth ymgynghori wreiddiol, yn cynnwys ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno ymatebion. Rhoddwyd rhybudd ynghylch cychwyn y cyfnod ymgynghorol yng nghanol Mai a cynhaliwyd cyfarfod paratoi ym mis Mai. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 7 Mehefin a 13 Awst. Roedd yr amser a roddwyd yn ddigonol yn ôl canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **9.** | **Cymharu â Gwledydd Eraill** | | |
| 9.1 | Awgrymu bod Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn cefnogi ysgolion pentref bychan tra nad ydyw Cymru yn gwneud hynny. | 1 | Nid yw Gwynedd wedi cynnal adolygiad sylweddol o ddarpariaeth ysgol gynradd mewn 40 mlynedd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill ar draws |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y DU wedi cynnal adolygiadau o'r fath ac wedi cau sawl ysgol dros y cyfnod hwnnw. |
| **10.** | **Cyllid** | | |
| 10.1 | Dim cyfiawnhad dros adeiladu ysgol newydd o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol / Ni fyddai cau'r ysgol yn arbed arian/ Y gost o adeiladu ysgol newydd yn uwch na'r gost o redeg yr ysgolion presennol | 2 | Cafodd yr arbedion refeniw a ragwelid o weithredu'r cynnig eu nodi yn y ddogfen ymgynghorol. Rhagwelir y bydd y cynnig yn arbed tua £164,000 yn flynyddol ar ôl cymryd cynnydd mewn costau teithio i ystyriaeth.<br><br>Byddai adeiladu ysgol newydd yn fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn ardal wledig o Wynedd a dylai ysgogi adfywio'r ardal. |

**B4: Ymateb i Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgol Llwyngwril**

Derbyniwyd 113 o ymatebion ysgrifenedig:

| | |
|---|---|
| 64 | llythyrau (60 Saesneg, 4 Cymraeg) |
| 13 | E-bost (12 Saesneg, 1 Cymraeg) |
| 34 | Holiadur (34 Saesneg) |
| 1 | Gweithred Swyddogol y Bonheddwr o Dŷ Cainnech |
| 1 | Gwaith celf |

Cafwyd sylwadau hefyd gan:
Cyngor Cymuned Llangelynnin a Llywodraethwyr Ysgol Llwyngwril

| Côd sylw | Sylwadau | Nifer o ymatebion ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y sylw | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| | Holiadur- holiadur aelod cymuned | 34 | |
| | Gweithred Swyddogol y Bonheddwr o Dŷ Cainnech 7fed Safon: "Deddf i geisio Ailymweliad Swyddogol o'r ymgynghoriad ar gyfer cau Ysgol Llwyngwril (ac eraill) yng ngoleuni camsyniad posib o dan y canllawiau cynnig trefnu ysgolion". | 1 | Cafodd y rhain eu dylunio a'u cylchredeg gan aelodau cymuned Llwyngwril. Mae'r holiaduron wedi eu hatgynhyrchu yn y pecyn o bapurau cefndirol sydd ar gael i aelodau etholedig. |
| | Gwaith celf | 1 | |
| **1** | **Cymuned** | | |
| 1.1 | Mae'r ysgol wrth galon y gymuned leol/ac yn creu ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol / buasai colli ysgol yn niweidiol i'r gymuned leol ac i genedlaethau o breswylwyr/ Mae'r ysgol yn dod â'r gymuned at ei gilydd mewn amryfal ddigwyddiadau/ yr ysgol sy'n cadw'r bobl ifanc yn y pentref | 62 | Buasai disgyblion Ysgol Llwyngwril yn trosglwyddo i ysgol newydd, bwrpasol yn ardal Llanegryn/Bryncrug. Bydd yr ysgol newydd yn seiliedig ar y gymuned ac yn ganolbwynt i gymuned ehangach Bro Dysynni.<br><br>Eisoes mae dros 35% o blant oed ysgol gynradd Llwyngwril yn mynd i ysgolion eraill y tu draw i Lwyngwril.<br><br>Derbynnir bod pryderon y gall cau ysgol gael effaith negyddol ar y gymuned leol, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Bydd raid i'r ysgol arfaethedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hoelio sylw ar sefydlu cyswllt gyda'r cymunedau hynny y mae'n eu gwasanaethu. Mae sawl enghraifft o ymarfer da yn yr ardaloedd a brofodd ad-drefnu ysgolion yn y 1960au ac maent wedi cynnal cyswllt cadarn gyda'r cymunedau cyfansoddol.<br><br>Paratowyd asesiad ardrawiad llawn ar yr amryfal opsiynau a ystyriwyd yn i ardal Tywyn. Rhannwyd yr adroddiad ymhlith y cydranddeiliaid. Yn yr adroddiad nodir sawl cam y mae modd ei gymryd i liniaru effaith negyddol ganfyddiadol cau ysgolion.<br><br>Ychydig iawn o ddefnydd a wna'r gymuned ehangach o'r ysgol. |
| 1.2 | Os ydyw'r ysgol yn cau yn fe fydd y pentref yn datblygu'n hafan i brynwyr ail gartrefi ac i bobl wedi ymddeol / wedyn bydd y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ifanc. | 20 | Mae'r patrwm hwn eisoes i'w weld yn Llwyngwril a rhannau eraill o Fro Dysynni. I ryw raddau mae niferoedd isel y disgyblion yn ganlyniad y patrwm hwn. |
| 1.3 | Buasai tai fforddiadwy newydd yn Llwyngwril yn denu rhagor o deuluoedd ifanc ac yn hwb i nifer y disgyblion yn yr ysgol – fe ddylai Cyngor Gwynedd fod yn gwario'r arian ar dai fforddiadwy | 3 | Mae angen tai fforddiadwy newydd yn yr ardal ac mae swyddogion y Cyngor wrthi'n gweithio ar ddynodi angen ac ymateb i'r angen canfyddedig. |
| 1.4 | Mae cau'r ysgol yn debygol o gael effaith negyddol ar fusnesau lleol, a gallai hynny daro'r henoed yn y gymuned. | 10 | Anodd mesur beth fydd effaith cau ysgol ac ynddi 24 o ddisgyblion ar economi'r pentref. Ar hyn o bryd nid oes cyflogwyr mawr yn y pentref ond ceir ychydig o fusnesau bach sy'n gwasanaethu preswylwyr yr ardal ac ymwelwyr. Eisoes mae cyfran fawr o blant Llwyngwril yn mynd i ysgolion eraill. |
| 1.5 | Mae ysgol ardal newydd yn debygol o weld | 2 | Yn ôl tystiolaeth siroedd eraill mae rhieni a'r gymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gostyngiad sylweddol yn y gweithgareddau codi arian yn y cymunedau lleol. | | ehangach yn parhau i fod yn gefnogol i'r ysgol y mae eu plant yn mynd iddi. Buasai gofyn i'r ysgol ardal newydd arfaethedig sefydlu perthynas gref gyda'i chymunedau cyfansoddol. |
| **2** | **Addysg** | | |
| 2.1 | Mae staff Llwyngwril yn gyfeillgar ac yn llawn gofal am y plant a'u haddysg, mae plant sensitif yn wynebu risg fwy y cânt eu bwlio mewn ysgol fawr. | 6 | Rhagwelir y bydd yn yr ysgol ardal newydd arfaethedig o gwmpas 95 o ddisgyblion yn 2013/4, o gofio faint o ddisgyblion sy'n mynychu'r pedair ysgol a hefyd y rheini sydd, ar hyn o bryd, yn mynd i ysgolion eraill ond yn gymwys y fynychu'r pedair ysgol. Nid yw hon yn ysgol fawr. 'Does dim sail i gredu y bydd staff yn llai eu gofal am y plant, nac y bydd plant yn fwy tebygol o gael eu bwlio mewn ysgol ac ynddi 95 o ddisgyblion. |
| 2.2 | Safon yr addysg yn rhagorol – adroddiadau – ESTYN. | 23 | Cafodd Ysgol Llwyngwril adroddiad arolwg da gan ESTYN yn yr hydref 2009. Buasai'r ysgol ardal newydd arfaethedig yn darparu'r offer diweddaraf, grŵp mwy o gyfoedion ac ystod ehangach o arbenigedd dysgu. 'Does yna'r un rheswm i gredu na fydd yr addysg yn yr ysgol newydd o leiaf cystal â'r addysg bresennol yn Ysgol Llwyngwril. |
| 2.3 | Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol yn yr ysgol yn meithrin myfyrwyr sy'n effro'n amgylcheddol. | 1 | Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chodi yn ôl y manylion diweddaraf a chyda chydnabyddiaeth BREEAM ragorol. Bydd yr adeilad newydd yn anelu at sicrhau cydnabyddiaeth ynni DEC A a bydd hefyd yn gostwng, yn sylweddol, y gollyngiadau carbon cysylltiedig. Y gofynion BREEAM fydd yn pennu a oes angen mannau cynefin a nifer o fuddiannau amgylcheddol eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.4 | Mae dosbarthiadau llai yn golygu y bydd mwy o gyswllt gyda'r athro ac addysg o safon uwch, ac mae'r plant yn hapusach mewn ysgol fechan. | 8 | Buasai cyllideb rhagamcanedig yr ysgol – yn seiliedig ar 95 o ddisgyblion – yn darparu o leiaf bedwar dosbarth, ond mater i'r corff llywodraethol yw penderfynu sut i ddefnyddio adnoddau. Felly ni fuasai dim mwy na 24 o ddisgyblion mewn dosbarth. Ar hyn o bryd mae'r dosbarthiadau yn Llwyngwril yn darparu ar gyfer tua 12 o ddisgyblion llawn amser. 12 yw'r dosbarth lleiaf bosib a ddisgwylir dan ddogfen strategaeth Gwynedd *Addysg Ardderchog i Blant Gwynedd*. |
| 2.5 | Plant yn mynychu "Ti a Fi"= dyfodol disglair i'r ysgol. | 1 | Bydd y Cyngor yn hyrwyddo sefydlu "Ti a Fi" a darpariaeth feithrin yn yr ardal. |
| 2.6 | Nid yw'n bosib i'r plant sy'n mynychu Ysgol Llwyngwril dderbyn gwell gofal na gwell addysg yn unman yn y DG. Dim gwell na'r hyn a gânt yn Ysgol Llwyngwril. Mae adroddiad diweddaraf ESTYN dyddiedig Medi 2009 yn cadarnhau hyn. | 1 | Ysgol Llwyngwril wedi cael arolwg ESTYN yn 2009 ac ynddo beth tystiolaeth o welliant ar ôl yr arolwg diwethaf yn 2003. Yn y saith maes arolwg allweddol cafodd yr ysgol bum graddfa 2 a dwy raddfa 3. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gydag un ysgol ac yn anffafriol gyda'r llall o'r ddwy sy'n berthnasol i'r cynnig hwn. |
| **3** | **Ansawdd/Addasrwydd adeilad yr ysgol** | | |
| 3.1 | Mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr da a chyda chyfleusterau priodol e.e. caeau chwarae. | 10 | Mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr da. Fodd bynnag ni all ddarparu'r cyfleusterau hynny a ddisgwylir yn y 21ain ganrif. Mae angen buddsoddiad i godi safon y cyfleusterau a hyn yn cynnwys neuadd briodol, ardal cyfnod sylfaen a TGCh, ystafelloedd i'r prifathro/staff a swyddfa ar gost a amcangyfrifir dros £200,000. Ar draws y 4 ysgol mae ôl-groniad cynnal a chadw £170,000, mae angen gwario £40,000 ar ragofalon tân, £61,000 i sicrhau bod y ddwy ysgol yn cwrdd â gofynion DDA, a £530,000 i wneud yr adeilad yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | addas i'r pwrpas. Felly mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen gwario mwy na £800,000 ar adnewyddu ac uwchraddio adeiladau'r pedair ysgol. |
| 3.2 | Mae cynllun taliadau bwydo ynni yn ei gwneud yn bosib i gael gwared o filiau trydan ac yn rhoi incwm uniongyrchol drwy wyliau'r ysgol/ Gellid ailddylunio'r system wresogi i gydymffurfio â'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy sydd ar fin dechrau y flwyddyn nesaf a bydd yn gweithio ar yr un sail â'r Cynllun taliadau bwydo ynni. Mae'r ysgol hefyd yn cynnwys nodweddion dyluniad Bioclimatig i wella goleuo naturiol a chyflenwi gwres goddefol o'r haul i'r adeilad (cynigiwyd yr uchod ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori statudol ond mae wedi'i gynnwys yma er mwyn bod yn gyflawn) | 2 | Bydd yr ysgol ardal newydd yn cael ei hadeiladu i'r safon amgylcheddol uchaf. Bydd defnydd effeithlon o ynni a phosibiliadau ar gyfer ei gynhyrchu yn rhan o'r broses ddylunio ac yn naturiol rhoddir sylw i fanteisio ar FIT ac RHI. Mae dadansoddiad cychwynnol o gynnig a gafodd ei dderbyn ar ôl cau'r cyfnod ymgynghori statudol yn awgrymu y byddai addasu adeilad yr ysgol yn unol â'r cynnig yn costio tua £120,000 yn ychwanegol at y gwaith addasu sy'n aros. Dylid nodi tra y gallai'r cynnig ostwng y costau o wresogi a goleuo'r ysgol, mae trwch y costau refeniw yn cael eu cynhyrchu gan gostau staffio ac ni fyddai'r rhain yn cael eu gostwng. Gallai unrhyw arbedion sydd wedi'u dynodi o gynllun o'r fath gael eu gweithredu yn yr ysgol ardal newydd tra'n gwneud arbedion refeniw sylweddol hefyd.<br><br>Nid yw'r cynnig yn rhoi sylw i rai o'r materion allweddol oedd yn ffurfio'r sail ar gyfer refeniw dalgylch Tywyn, sef:<br><br>• Maint ysgol a dosbarth<br>• Addasrwydd a chyflwr adeilad yr ysgol. Ni fyddai'r cynnig yn osgoi'r angen am fuddsoddiad ychwanegol o tua £210,000 i addasu ac uwchraddio'r adeilad presennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Ysgol wedi cael anawsterau wrth recriwtio prifathrawon am lawer o flynyddoedd, a thrwy gynnal y nifer o ysgolion byddai hyn yn parhau'n broblem<br>• Cyllideb fesul disgybl yn parhau ar tua £5174 sy'n llawer uwch na chyfartaledd y Sir ar £3391<br>• Llefydd gweigion<br><br>Am y rhesymau uchod nid yw'r adroddiad ynddo'i hun yn cynnig digon o dystiolaeth i ailystyried y cynnig. |
| 3.3 | Sut y cyllidir costau cynnal a chadw safle'r ysgol ar ôl cau? | 1 | Mae ysgolion yn derbyn cyllideb flynyddol i gynnal a chadw, a bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r ysgol ardal newydd arfaethedig. Bydd yr adeilad yn un newydd ac felly yn osgoi costau cynnal a chadw a chostau uwchraddio sylweddol yr eid iddynt yn ysgol Llwyngwril a'r tair ysgol arall y mae'r cynnig gerbron yn berthnasol iddynt.<br><br>Os gweithredir ar y cynnig i gau Ysgol Llwyngwril, penderfynir ar y defnydd a wneir o'r safle ar ôl y cau yn unol â pholisi'r Cyngor (fel y cytunwyd ar hyn yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 15 Medi 2009). |
| 3.4 | Ychydig iawn o wahaniaeth a wna'r adeilad i addysg y plant. | 3 | Yn amlwg nid yw hyn yn gywir. Yn adroddiad Estyn 2007 *"Gwerthusiad o berfformiad ysgol cyn ac ar ôl symud i adeilad neu eiddo newydd a adnewyddwyd yn sylweddol"* nodwyd gwelliant sylweddol yng nghyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yr ysgolion a symudodd i ysgolion newydd neu rai a adnewyddwyd yn sylweddol a dangosodd arolygon Estyn, ar ysgolion unigol, bod ansawdd yr addysgu'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwella, bod ysbryd y staff yn gwella, bod lefelau mynychu'n cael eu cynnal a'r ymddygiad yn well a bod adeiladau newydd yn creu gwell dewis a gwell darpariaeth o ran addysg yn yr ysgol ac o ran gweithgareddau cyn ac ar ôl yr ysgol. |
| **4** | **Gwybodaeth/ Ystadegau** | | |
| 4.1 | Potensial o gynnydd mewn niferoedd yn ôl y nifer o gyplau ifanc yn y pentref | 2 | Mae Ysgol Llwyngwril wedi darparu ei ragamcanion disgyblion ei hun i'r cyfnod 2008-2013. Mae'r rhagamcanion hyn yn rhagweld dirywiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol, tuedd a adlewyrchir yn y tair ysgol arall sy'n destun i'r cynnig hwn. |
| **5** | **Cyllid** | | |
| 5.1 | Newydd gael ei huwchraddio y mae'r ysgol – gwastraff arian os ydyw'r ysgol yn cael ei chau. | 4 | Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod adeiladau'r ysgolion i gyd yn addas i'r pwrpas. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi derbyn arian cyfalaf a chynnal a chadw yn y blynyddoedd diwethaf. Yn rhaglen newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru – Ysgolion y 21ain Ganrif – disgwylir i adeiladau'r ysgolion gael eu huwchraddio a'u haddasu'n sylweddol i gwrdd â'r gofynion newydd. |
| 5.2 | O ble y daw'r arian i godi ysgol newydd – mae modd arbed mwy trwy lynu wrth y sefyllfa bresennol. | 5 | Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo gyda chais am grant cyfalaf £5.6m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod haf 2010. Bydd y grant yn talu am godi ysgol ardal newydd ac am wella Ysgolion Penybryn a Dyffryn Dulas, Corris yn amodol ar gwblhau Ymgynghoriad Statudol. Buasai'r cynnig yn arbed £164,000 yn flynyddol yn y gyllideb refeniw i'r ysgolion ac yn osgoi gorfod gwario dros £800,000 ar adnewyddu ac uwchraddio adeiladau presennol y pedair ysgol. |
| 5.3 | 'Dyw'r costiadau i'r ysgol ardal newydd | 2 | Mae'r costiadau'n seiliedig ar addysgu 95 o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | arfaethedig ddim yn gywir | | ddisgyblion yn yr ysgol. Eglurwyd sut yr amcangyfrifwyd y gyllideb yng nghyfarfodydd Panel Adolygu'r Dalgylch a hefyd mewn cyfarfodydd yn yr ysgol. Os ydyw'r ysgol yn darparu addysg i fwy na 95 yna bydd cynnydd yn ei chyllideb. Os ydyw'n darparu ar gyfer nifer is yna bydd gostyngiad yn y gyllideb. Yn y costiadau a gyflwynwyd i'r Panel Adolygu'r Dalgylch, i'r ysgol ac i'r aelodau etholedig cynhwyswyd y costau cludiant ychwanegol.<br><br>Ar hyn o bryd (Medi 2010) mae 107 o blant oed cynradd yn byw yn nalgylch yr ysgol ardal newydd arfaethedig a hyn yn cynnwys 42 o ddalgylch Llwyngwril (heb gynnwys ardal bosib Rhoslefain). Mae dros 10% o'r rhain yn mynd i ysgolion y tu allan i ardal y pedair ysgol. Tybir y bydd ysgol newydd gyda grwpiau cyfoedion mwy a nifer uwch o athrawon yn ddeniadol i rieni ac yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion. |
| **6** | **Cludiant** | | |
| 6.1 | Bws ysgol heb oruchwyliaeth . dim gwregysau diogelwch, a iechyd a diogelwch/anhapus ynghylch cludo plant ifanc iawn ar fysiau. | 32 | Mae llu o blant oed cynradd Gwynedd yn cael eu cludo ar fws i'r ysgol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar gontractau cludiant gyda darparwyr unigol. Nid yw, ar hyn o bryd, yn mynnu bod raid wrth wregysau diogelwch ar fysiau nac ychwaith bod raid darparu goruchwyliaeth. |
| 6.2 | Nid yw'n gynaliadwy na fforddiadwy ac mae'n ddrwg i'r amgylchedd, mae'r bws yn gost dianghenraid, costau petrol yn cynyddu | 9 | Derbynnir y bydd cynnydd yn y traffig pe gweithredid ar y cynnig hwn. Fodd bynnag yn lle pedair ysgol o bob oed ac amryfal ddyluniadau y mae'n rhaid eu cynnal a'u cadw, eu goleuo a'u gwresogi ceid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | adeilad newydd – un amgylcheddol gadarn ac effeithlon o ran ynni. |
| 6.3 | Bydd ysgol feithrin a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol yn creu rhagor o broblemau cludiant – bydd plant sy'n dibynnu ar y cludiant a ddarperir yn cael eu cau allan o weithgareddau megis y clwb brecwast. | 5 | Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth feithrin cyn-ysgol yn Llwyngwril, ac felly mae'r rhieni hynny sydd am sicrhau addysg feithrin i'w plant yn gorfod teithio. Bydd darpariaeth yn yr ysgol newydd arfaethedig i blant o 2½ oed a bydd ynddi botensial i ddarparu ystod ehangach o weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol. |
| 6.4 | Ffordd beryglus. | 11 | Mae'r llwybr o Lwyngwril i'r safleoedd arfaethedig yn ardal Llanegryn/Bryncrug yn dilyn priffordd categori 'A'. Mae'n cael ei defnyddio'n helaeth, yn barod, gan bobl o bob oed a chan gynnwys plant ifanc iawn. |
| 6.5 | Beth sy'n digwydd petai plentyn yn cael ei daro'n wael yn yr ysgol neu ar y bws? | 9 | Staff yr ysgol sy'n gyfrifol am ofalu am blentyn tra fo yn yr ysgol. Disgwylid i staff ymateb yn briodol. |
| 6.6 | Beth sy'n digwydd pan fo plentyn wedi mynd oddi ar y bws a'r rhiant wedi'i ddal yn ôl ac yn hwyr yn cyrraedd – fydd y plentyn yn cael ei adael ar ben ei hun? | 1 | Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau y bydd ef yno i ddisgwyl y bws ac i drefnu cymorth addas pan fo ddim ar gael. Nid yw gyrrwr y bws yn gyfrifol am blentyn y mae ei riant heb gyrraedd pan fo'r bws yn cyrraedd. Weithiau, gan ddibynnu ar oed y plentyn, mae'r plentyn yn medru cerdded o'r arhosfan bws i'w gartref yn ddiogel cyn belled â'i fod yn dilyn y canllawiau yn y Côd Priffyrdd. |
| 6.7 | Bydd cludo plant ar fws i'r ysgol newydd ac ohoni'n cael effaith niweidiol ar eu bywydau beunyddiol oherwydd colli amser hamdden/amser teulu. | 5 | Polisi'r awdurdod lleol yw sicrhau na fydd disgwyl i blentyn deithio am ragor na 30 munud i un cyfeiriad – un ai i'r ysgol neu ohoni. Mae'r cynnig hwn yn bodloni'r amcan polisi hwn. |
| 6.8 | A fydd modd i rieni ddefnyddio'r bws? | 1 | Darperid bws i blant ysgol yn unig. |
| 6.9 | Mae Ysgol Llwyngwril mewn lleoliad cyfleus – gall pobl gerdded iddi neu fynd ar feic. | 7 | Derbynnir na fydd yr ysgol ardal newydd arfaethedig o fewn pellter cerdded i Lwyngwril. Cafodd y safleoedd sydd dan sylw i'r ysgol newydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | arfaethedig eu dewis am eu bod yn ganolog ac yn gyfleus i gymuned y pedair ysgol sy'n berthnasol i'r cynnig hwn. |
| 6.10 | Bydd plant oed addysg feithrin y mae eu rhieni yn gweithio yn colli allan pan fo'r rhieni hynny ddim yn gyrru a dim gwasanaeth bws amser cinio; heb fws dim ond rhieni sy'n medru fforddio i gludo'r plant all fynd i'r ysgol - gan greu anfantais i blant o deuluoedd heb gar. | 7 | Darperid addysg feithrin yn yr ysgol ardal. Mae'r llwybr o Lwyngwril i'r safleoedd arfaethedig yn dilyn prif ffordd. Ffordd a llwybr cludiant cyhoeddus cynradd a wasanaethir gan fysiau cyhoeddus. |
| 6.11 | Costau cludiant i rieni sy'n amharod i roddi eu plant ar y bws. | 2 | Bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim i'r holl blant sy'n bodloni ei feini prawf ysgolion. Felly buasai pob plentyn sy'n byw ymhellach na 2 filltir o safle'r ysgol newydd yn gymwys i gael cludiant am ddim. Mae hyn yn cynnwys holl blant presennol Llwyngwril. Mae'r rhieni'n rhydd i ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r cludiant a ddarperir.. |
| 7 | **Y Broses Statudol** | | |
| 7.1 | Mae yn y ddogfen statudol wallau, pethau wedi eu gadael allan, nid yw safon y papur ymgynghorol yn foddhaol, dim proffesiynoldeb. | 11 | Cafodd papur yr Ymgynghoriad Statudol ei ryddhau i'r holl ysgolion perthnasol i'r Ymgynghoriad Statudol ar 24 Mai 2010. 'Roedd ym mhapur Llwyngwril rai gwallau, ac yn cynnwys y term na ddylai fod ynddo, sef "papur ymgynghorol drafft" ar frig y papur a disgrifiad o ddiffiniad y Llywodraeth o leoedd gweigion yn nodi bod lleoedd gweigion sylweddol mewn ysgolion ac ynddynt 25% neu 30 o ddisgyblion, yn hytrach na'r diffiniad cywir - sef 25% neu rif o 30. Cywirwyd y gwallau hyn a pharatowyd taflen ddiwygiedig a rhannwyd, ar 13 Gorffennaf, gopi caled i bawb yr oedd gofyn ymgynghori â nhw, a rhannwyd copi electronig pan oedd y cyfeiriadau e-bost yn hysbys. Hefyd gosodwyd y daflen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddiwygiedig ar wefan y Cyngor ynghyd â'r ddogfen ymgynghorol wreiddiol. Gadawyd copïau sbâr yn yr ysgol a gyrrwyd rhagor ohonynt mewn ymateb i geisiadau'r ysgolion. Ychwanegwyd pythefnos at y cyfnod ymgynghori o 30 Gorffennaf 2010 hyd at 13 Awst 2010 er mwyn creu'r cyfle i ddosbarthu'r papur diwygiedig a hefyd bapur ychwanegol – papur yn cynnwys gwybodaeth am y lleoliadau hynny oedd dan ystyriaeth fel safleoedd i'r yr ysgol ardal newydd arfaethedig.<br><br>Mae'r awdurdod yn derbyn bod gwallau yn y ddogfennaeth wreiddiol ond mae wedi ceisio unioni pethau. |
| 7.2 | Yn annheg ac yn gamarweiniol, dim digon o wybodaeth am y cynnig. | 7 | Mae'r awdurdod wedi ymdrechu i gyflwyno disgrifiad cytbwys o fanteision ac o anfanteision posib y cynnig. |
| **8** | **Yr Iaith Gymraeg** | | |
| 8.1 | Buasai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal. | 8 | Derbynnir y bydd cau'r ysgol yn dileu sefydliad cyfrwng Cymraeg yn Llwyngwril. Fodd bynnag parheid i roddi addysg i'r plant yn unol â pholisi iaith Gymraeg yr awdurdod gan ddilyn yr un llwybr i addysg uwchradd. Nid oes rheswm i gredu y bydd unrhyw ostyngiad yn y defnydd a wna'r disgyblion o'r Gymraeg. Bydd raid i'r ysgol ardal newydd arfaethedig ganolbwyntio ar sefydlu cyswllt gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae sawl enghraifft y ymarfer da yn yr ardaloedd hynny a wynebodd ad-drefnu ysgolion yn y 1960au a llwyddo i gynnal cyswllt cryf gyda'r holl gymunedau cyfansoddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.2 | "Ni châi'r iaith Gymraeg ei dysgu mewn ysgol ganoledig" | 1 | Nid yw hyn yn wir. Disgwylir i holl ysgolion Gwynedd lynu wrth bolisi iaith y sir. Felly disgwylid i'r ysgol ardal newydd arfaethedig gefnogi'r broses o ddatblygu plant cwbl ddwyieithog. |
| 8.3 | Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant lleol. | 15 | Mae Ysgol Llwyngwril yn sefydliad cyfrwng Cymraeg mewn cymuned y mae ynddi gyfran fawr o breswylwyr di-Gymraeg. Comisiynodd yr awdurdod ymgynghorwyr allanol i gynnal astudiaeth ardrawiad ieithyddol ar y cynnig. Canfu'r ymgynghorwyr – ac mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod a hefyd cafodd ei gylchredeg yn eang – y bydd y cynnig i gau Ysgol Llwyngwril a thair ysgol arall gan greu un ysgol ardal newydd yn debygol o gael effaith bositif iawn ar y defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion a'u gallu ynddi. |
| 8.4 | Mae'n gymorth i blant di-Gymraeg mewnfudol ddysgu'r Gymraeg. | 8 | Buasai'r ysgol ardal newydd arfaethedig yn gweithredu ar bolisi iaith Gymraeg yr awdurdod ac yn cefnogi plant di-Gymraeg i ddod yn gwbl ddwyieithog. |
| 9 | **Cyffredinol** | | |
| 9.2 | Yn anhapus o weld plant mor ifanc â 4 yn cymysgu gyda rhai 11 oed. | 1 | Mae hyn yn digwydd yn barod yn Ysgol Llwyngwril ac ymhob ysgol gynradd arall yn y sir. |
| 9.3 | Fe ddylid bod wedi ystyried ffederaleiddio yn lle cau. | 1 | Yn ystod proses yr Arolwg Dalgylch ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio neu drefniadau i gydweithio rhwng Ysgol Llwyngwril ac eraill. Roedd y modelau'n cynnwys ffederaleiddio Ysgol Llwyngwril gydag Abergynolwyn, Bryncrug a Llanegryn, ac mewn model arall gydag Ysgol y Friog yn unig. Paratowyd costiadau a'u cylchredeg, yn y broses, ymhlith cynrychiolwyr yr ysgolion ac mae modd gweld y rhain ar wefan y Cyngor. Ar y diwedd ni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chafodd y rhain eu mabwysiadu fel sail i gynnig y dalgylch ac mae'r rhesymau'n ymddangos yn yr adroddiad hwnnw a gyflwynwyd i Gyngor Gwynedd ar 10 Rhagfyr 2010. |
| 9.4 | Mae cau yn diystyru teimladau a barn y bobl leol; nid yw Cyngor Gwynedd yn gwrando ac yn ystod y cyfarfodydd cyhoeddus pleidleisiwyd, yn unfrydol, yn erbyn cau'r ysgol. | 5 | Derbynnir bod gwrthwynebiad sylweddol yn Llwyngwril i'r bwriad i gau'r ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol newydd ar safle newydd y tu allan i Lwyngwril. Nid yw byth yn hawdd gwneud penderfyniad i gau ysgolion ond credir bod y cynnig hwn – o ran y tymor canolig i hir - yr opsiwn gorau yng nghyswllt darparu addysg wledig gynaliadwy ac o safon yn ardal Bro Dysynni. |
| 9.5 | Buasai symud plant o Ysgol Llwyngwril i ysgol arall yn creu aflonyddwch. | 1 | Gall unrhyw newid greu aflonyddwch. Buasai'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gefnogi'r ysgolion tra bydd yr ysgol ardal newydd arfaethedig yn cael ei chodi a hyn yn cynnwys mynd ati i feithrin trefniadau cydweithredol rhwng yr ysgolion perthnasol. |
| 9.6 | Mae gan bob rhiant yr hawl i addysgu ei blant lle bynnag y mynno – dymuniad pobl Llwyngwril yw addysgu eu plant yn Llwyngwril | 1 | Mae nifer o rieni Llwyngwril wedi penderfynu gyrru eu plant i ysgolion y tu draw i Lwyngwril. Ym Medi 2010 'roedd 20 o blant oed cynradd Llwyngwril (allan o gyfanswm 42) yn mynychu ysgolion eraill y tu draw i Lwyngwril.<br><br>Mae gan rieni'r hawl statudol i fynegi dymuniad ynghylch yr ysgol y bydd eu plant yn mynd iddi. Fodd bynnag nid yw hyn yn mynd cyn belled â phennu trefniadau'r Cyngor ynghylch trefniadaeth ysgolion – mae honno yn rhoddi sylw i sylwadau'r rheini a sylwadau eraill trwy broses ymgynghorol ffurfiol. |

**B5: Ymatebion i Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Ymestyn yr Ystod Oedran o Ysgol Pen Y Bryn, Tywyn o 4-11 i 3-11 oed yn Weithredol o 31 Awst 2011**

Derbyniwyd 5 ymateb ysgrifenedig:
1 Llythyr (1 yn Saesneg)
2 e-bost gyda llythyr ynghlwm (2 yn Saesneg)
1 E-bost (1 yn Gymraeg)
1 Llythyr eglurhaol gyda deiseb yn cynnwys 825 enw (Saesneg)

Sylwadau'n cynnwys rhai gan:
Cyngor Cymuned Tywyn, cyn arolygydd Cylch Chwarae Margaret Barnard, arweinydd Cylch Chwarae Margaret Barnard a rhieni

| **Cod Sylwad** | **Sylwadau** | **Nifer o ymatebion Ysgrifenedig oedd yn cynnwys y sylwad** | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Effaith y cynnig ar Cylch Meithrin Tywyn a Cylch chwarae Margaret Barnard** | | |
| 1.1 | Cyflwynwyd deiseb yn erbyn y "bygythiad o gau" roedd y cynnig i agor dosbarth meithrin yn Ysgol Penybryn yn ei osod ar y ddwy feithrinfa, ar y cyd gan y ddwy feithrinfa ac wedi ei harwyddo gan 825 o unigolion (27 Gorffennaf 2010) | 1 | Cafodd y ddeiseb ei chofnodi a rhoddwyd copi i aelodau etholedig. |
| 1.2 | Cefnogaeth i'r system bresennol i aros heb ei newid | 1 | Deellir y sylw. Am resymau a amlinellwyd gydol trafodaethau yn yr ardal, nid yw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | peidio â newid trefniadaeth yn ddewis i ysgolion. Pe cai'r cynnig hwn ei weithredu, cynhelir trafodaethau â chylchoedd chwarae lleol. |
| **2.** | **Addysg** | | |
| 2.1 | Mae'r ddwy feithrinfa ac Ysgol Penybryn wedi derbyn arolygiadau positif iawn gan ESTYN dros y flwyddyn ddiwethaf/Safon uchel o ran gofal | 3 | Mae ansawdd y ddarpariaeth yn y meithrinfeydd a'r ysgol yn dda iawn. Ni chaiff y cynnig hwn ei ysgogi gan bryder bod unrhyw un o'r darparwyr yn rhoi gwasanaeth gwael. |
| 2.2 | Mae ysgol Penybryn eisoes o dan bwysau i gynnal ei safonau addysgol uchel. Lleisiwyd pryder y byddai cynyddu nifer y disgyblion a'r dosbarthiadau yn gosod pwysau ychwanegol ar yr ysgol. / Sut gellid cwrdd â gofynion ychwanegol staffio ac adnoddau, os o gwbl? Pryder ynghylch gostyngiad yn niferoedd staffio. Pryder y byddai staff llai profiadol yn cael eu recriwtio yn yr ysgol er mwyn arbed arian. | 3 | Mae unrhyw gynnydd yn nifer disgyblion hefyd yn arwain at gynnydd mewn cyllid i sicrhau darpariaeth staffio priodol. |
| 2.3 | Byddai'r dosbarth meithrin yn Penybryn yn rhy fawr. Sut gellid cynnal y gymhareb briodol o ran oedolyn:plentyn? | 1 | Mae canllawiau Cyfnod Sylfaen yn amlinellu'n eglur y gymhareb oedolyn:plentyn sy'n ddisgwyliedig sef o leiaf un oedolyn ar gyfer pob 8 plentyn. Byddai'r gymhareb hon yn cael ei chynnal. |
| **3.** | **Cyllid** | | |
| 3.1 | Ystyriaethau ariannol yr ysgol yw'r unig ffactor sydd tu ôl i'r cynnig i agor dosbarth meithrin yn Penybryn. / "Ar ba gost mae'r AALL yn dymuno arbed arian – ar draul lles pob plentyn yn ardal Tywyn yn ôl pob sôn" | 3 | Mae Ysgol Penybryn yn un o ond tair ysgol (allan o 103) yng Ngwynedd – a'r unig ysgol yn nalgylch Tywyn – na all ddarparu addysg feithrin ar hyn o bryd. Bwriedir i'r cynnig sicrhau cysondeb o ran darpariaeth. |
| 3.2 | Pryder y byddai cyllid yn cael ei lyncu gan yr ysgol a dim yn cael ei wario ar y plant y cafodd ei fwriadu ar eu cyfer | 1 | Mae'r defnydd o gyllidebau ysgol yn rhywbeth i'r pennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol benderfynu arno. Fodd bynnag mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gan ysgolion ddyletswydd, o dan y cyfnod Sylfaen i sicrhau bod rhaglen Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei chyflwyno'n llawn. |
| **4.** | **Staffio ac Adnoddau** | | |
| 4.1 | Awgrym bod agor dosbarth meithrin yn Penybryn dan ystyriaeth yn unig am bod dosbarth meiithrin yn Aberdyfi ar hyn o bryd. Dywedwyd bod mwyafrif plant tair a pedair oed Aberdyfi eisoes yn mynychu cylchoedd meithrin Tywyn. Awgrymwyd bod plant 3 a 4 oed oedd yn mynychu Ysgol Aberdyfi yn gwneud hynny i "godi" nifer disgyblion yn Aberdyfi. / Ceir dewis o ddarparwyr meitgrin eisoes yn y dref ac nid oes angen i'r ysgol ddarparu addysg feithrin/ Mae gan gylchoedd chwarae ystod helaeth o offer addas sydd wedi ei ychwanegu ato dros y blynyddoedd - sut mae'r ysgol yn mynd i sicrhau'r un ddarpariaeth? | 2 | Ar hyn o bryd, mae Ysgol Penybryn yn un o ond tair ysgol gynradd nad yw'n statudol yn gallu darparu addysg feithrin. Buasai'r cynnig hwn yn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth ar draws y dalgylch; yn cynnwys cynnal y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion oed meithrin o Aberdyfi pe bai Ysgol Aberdyfi yn cau. Mae llawer o gymunedau eraill yng Ngwynedd yn cefnogi'n llwyddiannus ysgol (gyda dosbarth meithrin) ochr yn ochr â darpariaeth ysgol feithrin tu allan. |
| 4.2 | Bu cyfleusterau cylch chwarae yn y dref ers 65 mlynedd | 2 | Pe câi'r cynnig hwn ei weithredu, byddai'r angen am ddarpariaeth ar gyfer plant oedran meithrin yn parhau. |
| **5** | **Parodrwydd Plant i Fynychu'r Ysgol** | | |
| 5.1 | Nid yw'r plant yn barod i ddechrau ysgol - materion yn cynnwys gwahanu oddi wrth rieni, hyfforddiant toiledu, datblygiad lleferydd a iaith/ Staff yn y feithrinfa leol yn delio â damweiniau a gaiff plant ifanc yn sydyn ac yn ddi-st^w^r tra deellir byddai angen i rieni fynd i lanhau a newid dillad y plentyn yn yr ysgol, sydd yn peri pryder gan y gallai plentyn gael ei adael mewn budreddi am amser maith | 2 | Mae mwyafrif llethol plant yng Ngwynedd yn mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgol gynradd o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. |
| 5.2 | Pryder y byddai gosod plentyn 3 oed mewn ysgol o tua 250 o blant yn niweidiol i ddatblygiad y plentyn / Mae ysgolion meithrin lleol yn darparu amgylchfyd o gynhesrwydd, cyfeillgar a chefnogol | 3 | Ar hyn o bryd, mae plant tair oed yn mynychu dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion mwy na Ysgol Penybryn. Mae'r Cyfnod Sylfaen newydd yn sicrhau dilyniant llyfn o ran darpariaeth ar gyfer plant 3-7 oed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a byddai'r cynnig hwn yn cefnogi'r ddarpariaeth honno. |
| **6** | **Proses Ymgynghorol Statudol** | | |
| 6.1 | Diffyg gwybodaeth a rhybudd yn cael ei roi i rieni a staff ynghylch y cyfarfod ymgynghorol statudol, ni hysbyswyd y cylch chwarae a hysbyswyd rhai rhieni ynghylch y cyfarfod am 3:20yp ar ddiwrnod cynnal y cyfarfod | 1 | Oherwydd camddealltwriaeth, ychydig o rieni a fynychodd y cyfarfod statudol a gynhaliwyd yn Ysgol Penybryn. Oherwydd hynny, cafodd cyfarfod arall ei drefnu yn yr ysgol, a cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda Deilydd y Portffolio gyda'r ddau gylch chwarae yn ystod Haf 2010. |

**ATODIAD C –**
**DADANSODDIAD SESIYNNAU CASGLU BARN DISGYBLION**

Er mwyn casglu barn disgyblion yr ysgolion caiff eu heffeithio gan y cynnig, rhoddwyd y dewis i'r ysgol unai lenwi holiadur arbennig oedd wedi ei lunio gan hwylusydd plant a phobl ifanc, neu drwy sesiwn efo hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc.

Penderfynodd yr ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Penybryn lenwi holiaduron a'u hanfon yn ôl i'r Adran Addysg. Ar gais yr ysgol trefnwyd sesiwn yn Ysgol Aberdyfi gyda hwylusydd plant a phobl ifanc, a lluniwyd adroddiad gan yr hwylusydd. Ar gais yr ysgol, ni chafwyd barn disgyblion Llanegryn.

Holwyd y cwestiynau canlynol. Eglurwyd wrth y plant fod newid yn gallu ddigwydd a gofynnwyd eu barn ar hynny.

- Sut ydych yn teimlo am hyn?
- A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn?
- Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?
- Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol?

| **Ysgol Penybryn - Tywyn** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 35<br>20<br>6 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Na – does dim yn fy mhoeni<br>Bwlio<br>Plant yn gorfod teithio<br>Athrawon yn colli swyddi<br>Dim yn gwybod os wnâi ffrindiau neu beidio | 33<br>8<br>1<br>1<br>1 |
| Beth ydych yn edrych | Mwy o ffrindiau | 36 |

| | | |
|---|---|---|
| ymlaen ato fwyaf? | Athrawon newydd<br>Teganau newydd<br>Dim angen gwastraffu arian ar ysgolion bach<br>Dim yn edrych ymlaen | 2<br>1<br>1<br><br>1 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Dysgu<br>Athrawon da<br>Ffrindiau da<br>Rheolau<br>Dysgu parch<br>Gwrando<br>Bod yn gwrtais<br>Bod yn ddiogel | 11<br>13<br>9<br>10<br>4<br>3<br>3<br>2 |

| **Ysgol Abergynolwyn** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | Ni chafwyd yr wybodaeth yma |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Na – does dim yn fy mhoeni<br>Colli athrawon<br>Bydd yn drist gadael yr ysgol<br>Colli ffrindiau | 4<br>3<br>2<br>2 |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Ffrindiau newydd<br>Athrawon newydd<br>Teganau newydd<br>Labordy gwyddoniaeth<br>Cogyddes newydd<br>Adeilad newydd | 6<br>1<br>2<br>2<br>1<br>2 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Athrawon da<br>Ffrindiau<br>Chwarae<br>Cogyddes dda<br>Llyfrau<br>Adeilad da | 7<br>11<br>6<br>4<br>2<br>3 |

| **Ysgol Bryncrug** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |

| | | |
|---|---|---|
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 12<br>7<br>3 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Bwlis yn yr ysgol newydd<br>Athrawon yn colli swyddi<br>Dim cymaint o le chwarae<br>Ysgol yn rhy fawr<br>Poeni le fydd yr ysgol<br>Plant ddim yn cael sylw mewn dosbarth mawr<br>Plant yn mynd i ysgolion eraill – yr ysgol yn cael ei chwalu | 6<br>4<br>3<br>4<br>1<br>1<br><br>2 |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Ffrindiau newydd<br>Pethau/ ystafelloedd newydd<br>Popeth<br>Pethau newydd i chwarae efo nhw<br>Mwy o le chwarae<br>Dosbarth mwy<br>Popeth newydd | 13<br>3<br>3<br>2<br><br>2<br>2<br>2 |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Athrawon<br>Rheolau<br>Ffrindiau<br>Siop ffrwythau<br>Addysg dda<br>Ystafell chwarae<br>Lle chwarae a teganau | 14<br>12<br>8<br>4<br>3<br>2<br>1 |

| **Ysgol Llwyngwril** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 1<br>5<br>13 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Poeni am bwlio<br>Anodd gwneud ffrindiau newydd<br>Mynd ar y bws pob | Ni chafwyd gwybodaeth niferoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | dydd<br>Methu cerdded na mynd ar beic yn ddrwg i'r Amgylchedd<br>Diogelwch ar y bws sy'n cludo ni | |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Cael ffrindiau newydd a dosbarth mwy<br>Lle gwahanol i chwarae<br>Athrawon newydd<br>Cogyddes newydd<br>Cael antur newydd | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Ffrindiau<br>Addysg dda<br>Bwyd da<br>Athrawon neis<br>Amser chwarae<br>Dysgu darllen ac ysgrifennu | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |

| **Ysgol Aberdyfi** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 0<br>1<br>16 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Fyddwn ni ddim yn siarad cymaint o Gymraeg<br>Ni fydd yn bosib i ni gerdded i'r ysgol<br>Mae cinio Mrs Jones yn dda, fydd hi ddim yn gwneud cinio i ni<br>Mae ein ysgol yn llwyddiannus mewn cystadlaethau – fydd hyn yn newid?<br>Fydd neb eisiau byw yn Aberdyfi os na fydd | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgol yma. | |
| Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf? | Dim yn edrych ymlaen<br>Rhan fwyaf o'r plant yn dweud nad oeddent yn edrych ymlaen a bod eu hysgol nhw yn arbennig ("special") | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Athrawon clên a theg<br>Gweld ffrindiau<br>Cael siarad Cymraeg<br>Pawb yn cael cymeryd rhan mewn gweithgareddau<br>Gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn yr ysgol. | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |

**Atodiad CH: Ymgynghoriad Statudol Abergynolwyn – Tachwedd 2010**

**Cyfarfodydd Ymgynghoriad Abergynolwyn i Gau 31 Mawrth 2011**

**CYFARFOD YMGYNGHOROL STATUDOL YSGOL ABERGYNOLWYN**

**15 Tachwedd 2010, 18:00**

**STAFF, LLYWODRAETHWYR A RHIENI**

10 yn bresennol yn cynnwys cadeirydd llywodraethwyr, clerc llywodraethwyr, athrawes yr ysgol, gofalwraig yr ysgol, cynghorydd lleol, llywodraethwyr a rhieni.

Cadeirydd y llywodraethwyr yn croeso pawb i'r cyfarfod.

**Croeso a Materion Eisoes wedi ei Grybwyll**

Diolchodd y Pennaeth Addysg i glerc y llywodraethwyr am gofnodion y cyfarfod diwethaf a grybwyllwyd rhai materion gafodd ei godi yn ystod y cyfarfod diwethaf.
Ynglŷn a ol-defnydd, ail adroddwyd fydd gyfnod o 6 mis i'r gymuned greu cynllun busnes. Y bwriad yw i'r Cyngor Cymuned lleol cynnal cyfarfod agored. Mae eisiau arweiniad ar math o gefnogaeth a datblygiadau sydd yn bosib, tu allan i'r adran addysg. Fydd rhaid cysylltu a Hannah Joyce, Swyddog Adfywio Bro i Arfordir Meirionydd.
Cyngor yn gallu cadarnhau perchnogaeth gardd yr ysgol.
Cludiant wedi drefnu un ffordd i Ysgol Bryncrug i'r eneth meithrin.
Eglurwyd bod y llungopïwr ar gontract 5 mlynedd ac fyddai'n costio bron cyn gymaint i ganslo'r contract a fyddai i'w gadw. Mae'n edrych yn debyg bod ysgol arall yn yr ardal eisiau cymryd y contract drosodd. Fydd hyn yn arbed i pawb, cytunwyd bod hyn yn derbyniol a bod yn dderbyniol i swyddogion y Cyngor drefnu hyn
Mae e-byst a post y pennaeth yn cyrraedd Tony Bate.
Dywedwyd bod presenoldeb ar gyrff llywodraethwyr Ysgol Bryncrug yn mater i'r llywodraethwyr ei drefnu.

Cyflwynodd y pennaeth addysg y dogfen ymgynghorol statudol a dechreuodd mynd trwy'r dogfen.

**Lleoliad yr Ysgol Ardal Arfaethedig**

Cododd y pwynt am benderfyniad lleoliad yr ysgol ardal newydd, cynigodd y pennaeth addysg cyfle i rhoi eu barn ar y penderfyniad ond atgoffwyd bod mater ar wahân yw cau Ysgol Abergynolwyn. Roedd rhai aelodau'r cyfarfod eisiau rhoi eu barn ar y cyhoeddiad diweddar ar leoliad yr ysgol ardal yn Llanegryn. Arweiniodd cadeirydd y llywodraethwyr darn yma'r cyfarfod.

Ar 02/11/10 gafodd lleoliad yr ysgol ardal ei benderfynu, cefnogwyd safle ar gyrion Llanegryn gan Bwrdd y Cyngor. Dyma barn pobl presennol yn y cyfarfod:

- Siomedig bod yr ysgol yn mynd yn bellach i ffwrdd
- Safle niwtral roedd y bwriad, nid yw'n niwtral yn ganol Llanegryn. 10 milltir yn pell i blant deithio. Ni fel cymuned wedi bod yn dderbyniol o newid yn lleol er mwyn lles y plant a heb gwneud ffws. Teimlo nawr ein bod wedi cael ein gadael i lawr. Wedi cael ein barnu'n lleol am beidio codi ffws.
- Nid yw rhai yn deall rhesymau pam bod y safle niwtral ddim yn bosib. Ddim yn bosib cael pryniant gorfodol ar y safle ac nid yw'n bosib llusgo traed oherwydd amserlen sydd ar yr arian ar gael gan y Cynulliad.
- Wedi i'r ysgol cael ei sefydlu fydd rhaid cynnal fel ysgol ardal. Pellter yn mater seicolegol: mae'r ysgol yn mynd yn bellach a pellach o'r pentref. Cymuned wedi bod yn hyblyg a wedi dilyn y drefn a mae newid mawr rawn wedi codi briw. Arwain neu camarwain wedi creu elfen o siom. Mae Bryncrug yn bentref gymdeithasol. Mae anfodlonrwydd yn amlwg, mae'n gallu cael ei teimlo yn yr ystafell yma. Mae 6 o blant o'r bro yn cael ei codi gan bws am 8:15 y bore yn barod i gyrraedd Ysgol Bryncrug a mae Llanegryn yn bellach byth. Nid mater o fynd syth i lawr y Cwm yw gan bod y lon yn beryglus.
- Pan ymddeolodd yr hen bennaeth dywedodd ei bod yn gobeithio byddai plant yr Aber yn aros gyda'i gilydd gan eu bod yn arbennig. Ni fydd hyn yn digwydd gan bod opsiynau eraill ar gael, Ysgol Pennal neu Ysgol Dyffryn Dulas, Corris.
- Teimlad o siom wedi coleddu'r syniad.
- Pawb wedi gweithio'n galed i wneud y symud gweithio ond wedi colli ysbrydoliaeth. Teimlo bod angen cychwyn o'r cychwyn unwaith eto.

Dywedodd y pennaeth addysg ei bod eisiau gwneud yn glir bod y cynghorwr lleol wedi siarad ar eu rhan yn y Cyngor, bod eu llais wedi cael ei clywed. Hefyd roedd yn deall bod pobl y gymuned wedi rhoi lles y plant yn gyntaf wrth ystyried cau'r ysgol.

Arweiniodd y Pennaeth Addysg y drafodaeth o hyn allan a barhaodd i fynd drwy'r papur ymgynghorol statudol.

**Cefndir i'r Cynnig**

Ynglŷn a pwynt 1.6 cododd amgylchiadau penodol Ysgol Abergynolwyn, o ganlyniad dechreuwyd ail ymgynghoriad. Oes diben ymgynghori gyda plant Abergynolwyn eto? Mae'r cynnig yn bodoli gan y Cyngor ond angen penderfyniad gan rhieni a llywodraethwyr beth fyddai'n addas gan bod ymgynghori wedi digwydd unwaith yn barod gyda'r plant. Beth fyddai'r plant yn dweud yn wahanol? Oes barn fyddant eisiau mynegi? Trafodwyd y pwynt a penderfynwyd bod yn bwysig rhoi cyfle iddynt cael rhoi ei barn, eu dyfodol nhw yw ac mae'n bwysig cael barn y plant i'r Cynulliad. Cytunwyd bod yn bwysig peidio defnyddio'r plant. Cyfrifoldeb swyddogion y Cyngor trefnu cael ymateb y plant.

Mae cofnod o sylwadau yn cael ei gyflwyno ar lafar i pwyllgor craffu diwedd y mis.

**Rhesymau Dros Cyflwyno Cynnig Newydd**

Ni chafodd ymateb ysgrifenedig ei dderbyn yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn ystod Haf 2010 (pwynt 2.1). Y cyfarfod gafodd ei chynnal yw'r un pan trafodwyd y sefyllfa a gafodd penderfyniad unfrudol ei wneud i symud y plant Medi 2010 i Ysgol Bryncrug.

Cyfarfod dan sylw yn pwynt 2.6 yw'r un a drafodwyd a fydda'n briodol dechrau'r proses statudol. Mae'r cynnig yn uniongyrchol a'r sefyllfa yn Ysgol Abergynolwyn nawr.

**Rhesymau Dros Gau Ysgol Abergynolwyn**

Gafodd pwyntiau 3.1 a 3.2 eu crybwyll ynglŷn a'r rhwyd diogelu ariannol.
3.3 – fydd cyllideb yn mynd i'r adran addysg os fydd yr ysgol yn cau yn Mawrth 2011. Mae gwariant y tymor cyntaf wedi cael ei wario'n barod. Gwariant y gofalwraig yn unig fydd o nawr ymlaen.

Grybwyllwyd pwynt 3.6 a maint dosbarthiadau.

**Manteision Cau Ysgol Abergynolwyn**

Trafodwyd 4.1 eisoes ynglŷn a cyfleoedd gwell i'r plant wrth rhoi gyda'i gilydd.

Ffigyrau 4.2 ar sail y niferoedd sydd yn mynychu ysgolion ar hyn o bryd.

Mae ffigyrau yn mhwynt 4.5 ar ffigyrau nawr.

Arbedion cau ysgolion yn mynd i'r adran addysg. Mae rhan o'r arian i ddod i'r ardal ond ni fydd gweithrediad ar hyn tan diwedd ad-drefnu'r dalgylch cyfan. Cynllun yw hyn ond mae ymgynghori gyda llywodraethwyr i ddod.

**Anfanteision Cau Ysgol Abergynolwyn**

Gall pwynt 5.1 meddwl bod adnodd yn cael ei golli os ni dderbynnir y cynllun busnes.

**Effaith y Cynnig**

Eglurwyd os ni chaiff gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd y cyngor yn ystyried cau yr ysgol erbyn 31/03/11.
Mae cludiant am ddim i Ysgol Bryncrug wedi ei drefnu i bob ddisgybl ar hyn o bryd ac fydd hyn yn digwydd i'r ysgol ardal hefyd. Polisi yw bod bob plentyn yn

cael cludiant i'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosach am ddim os ydynt yn byw dros 2 filltir o'r ysgol.
Gafodd ei grybwyll am rhai plant sydd ddim yn derbyn cludiant am ddim ond roedd y plant yma eisoes yn mynd i Ysgol Bryncrug a eglurwyd mai dewis y rhieni oedd i mynd a'i plant i Bryncrug cynt. Bydda'r plant hyn yn derbyn cludiant petai Ysgol Abergynolwyn yn cau yn ffurfiol.

**Staffio**

Mae polisi yn bodoli ynglŷn a unrhyw diswyddiadau sydd yn digwydd.
Mae addewid yn ei le i gyflogi'r athrawes tan i'r ysgol ardal cael ei sefydlu. Nid yw'r addewid yma yn ymrwymo i unrhyw ysgol penodol, mae'r athrawes yn Penybryn a Bryncrug ar hyn o bryd ond ni fydd yn dilyn bod hyn fydd y trefniant tan i'r ysgol ardal cael ei sefydlu.
Gofalwraig pellach yn cael ei chyflogi am 5 awr yr wythnos i edrych ar ôl yr adeilad. Fydd yn debygol bod hyn am ddigwydd yn pellach na Mawrth 2011 gan bod rhaid cynnal yr adeilad. Pan gaiff yr ysgol ardal ei sefydlu fydd rhaid penodi pennaeth a athrawon. Fydd cynigion cyntaf i staff sydd yn gweithio yn ysgolion Bro Dysynni (Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril). Fydd athrawes Abergynolwyn ar yr un llwyfan a athrawon yr ardal wedyn.

**Camau Nesaf**

Croeso i unrhyw un mynegi barn ond fydd rhaid derbyn erbyn diwedd yr ymgynghoriad ar 26 Tachwedd 2010. Cynigwyd i'r gynulleidfa i fanteisio ar y cyfle heno, tra bod pawb yn bresennol, i ysgrifennu llythyr i mynegi barn. Fydd y cynnig yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn llafar ar 30 Tachwedd 2010.

Eglurwyd y broses gyda rhybudd statudol i gau a hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau ac os dderbynnir gwrthwynebiadau fydd y cynnig yn mynd o flaen y gweinidog addysg (profiad yn dangos all hyn cymryd amser maith). Os ni dderbynnir gwrthwynebiadau fydd yn mynd o flaen bwrdd y Cyngor. Dangoswyd yr ffigyrau a llif-ddeiagramau yn yr atodiadau. Grybwyllwyd bod y pobl presennol yn gefnogol o'r broses.

**Unrhyw Gwestiwn neu Sylw**

Gofynnwyd i'r swyddogion dechrau gwaith ymchwil i ddarganfod hawliau mynediad i'r ysgol. Cytunwyd fyddai'r gwaith yn cael ei yrru i swyddogion yr adran eiddo.

Cytunwyd i gysylltu yn nol gyda manylion y swyddog adfywio bro a defnyddio cadeirydd y llywodraethwyr fel pwynt cyswllt.

Diolchwyd i bawb am fynychu.

**SYLWADAU DISGYBLION ABERGYNOLWYN**

| **Ysgol Abergynolwyn** | | |
|---|---|---|
| | **Sylwadau** | **Nifer sylwadau** |
| Sut ydych yn teimlo am hyn? | ☺<br>😐<br>☹ | 4<br>6<br>0 |
| A oes rhywbeth yn eich poeni am hyn? | Ambell weithgaredd ddim mor dda.<br>Rhy bell o adref – gorfod codi yn gynt (eraill yn dadlau nad yw hyn yn broblem gan eu bodyn gorfod teithio ar dacsi beth bynnag)<br>Trist i adael Abergynolwyn<br>Roedden ni fel teulu bach yn Abergynolwyn<br>Colli Mrs Evans<br>Dim yn siŵr ble mae pethau | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |
| Beth ydych yn fwynhau am hyn? | Ffrindiau newydd<br>Hoffi'r plant bach meithrin<br>Llawer o blant yma<br>Mwy o deganau amser chwarae<br>Siop ffrwythau<br>Dim yr unig blentyn fydd yn mynd i fyny i'r ysgol uwchradd<br>Chwarae gemau gwahanol<br>Mynd i'r ardd unrhyw amser<br>Neuadd fawr – gallu gwneud sioe Nadolig<br>Ysgol feithrin a clwb ar ôl ysgol yn Bryncrug<br>Yn falch fod Miss Wyn yn ysgol Bryncrug hefyd<br>Digon o le | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |

| | | |
|---|---|---|
| Beth ydy'r pethau mwyaf pwysig i chi mewn ysgol? | Pawb yn ffrindiau<br>Rheolau<br>Bod yn ffeind<br>Athrawon<br>Meddwl am eraill<br>Digon o le<br>Bod yn garedig<br>Dysgu mewn ffyrdd diddorol<br>Iechyd a diogelwch<br>Helpu eraill | Ni chafwyd Gwybodaeth niferoedd |